# Arolygiaeth Dysgu

## Adolygiad annibynnol o Estyn

## Graham Donaldson

Mehefin 2018







## Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Llythyr i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a PAEM** | **1** |
| **Cydnabyddiaethau** | **2** |
| **Rhagair** | **3** |
| **1 Cyflwyniad** | **5** |
| **2 Cyd-destun presennol addysg yng Nghymru** | **6** |
| **3 Gwaith presennol Estyn: canfyddiadau a materion** | **14** |
| **4 Estyn, arolygu a diwygio addysg** | **27** |
| **5 Arolygu ysgolion yn y dyfodol** | **38** |
| **6 Arfarnu ar lefel systemau** | **51** |
| **7 Goblygiadau ehangach** | **55** |
| **8 Casgliadau** | **63** |
| **9 Argymhellion** | **69** |
| **Cyfeiriadau** | **73** |
| **Cylch gorchwyl** | **76** |

## Llythyr i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a PAEM

## Mehefin 2018

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet a PAEM

Ym mis Medi 2017, cefais fy nghomisiynu gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi, gyda chefnogaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, i gynnal adolygiad annibynnol o'r broses arolygu ysgolion yng Nghymru yng nghyd-destun y diwygiadau addysgol uchelgeisiol sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad o'r Adolygiad hwnnw i chi ei ystyried.

Rwyf am ddatgan fy ngwerthfawrogiad am yr ymateb cadarnhaol a defnyddiol iawn a gafwyd i'r Adolygiad. Rwy'n arbennig o ddyledus i ymgysylltiad agored ac adeiladol y staff yn Estyn.

Rwyf wedi clywed barn penaethiaid, athrawon ac ymarferwyr eraill, plant a phobl ifanc a rhieni a gofalwyr, ac wedi ymgysylltu'n ehangach â sbectrwm eang iawn o brofiad a barn.  Mae'r ymateb rhagorol i'm cais am dystiolaeth wedi gwneud cyfraniad pwysig at fy meddylfryd. Rwyf hefyd wedi defnyddio profiad ac ymchwil rhyngwladol blaenllaw wrth bennu argymhellion ar gyfer Cymru. O'i ystyried yn ei gyfanrwydd, credaf fod y corff cryf iawn hwn o dystiolaeth yn darparu sylfaen gadarn i'm casgliadau a'm hargymhellion.

Nod fy nghynigion yw galluogi Estyn a'i waith arolygu ysgolion i gyfrannu'n uniongyrchol ac yn adeiladol at y diwygiadau uchelgeisiol sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru. Eu bwriad yw sicrhau bod arolygu yn parhau i roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad y system, gan hefyd gyfrannu at eich uchelgais o gael ysgolion wrth graidd diwygio a gwella. Maent yn adeiladu ar lawer o gryfderau presennol arolygu yng Nghymru.

Mae teitl yr adroddiad, Arolygiaeth Dysgu, yn arwydd o'r rôl hanfodol y gall Estyn ei chwarae i wella dysgu'r bobl ifanc yn ysgolion Cymru, ac yn ein cyd-ddysgu ni ynglŷn â sut i gyflawni llwyddiant yn yr ymdrech honno.

Yn gywir



**Yr Athro Graham Donaldson, Cydymaith Urdd y Baddon**

# Cydnabyddiaethau

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a fu'n gysylltiedig â'r Adolygiad ac a gyfrannodd mor adeiladol o'r cychwyn cyntaf. Rwy'n arbennig o ddyledus i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM), Meilyr Rowlands, a symbylodd yr Adolygiad, am yr arweiniad agored ac adeiladol a roddodd i'r broses. Gwnaeth ymgysylltiad cadarnhaol y staff yn Estyn o'r cychwyn cyntaf argraff arnaf. Roedd eu cyfraniadau buddiol a chraff yn destun cryfder gwirioneddol yn fy ngwaith.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Kirsty Williams (Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg), ynghyd â Meilyr Rowlands, a welodd yr angen am adolygiad, a pharchwyd a hwyluswyd fy ngwaith gan y ddau ar y cyd.

Rwy'n ddyledus hefyd i'r holl benaethiaid, athrawon ac ymarferwyr eraill, plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr a'r ystod eang o sefydliadau, grwpiau ac unigolion a roddodd o'u hamser naill ai i rannu'u barn yn ysgrifenedig neu i gyfarfod â mi. Roedd swyddogion yn y llywodraeth genedlaethol a lleol yn ddiflino o ran eu cymorth trwy gydol yr adolygiad.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) a ymgymerodd â'r broses ar-lein a dadansoddi'r ymatebion i'm cais ffurfiol am dystiolaeth. Roedd adroddiad WISERD a ddeilliodd o hynny yn rhan bwysig o'm hystyriaethau.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cymorth hanfodol a roddwyd i'r Adolygiad gan Melanie Ehren, Ann Keane, Anne Looney a Syr Alasdair Macdonald a gynigiodd gyngor a sylwadau craff ar gyfnodau allweddol o'r broses. Yn benodol, roedd cyfraniad Dr Gill Robinson at roi'r wedd derfynol ar yr adroddiad yn amhrisiadwy.

Diolch arbennig i'r rheiny sydd wedi fy nghefnogi wrth ymgymryd â'r Adolygiad. Rwy'n ddyledus i Sarah Fulthorpe a Claire Habberfield yn Llywodraeth Cymru ac i Michaela Benjamin yn Estyn a lwyddodd i ymdopi'n wych â'r galwadau logistaidd a galwadau eraill sy'n nodweddu'r math hwn o waith.

Nid oes cyfrifoldeb gan unrhyw un a enwyd am gynnwys yr adroddiad hwn, ond buont yn amhrisiadwy yn ei ddatblygu.

**Graham Donaldson**

## Rhagair



Ers datganoli ym 1999, mae addysg yng Nghymru wedi gweld newidiadau dramatig o ran ffyniant a pholisi. Ar ôl cyfnod cychwynnol o optimistiaeth, arweiniodd perfformiad siomedig yn arolwg Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) 2009 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), a thystiolaeth arall a oedd yn peri pryder, at bwyslais cryfach ar ysgogi gwelliant drwy fesurau atebolrwydd.

Yn unol ag adroddiad gan yr OECD[1] yn 2015 ac argymhellion yn *Dyfodol Llwyddiannus*[2], mae Cymru bellach wedi cychwyn ar gamau radical pellach i drawsnewid addysg a hynny'n seiliedig ar gyfleu'r diben yn gliriach trwy ddatblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd.

Nod y cwricwlwm cenedlaethol newydd a'r trefniadau asesu yw gosod safonau uwch a gwneud dysgu'n fwy perthnasol a diddorol i bobl ifanc Cymru. Bydd y cwricwlwm yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â phedwar diben bras yn ymwneud â dysgu gydol oes, creadigrwydd, dinasyddiaeth a lles. Bydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu datblygu ar draws y cwricwlwm a thrwy gydol y cyfnod addysg orfodol.

Mae Cymru yn cydnabod yn ddoeth, er mwyn cyflawni uchelgais mor radical, y bydd rhaid i nifer o gydrannau cydgysylltiedig y system addysg ehangach newid. Bydd llai o gyfeiriad canolog a mwy o ymddiriedaeth mewn ysgolion, ynghyd â ffocws cryfach ar ddysgu proffesiynol a sefydliadol ac ymagwedd fwy cadarnhaol at atebolrwydd.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio goblygiadau'r agenda newid hon i un elfen hollbwysig o'r system gydgysylltiedig hon: yr arolygiaeth addysg, Estyn, a'i ddull o arolygu ysgolion.

Mae'r achos dros arolygu yn ddibynnol iawn ar ei allu i ddarparu naratif esboniadol sy'n torri drwy gymhlethdod ac yn amlygu lle mae angen gwelliant. Fodd bynnag, diffinnir y cysyniad arolygu yn wahanol mewn cyd-destunau diwylliannol a pholisi gwahanol. Yn benodol, mae dibenion a ffurfiau amrywiol posibl arolygu ysgolion wedi amrywio dros gyfnod ac mewn gwledydd gwahanol. Hyd yn oed yn amrywiol awdurdodaethau'r Deyrnas Unedig, mae natur a rôl arolygu wedi mynd yn fwyfwy gwahanol.

Dylanwadir ar ganfyddiadau ynglŷn ag arolygu a'r arfer o arolygu ei hun gan y cyd-destun ehangach y mae'n gweithio ynddo. Yn ei *Bratislava Memorandum*[3] 2013, mae Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog Arolygiaethau (SICI) yn cydnabod bod natur a

[1] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2014), *Improving Schools in Wales,* OECD Paris

[2] Donaldson G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus.* Llywodraeth Cymru

[3] SICI (2013) *Bratislava Memorandum on Inspection and Innovation http://www.sici-inspectorates.eu/getattachment/ae886cf8-33b3-457d-a90a-d06ae4af5954*

diben arolygu, yn anochel, yn adlewyrchu traddodiadau a pholisïau gwlad a'u bod yn newid dros gyfnod. Mae prif ffocws y broses arolygu yn amrywio hefyd. Athrawon unigol yw eu prif ffocws mewn rhai gwledydd, tra bod gwledydd eraill yn mabwysiadu dulliau sy'n canolbwyntio ar yr ysgol a'i heffeithiolrwydd cyffredinol.

O ystyried bod rôl a natur arolygu yn ddiwylliannol a gwleidyddol ddibynnol iawn, mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad yn awgrymu nifer o nodweddion a ddylai ddiffinio dibenion a phriodweddau arolygu ysgolion yng Nghymru wrth i'r wlad gychwyn ar ei diwygiadau addysgol. Amlinellir y rhain ym mhennod 5 yr adroddiad hwn.

Mae Estyn yn sefydliad a chanddo draddodiad hir a hanes cadarn o arolygu ysgolion. Fe ddaeth yn glir o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad hwn fod yna gefnogaeth eang i'w waith. Hefyd, credir y gall chwarae rhan bwysicach yn y dirwedd addysgol newydd. Mae i'r cyd-destun datblygol ar gyfer addysg yn ysgolion Cymru oblygiadau sylweddol i rôl a gweithrediad Estyn yn y dyfodol. Yn benodol, mae angen ailystyried y cyd-adweithio rhwng sicrwydd a chefnogaeth ar gyfer gwella.

O'u cymryd ynghyd, mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cynnig gwahaniaethau sylweddol i rôl Estyn a'i ffyrdd o weithio. Bydd eu gweithredu yn mynnu cynllunio gofalus a'u cyflwyno fesul cam wrth i'r diwygiadau ymffurfio mewn ysgolion ar hyd a lled Cymru. Rhaid sicrhau bod y ffocws o'r cychwyn cyntaf ar wella cyfraniad Estyn at godi safonau a gwella ansawdd y dysgu i bobl ifanc Cymru.



# 1 Cyflwyniad

Prif Arolygydd Addysg EM, gyda chefnogaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a gomisiynodd yr Adolygiad hwn o agweddau allweddol ar rôl a gweithrediad Estyn. Prif ddiben yr Adolygiad oedd dadansoddi goblygiadau agenda diwygio addysgol Cymru i waith Estyn, gyda ffocws penodol ar arolygu ysgolion. Er na ofynnwyd i'r Adolygiad edrych ar waith Estyn yn ei gyfanrwydd, mae wedi nodi nifer o oblygiadau ehangach yn ogystal.

Ymgysylltodd yr Adolygiad ag ystod eang o unigolion a sefydliadau ar hyd a lled Cymru. Yn ogystal ag archwilio corff helaeth o ddogfennau, cynhaliwyd cyfweliadau gyda staff Estyn, grwpiau o benaethiaid ac athrawon, disgyblion a rhieni, a staff mewn llywodraeth leol a chenedlaethol, gan gynnwys o'r consortia rhanbarthol. Ymwelwyd ag ysgolion a oedd wedi cael eu harolygu'n ddiweddar, ac arsylwyd ar agweddau ar arfer arolygu cyfredol. Yn ehangach, dadansoddwyd ymchwil a thystiolaeth arall o dueddiadau ac arfer yn rhyngwladol. Yn sgil Cais ffurfiol am Dystiolaeth, yr ymgymerwyd ag ef gan WISERD o Brifysgol Caerdydd[4], derbyniwyd 505 o ymatebion dilys drwy holiadur ar-lein.

Er y cymerwyd llawer o'r dystiolaeth o brofiad arolygu presennol a phrofiad blaenorol uniongyrchol, mae byrdwn yr adroddiad hwn yn edrych i'r dyfodol. Yn gyntaf, mae'r adroddiad hwn yn ystyried nodweddion allweddol diwygiadau addysgol presennol yng Nghymru a'u goblygiadau ar gyfer arolygu, atebolrwydd a gwelliant. Wedyn, mae'n archwilio natur ymagweddau Estyn at ei rolau amrywiol ac yn nodi materion perthnasol i fynd i'r afael â nhw. Mae Adrannau 5 a 6 yn argymell ffyrdd i allu gwella ymhellach gyfraniadau Estyn at ddarparu sicrwydd a gwelliant. Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau ehangach i waith Estyn ac addysg yng Nghymru.

[4] Taylor C., Power S., Powell R., (2018) *Independent Review of Estyn's Contribution to Wales's Education Reform Programme* WISERD, Prifysgol Caerdydd

## 2 Cyd-destun Presennol Addysg yng Nghymru

Bu ymrwymiad cadarn gan Gymru i addysg yn draddodiadol, ynghyd â chred ym mhwysigrwydd gwireddu potensial ei holl bobl ifanc. Ar hyn o bryd, mae ganddi 1,547 o ysgolion a gynhelir a 70 o ysgolion annibynnol sy'n gwasanaethu oddeutu 467,000 o fyfyrwyr ysgol a chyn-ysgol. Mae'r system ysgol yn cynnwys 11 o feithrinfeydd, 1,287 o ysgolion cynradd, 10 o ysgolion pob oed, 200 o ysgolion uwchradd, 23 o Unedau Cyfeirio Disgyblion a 39 o ysgolion arbennig.[5]

Yn adolygiad polisi'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) o addysg Cymru[6] yn 2014, nodwyd natur gynhwysfawr ei system ysgolion gyda phwyslais ar degwch a chynhwysiant fel cryfderau amlwg. Yn galonogol, tynnodd sylw at y ffaith fod perfformiad myfyrwyr yn llai dibynnol ar ysgol a chefndir economaidd-gymdeithasol myfyriwr na chyfartaledd yr OECD.

Nododd adroddiad yr OECD amgylcheddau dysgu cadarnhaol a pherthnasoedd da rhwng athrawon a myfyrwyr fel nodweddion da mewn addysg yng Nghymru. Cyfeiriodd at y doreth gyfoethog o ddata asesu ac arfarnu sydd ar gael ar lefelau gwahanol o'r system i wella polisi ac arfer. Fodd bynnag, gwelodd ddiffyg cydlyniaeth yng nghyfanrwydd trefniadau asesu ac arfarnu a dywedodd, '…mae Cymru wedi cael anhawster yn taro cydbwysedd rhwng atebolrwydd a gwelliant.[7]

Siglwyd hyder cadarn hyd yma yn ansawdd addysg ysgolion Cymru yn dilyn perfformiad cymharol wael yn arolwg PISA 2009 yr OECD. Roedd perfformiad, disgyblion 15 oed yng Nghymru yn sylweddol islaw cyfartaledd yr OECD, ac ar gyfer darllen a mathemateg yn benodol.

Yn 2011, er mwyn ymateb i'r canlyniadau PISA siomedig hyn, law yn llaw â phryderon ynghylch perfformiad mewn TGAU o gymharu â Lloegr a thystiolaeth arolygu, dechreuodd Cymru ar raglen fawr o ddiwygio ysgolion. Rhoddwyd nifer o fentrau arwyddocaol[8] ar waith mewn asesu ac atebolrwydd fel rhan o ffocws polisi cryfach ar welliant ysgolion. Roedd newidiadau i asesu yn cynnwys cyflwyno Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a gofyniad statudol i adrodd ar gynnydd disgyblion mewn perthynas â disgwyliadau a bennwyd yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) cenedlaethol. Daeth gwerthusiadau blynyddol o athrawon ac arweinwyr ysgol yn rhan o reoli perfformiad. Cyflwynwyd trefniadau bandio ysgolion (categoreiddio ysgolion erbyn hyn) i lywio nodi ysgolion ar gyfer derbyn cymorth.

Menter bellach oedd sefydlu Her Ysgolion Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2014 i fynd i'r afael â phryderon ynghylch ysgolion yn tanberfformio, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig. Yn ogystal â hyrwyddo gwelliant yn y 40 o ysgolion cysylltiedig, bwriad y rhaglen hefyd oedd nodi goblygiadau ehangach ar gyfer y

[5] Llywodraeth Cymru (2017) Cyfrifiad Ysgolion
[6] OECD (2014), *Improving Schools in Wales,* OECD Paris
[7] ibid
[8] Llywodraeth Cymru (2012) *Cynllun Gwella Ysgolion*

system yn fwy cyffredinol. Nododd yr adroddiad arfarnu a gyhoeddwyd yn 2017, '…werth diagnosis gofalus o drywyddau ac anghenion ysgolion unigol, ac amlygodd bwysigrwydd cymorth wedi'i deilwra a helpodd i fodloni'r anghenion hynny'n benodol.'[9]

Fe wnaeth adroddiad 2014 yr OECD [10], a ysgrifennwyd wrth i'r diwygiadau hyn barhau i ymwreiddio, dynnu sylw at nifer o heriau i bolisi yng Nghymru. Soniodd am faterion yn gysylltiedig â gwahaniaethu ac asesu ffurfiannol, gan olygu nad oedd ysgolion yn gallu ymateb i anghenion dysgu pob myfyriwr. Gwnaeth sylw hefyd ar yr angen am i fwy o sylw gael ei roi i, '...bolisïau recriwtio, datblygiad proffesiynol a dilyniant ar gyfer athrawon, arweinwyr ysgol a staff cymorth.' Yn benodol, dywedodd, '...mae cyflymder y diwygio wedi bod yn uchel a cheir ynddo ddiffyg gweledigaeth hirdymor, seilwaith ddigonol ar gyfer gwella ysgolion a strategaeth weithredu glir y mae'r holl randdeiliaid yn ei rhannu.' Yn rhannol er mwyn ymateb i adroddiad yr OECD, amlinellodd Llywodraeth Cymru raglen ddiwygio newydd yn 2014, sef *Cymwys am Oes*.[11]

Roedd pwysau'n cynyddu hefyd i gynnwys cynnwys newydd ac ehangu'r craidd yn y cwricwlwm cenedlaethol. I ymateb i'r pwysau hyn, gofynnwyd i Graham Donaldson (awdur adroddiad yr Adolygiad hwn) gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad annibynnol o'i chwricwlwm cenedlaethol a'i threfniadau asesu. Adleisiodd ei adroddiad yn 2015, *Dyfodol Llwyddiannus*,[12] ganfyddiad yr OECD fod angen ymdeimlad newydd o ddiben ar gyfer addysg ysgolion yng Nghymru. Roedd ei 68 o argymhellion yn cyflwyno llwybr diwygio a oedd yn radical wahanol i'r un a ddilynwyd yn y gorffennol diweddar. Yn benodol, argymhellodd Donaldson y dylai'r cwricwlwm geisio datblygu pobl ifanc yn: ddysgwyr llwyddiannus, galluog; dinasyddion egwyddorol, gwybodus; cyfranwyr mentrus, creadigol; ac unigolion iach, hyderus. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, derbyniwyd yr argymhellion gan Lywodraeth Cymru yn llawn[13].

Yn ogystal ag argymell y pedwar prif ddiben cyffredinol ar gyfer y cwricwlwm a nifer o nodweddion strwythurol, cyflwynodd *Dyfodol Llwyddiannus* achos cryf dros ddiwygiadau cysylltiedig i addysg athrawon, arweinyddiaeth ac atebolrwydd. Yn ogystal, cyflwynodd achos dros ymagwedd lai canolog at ddiwygio a rheoli addysg ysgolion yng Nghymru. Argymhellodd ymagwedd at ddiwygio a fyddai'n cynnwys llai o gyfarwyddyd o'r canol ac ymgysylltiad mwy uniongyrchol gan athrawon ac arweinwyr ysgol wrth lunio'r cwricwlwm.

Rhoddwyd ysgogiad pellach i bwysau i ddiwygio pan ddangosodd canlyniadau PISA 2015 fod myfyrwyr Cymru'n dal i berfformio islaw cyfartaledd yr OECD. Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf o raglen arolygu Estyn[14] yn dangos, er bod darpariaeth dda neu ragorol mewn bron i wyth o bob deg ysgol gynradd, dim ond tua 50% o'r

[9] Llywodraeth Cymru (2017) *Asesu cyfraniad Her Ysgolion Cymru i ganlyniadau a gyflawnwyd gan ysgolion Llwybrau Llwyddiant.* Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 38/2017
[10] OECD (2014), *Improving Schools in Wales,* OECD Paris
[11] Llywodraeth Cymru (2014) *Cymwys am Oes*
[12] Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Llywodraeth Cymru
[13] Llywodraeth Cymru (2015), *Cymwys am Oes: Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am oes*, Llywodraeth Cymru, Caerdydd.
[14] Estyn (2018) *Adroddiad Blynyddol PAEM 2016-2017*

ysgolion uwchradd a arolygwyd sydd â deilliannau da neu ragorol. Soniodd Estyn am bryderon ynghylch ansawdd yr addysgu neu asesu fel ffactorau pwysig yn y deilliannau heb fod cystal ar gyfer ysgolion uwchradd.

Yn dilyn adolygiad pellach gan yr OECD yn 2017,[15] amlinellodd Llywodraeth Cymru raglen ddiwygio 'drawsnewidiol' yn ei chyhoeddiad, *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-2*[16]. Dyluniwyd y rhaglen i ymateb i'r 'amgylchedd heriol' a ddisgrifiwyd uchod, a chafodd ei llywio gan *Dyfodol Llwyddiannus* a'r adolygiadau a gynhaliwyd gan yr OECD.[17][18] Yn cwmpasu'r cyfnod 2017-21, mae ei diwygiadau addysgol a gynlluniwyd yn canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau cwricwlwm ac asesu radical i'w cefnogi gan bedwar o 'amcanion galluogi'. Mae'r amcanion galluogi hyn yn cynnwys:

- datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel
- arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau
- ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymroddedig i ragoriaeth, tegwch a lles
- trefniadau asesu, arfarnu ac atebolrwydd cadarn yn cefnogi system o hunanwella

Gan ddefnyddio tystiolaeth ymchwil ar effaith diwygio addysgol, roedd y rhaglen ddiwygio yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â newid radical mewn modd systematig. Roedd y *Cynllun Gweithredu* felly yn amlinellu'r ffactorau a fyddai'n debygol o arwain at wireddu uchelgeisiau'r llywodraeth yn llwyddiannus. Nodwyd y goblygiadau dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth yn deillio o'r cwricwlwm newydd, a rhoddwyd manylion y ffyrdd i fynd i'r afael â nhw yn y cynllun. Mae safonau proffesiynol newydd a sefydlu Academi Arweinyddiaeth Cymru ill dau yn enghreifftiau o'r ymagwedd gydgysylltiedig hon at ddiwygio. Yn ogystal, roedd y cynllun yn cydnabod yn benodol yr angen i adolygu trefniadau atebolrwydd ac asesu.

Yn ychwanegol at nodi cyd-ddibyniaethau yn systemaig, mae'r diwygiadau yng Nghymru yn cynnwys nodwedd bwysig ac arloesol arall. Yn unol â'r argymhellion yn 'Dyfodol Llwyddiannus'[19] a thystiolaeth ymchwil am newid addysgol llwyddiannus, mae'r diwygiadau wedi mynd rhagddynt ar sail sybsidiaredd lle mae '...pŵer yn aros mor agos â phosibl at y gweithredu'[20]. Mae hynny'n golygu cadw cryn fesur o'r penderfyniadau ynglŷn â'r cwricwlwm, addysgu a dysgu mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth. Bwriad yr egwyddor sybsidiaredd yw gwella ymatebolrwydd i'r cyd-destun lleol a chynyddu perchnogaeth ar ddiwygio ar lefel ysgolion.

Mae'r ymagwedd sybsidiaredd wedi'i chymhwyso i ddatblygu'r fframwaith cwricwlwm cenedlaethol newydd. Yn 2015, gwahoddwyd ysgolion ledled Cymru i wirfoddoli i ddod yn 'Ysgolion Arloesi' i gyfranogi'n uniongyrchol yn nyluniad a manylder y cwricwlwm newydd. Rhoddwyd y gwaith o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm newydd i'r rhwydwaith canlyniadol o ryw 180 o ysgolion. Un cryfder arbennig y model 'cyd-lunio' hwn yw cydberthynas datblygu a gweithredu. Mae agosrwydd ysgolion arloesi

[15] OECD (2017) *The Welsh Education Reform Journey: A Rapid Policy Assessment,* OECD Paris
[16] Llywodraeth Cymru (2017), *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21*
[17] OECD (2014), *Improving Schools in Wales,* OECD Paris
[18] OECD (2017) *The Welsh Education Reform Journey: A Rapid Policy Assessment,* OECD Paris
[19] Donaldson G (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*, Llywodraeth Cymru
[20] ibid, tudalen 99

at y cyd-destun y byddai'r cwricwlwm yn cael ei wireddu ynddo yn ymarferol yn golygu y dylent fod mewn sefyllfa gref i nodi a chefnogi goblygiadau adnoddau a dysgu proffesiynol y cwricwlwm newydd. Nid yn unig y mae ysgolion arloesi yn ganolog i ddatblygu, mae ganddynt y potensial hefyd i fod yn bwyntiau tyfu i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth ar hyd a lled Cymru.

Mae llwyddiant yr egwyddor sybsidiaredd yn dibynnu ar allu a hyder ysgolion ac athrawon i fanteisio'n llawn ar y cynigion y mae'n eu cynnig. Mae'r *Cynllun Gweithredu 2017-2021* felly'n rhagweld y bydd pob ysgol yng Nghymru yn datblygu yn 'sefydliadau dysgu' ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r OECD a'r consortia rhanbarthol i archwilio ffyrdd i gefnogi'r nod hwn. Mae'n gweld creu diwylliant dysgu, nid yn unig mewn ysgolion ond yn fwy cyffredinol hefyd, fel rhan annatod o'r weledigaeth *Cwricwlwm i Gymru* yn dod yn realiti i bobl ifanc ledled y wlad. Mae angen i hunanarfarnu effeithiol, gydag ysgolion yn nodi'r ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd dysgu'u plant, fod yn elfen hanfodol o'r diwylliant dysgu hwnnw.

Caiff dulliau presennol o hunanarfarnu mewn ysgolion yng Nghymru eu llywio gan arweiniad gan Lywodraeth Cymru[21], Estyn[22] a'r consortia rhanbarthol, yn ogystal â dulliau penodol a ddefnyddir mewn ysgolion unigol. Datblygwyd y dulliau amrywiol hyn ar wahân a gallai fod dryswch ynghylch beth ddylai nodweddion craidd hunanarfarnu fod fel rhan o ddiwylliant dysgu ehangach. I gydnabod pwysigrwydd hunanarfarnu effeithiol i ddysgu sefydliadol a phroffesiynol, mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd yr OECD ac Estyn i ddatblygu canllawiau cenedlaethol, gan ddilyn yr un egwyddor cyd-lunio fras sy'n cael ei defnyddio i greu fframwaith y cwricwlwm newydd. Dechreuodd y gwaith hwnnw yn ystod cyfnod yr Adolygiad hwn.

Mae'r diwygiadau addysgol wedi'u gosod hefyd yng nghyd-destun perthnasoedd newidiol rhwng lefelau gwahanol o lywodraeth. Datganolwyd pwerau sylweddol, gan gynnwys addysg, i Gynulliad newydd Cymru ym 1999. Mae Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru (yr Adran Addysg yn flaenorol) yn cynnal y rôl allweddol o lywio'r system ond, ers tua 2014, mae ei rôl strategol wedi newid o un cyfeiriad tuag at fwy o bwyslais ar hwyluso.

Mae dau ar hugain o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am ariannu ysgolion a gynhelir ac am gefnogi myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Sefydlwyd pedwar consortiwm rhanbarthol yn 2012 fel rhan o'r diwygiadau *Gwella Ysgolion*, i ehangu swyddogaethau gwella ysgolion awdurdodau lleol. Y bwriad oedd darparu defnydd mwy cydlynus o adnoddau llywodraeth leol i ysgogi gwelliant. Yn 2014, sefydlwyd Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol a gryfhaodd rolau her a chymorth y consortia, gyda ffocws cryf ar weithredu'r system genedlaethol ar gyfer bandio (categoreiddio erbyn hyn) ysgolion. Fe wnaeth y model cenedlaethol gyflwyno rôl ymgynghorwyr her hefyd i gynorthwyo a herio ysgolion i wella ac i bennu'r lefelau cymorth parhaus yn seiliedig ar y broses gategoreiddio. Ar ôl rhai anawsterau cychwynnol, mae adroddiadau monitro diweddar Estyn ar y consortia yn cyflwyno darlun sy'n gwella, gyda thri o'r pedwar consortiwm wedi cael adroddiadau cadarnhaol.

[21] Llywodraeth Cymru (2016), *System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion Dogfen Ganllaw ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, Canllawiau*, Llywodraeth Cymru , Caerdydd

[22] Estyn (2017) Arweiniad Atodol: hunanarfarnu

## Arolygu

Mae arolygu ysgolion yn y Deyrnas Unedig, yn gyffredin â llawer o wledydd Ewropeaidd, yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 19eg ganrif. Mae arolygiadau ysgol cenedlaethol wedi'u cynnal ar wahân yng Nghymru er 1907 gan Arolygwyr Addysg Ei Mawrhydi (AEM). Yn unol ag egwyddorion a phrosesau recriwtio'r gwasanaeth sifil, caiff arolygwyr eu penodi drwy gystadleuaeth agored, ond dynodir eu hannibyniaeth oddi wrth lywodraeth y dydd drwy eu statws neilltuol fel penodiadau'r Goron, wedi'u cymeradwyo gan y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor.

Ers eu creu, mae rôl AEM wedi troi rhwng arolygu ysgolion unigol a darparwyr eraill a darparu polisi a chyngor i'r llywodraeth. Yn y cyfnod yn union cyn 1983, roedd arolygu'n canolbwyntio'n bennaf ar fonitro ansawdd y system, gan nodi pryderon systemig a chynghori'r llywodraeth. Dim ond i awdurdodau canolog a lleol, ac i'r ysgol ei hun, yr oedd adroddiadau o arolygiadau ffurfiol yn cael eu darparu. Yn anfynych yn unig yr oedd ysgolion yn cael eu harolygu'n ffurfiol, er bod ymweliadau anffurfiol yn gyffredin. Yn y flwyddyn honno, cyhoeddwyd adroddiadau arolygu ffurfiol neu lawn ar ysgolion unigol am y tro cyntaf. Pryder gwleidyddol cynyddol ynghylch safonau addysg oedd y cymhelliant ar gyfer y symudiad hwn, wedi'i ysgogi gan y gred fod perfformiad economaidd y Deyrnas Unedig yn cael ei rwystro gan system ysgolion nad oedd ganddi ddigon o ffocws ar realitioedd economaidd. Siaradai gwleidyddion yn agored am agor 'gardd gudd' y cwricwlwm ysgol i fwy o graffu cyhoeddus. Er nad ymgymerwyd ag ef eto ar sail systematig na chylchol, roedd y symudiad hwn tuag at arolygu ac adrodd yn fwy ffurfiol ar ysgolion yn symudiad cychwynnol pwysig tuag at atebolrwydd a thryloywder sefydliadol mwy uniongyrchol.

Digwyddodd y newid allweddol nesaf yn yr ymagwedd at arolygu ac atebolrwydd o ganlyniad i Ddeddf Addysg 1992 a sefydlodd Swyddfa Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru fel adran Anweinidogol y gwasanaeth sifil. Hefyd, cyflwynodd y Ddeddf ofynion deddfwriaethol ar gyfer arolygu ac adrodd cylchol ar lefel ysgolion unigol a rhoi arolygiadau ysgolion ar gontract allanol i gwmnïau unigol a fyddai'n tendro am gontractau. Gan gael ei hariannu yn y lle cyntaf gan San Steffan, daeth yr arolygiaeth yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ym 1999. Roedd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) a'i staff yn parhau'n benodiadau gan y Goron.

Swyddfa Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi oedd yr enw gwreiddiol, a gelwir yr arolygiaeth yng Nghymru yn Estyn erbyn hyn, sef enw sy'n awgrymu "estyn (allan), ymestyn neu ehangu". Yn 2000, dyletswyddau statudol Estyn oedd arolygu ac adrodd ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yn cael eu darparu yng Nghymru, gan gynnwys addysg cyn-ysgol, ysgolion a gynhelir ac ysgolion preifat, sefydliadau addysg bellach, ac awdurdodau lleol.

Mae deddfwriaeth 2005[23] yn amlinellu dyletswyddau PAEM mewn perthynas ag ysgolion fel a ganlyn.

[23] UK Parliament Acts/E/EA-EG/Education Act 2005 (2005 c 18) Pennod 3 School Inspectors and School Inspections: Wales

Mae gan y Prif Arolygydd ddyletswydd gyffredinol i roi gwybodaeth reolaidd i'r llywodraeth a'r cyhoedd am:

(a) ansawdd yr addysg a ddarperir gan ysgolion yng Nghymru,

(b) i ba raddau y mae'r addysg honno yn bodloni anghenion ystod y disgyblion yn yr ysgolion hynny,

(c) y safonau addysgol a gyflawnir yn yr ysgolion hynny,

(ch) ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ysgolion hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r ysgolion hynny'n cael eu rheoli'n effeithlon,

(d) datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn yr ysgolion hynny, a

(dd) y cyfraniad a wneir gan yr ysgolion hynny at les y disgyblion hynny,

(e) camau a gymerir mewn ysgolion a gynhelir i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach].

Wrth ymgymryd â'r dyletswyddau hyn a'r rheini a bennwyd mewn deddfwriaeth arall a chan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae Estyn bellach yn gyfrifol am arolygu ac adrodd ar y canlynol[24]:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau)
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- colegau arbenigol annibynnol
- addysg bellach
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- dysgu yn y gwaith
- cwmnïau gyrfaoedd
- dysgu troseddwyr

Yn ôl Adroddiad Blynyddol PAEM 2016-2017, cynhaliodd Estyn oddeutu 2,700 o arolygiadau yn y cylch arolygu 2010-2017.[25] Cafodd yr holl ddarparwyr addysg a

[24] Estyn (2016) *Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Estyn* https://www.estyn.llyw.cymru/document/fframwaith-llywodraethu-corfforaethol-estyn

[25] Estyn (2018) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016-2017*

hyfforddiant yng Nghymru eu harolygu o leiaf unwaith, ynghyd â 1,000 o ymweliadau dilynol a 100 o adolygiadau thematig cenedlaethol.

Mae trefniadau arolygu newydd wedi'u cyflwyno o ddechrau sesiwn 2017-2018. Mae'r trefniadau newydd hyn yn ymateb, yn rhannol, i'r rhaglen ddiwygio sy'n datblygu.

Mae ysgolion, colegau arbenigol annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr dysgu yn y gwaith:

- yn cael **15 diwrnod gwaith** o rybudd ysgrifenedig am arolygiad
- yn cael eu barnu o dan 5 maes arolygu, sef:

1 **Safonau**

2 **Lles ac agweddau at ddysgu**

3 **Addysgu a phrofiadau dysgu**

4 **Gofal, cymorth ac arweiniad**

5 **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- yn cael eu barnu gan ddefnyddio graddfa 4 pwynt:

**Rhagorol** – Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig

**Da** – Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau

**Digonol ac angen gwella** – Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella

**Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** – Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn 2017

## 3 Gwaith presennol Estyn: canfyddiadau a materion

Gall arolygu fod yn broses ddwys iawn sy'n rhannu barn. Mae'r Adolygiad wedi gorfod rhoi sylw arbennig i wahanu canfyddiad oddi wrth ffaith er mwyn amlygu'r meysydd lle mae arolygu ysgolion yng Nghymru eisoes yn gadarn, a meysydd lle credir bod angen iddynt wella. Mae chwedlau cyffredin ynglŷn â'r broses arolygu, a hyd yn oed am arolygwyr unigol, yn her gyson i bob arolygiaeth. Yn wir, teimlai Estyn ei bod yn angenrheidiol cynnal ymgyrch chwalu'r chwedlau i dawelu ofnau a mynd i'r afael â chamsyniadau.

Mae cydbwyso mathau gwahanol o dystiolaeth a gasglwyd yn yr Adolygiad yn amlygu Estyn fel sefydliad effeithlon sy'n bodloni ei dargedau[26] a bod parch iddo'n gyffredinol am ei wrthrychedd a'i arbenigedd proffesiynol. Mae ei ddiwylliant a'i strwythurau mewnol yn nodedig, fel y gwelwyd, er enghraifft, yn ei safle cyntaf yn arolwg pobl 2016 y gwasanaeth sifil[27] ac yn y broses ofalus o ymgynghori a chynnal peilotau yr ymgymerwyd â nhw cyn cyflwyno'i drefniadau arolygu newydd.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad yn amlygu ac yn cadarnhau gallu Estyn i ddarparu darlun cenedlaethol, annibynnol o addysg ysgolion, codi gwersi o'r arfer bresennol yn genedlaethol, rhannu arfer dda a hyrwyddo gwelliant ysgolion. Mae holiaduron arfarnu Estyn yn dangos bod 98% o ddarparwyr yn fodlon â dibynadwyedd ac annibyniaeth barnau arolygu yn dilyn cyhoeddi adroddiad[28].

Roedd pryderon a godwyd yn ystod yr Adolygiad yn aml yn anwybyddu gwaith Estyn a diwylliant a phrosesau ehangach atebolrwydd, yn nodedig, proses gategoreiddio flynyddol consortia rhanbarthol lle caiff ysgolion eu dosbarthu i gategorïau coch, oren, melyn neu wyrdd. Roedd y pryderon cyffredinol hyn yn ymwneud ag effeithiau negyddol canfyddedig y diwylliant atebolrwydd presennol 'â llawer yn y fantol' yng Nghymru, a bod ysgolion yn destun atebolrwyddau niferus a chystadleuol o bosibl. Codwyd materion penodol ynglŷn â'r cylch arolygu a dibynadwyedd y broses.

O'r dystiolaeth, roedd thema yn ailgodi ynglŷn â'r berthynas orau bosibl rhwng craffu/sicrwydd a chymorth mewn arolygiadau ysgol.

Mae gweddill y bennod hon yn archwilio'r cryfderau, y meysydd i'w gwella a'r materion hyn. Mae'r cynigion ar gyfer dyfodol arolygu ysgolion a amlinellir nes ymlaen yn defnyddio'r dadansoddiad hwn.

### Cryfderau presennol Estyn

Yn y Cais am Dystiolaeth,[29] dywedodd 71.5% o'r holl randdeiliaid, gan gynnwys 63% o ymarferwyr ysgol, fod Estyn yn bwysig ar gyfer gwella ansawdd addysg yng Nghymru. Roedd llywodraethwyr, rhieni, cynrychiolwyr addysg uwch ac addysg

[26] Estyn (2017) *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon*, Estyn
[27] ibid, tudalen 7
[28] ibid, tudalen 8
[29] Taylor C., Power S., Powell R., (2018) Independent Review of Estyn's Contribution to Wales's Education Reform Programme WISERD, Prifysgol Caerdydd, tudalen 5

bellach, ac aelodau eraill y cyhoedd yn fwy tebygol o ddweud fod Estyn yn bwysig ar gyfer gwella ansawdd addysg yng Nghymru nag ymarferwyr ysgol.

Mae’r dyfyniad canlynol a roddwyd gan athro yn y Cais am Dystiolaeth yn adlewyrchu’r farn gyffredinol ynglŷn â phwysigrwydd rôl Estyn mewn sicrhau ansawdd a chysondeb wrth bennu disgwyliadau.

> *“Rwy’n credu mai nhw (Estyn) sydd yn y safle gorau i arsylwi a chraffu ar arfer ledled Cymru gan gymharu sefydliadau amrywiol, amlygu arfer dda a nodi gwendidau mewn darpariaeth a/neu arweinyddiaeth”* [30]

Mae Estyn yn adlewyrchu, ac mewn rhai agweddau mae wedi arloesi o ran, llawer o’r meddwl presennol yn rhyngwladol ynghylch arolygu effeithiol. Er enghraifft, roedd cynnwys arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg, cyflwyno enwebai o’r ysgol i gyfranogi mewn arolygiad, a’r newidiadau sylweddol yn y trefniadau arolygu newydd, bob un ohonynt yn symudiadau beiddgar i wneud y broses arolygu yn agored ac annog ysgolion i ymgysylltu’n fwy adeiladol â’r broses. Yn yr un modd, nod cyflwyno cynadleddau gwelliant yn dilyn arolygiadau awdurdodau lleol oedd sefydlu ffordd gydlynus a chytûn ymlaen. O fewn fframwaith deddfwriaethol tynn yn dyddio’n ôl i 2005, mae Estyn wedi ceisio addasu’i ymagweddau at arolygu er mwyn bodloni anghenion newidiol y system ysgolion yng Nghymru.

Roedd barnau ar arolygiadau ysgolion a gyflwynwyd i’r Adolygiad wedi’u hollti braidd, ond roedd tua 65% o’r rhai a ymatebodd i’r Cais am Dystiolaeth[31] yn gweld bod arolygiadau ysgolion yn bwysig i wella ansawdd addysg yng Nghymru. Roedd barnau cefnogol ynglŷn ag arolygu ysgolion yn sôn am eu cyfraniad at wella a rhannu arfer orau, ac yn gwneud sylwadau cadarnhaol am ymagwedd adeiladol arolygwyr.

Mae dau ddyfyniad o’r Cais am Dystiolaeth yn adlewyrchu’r cyfryw farnau cadarnhaol.

> *“Fe wnaeth yr argymhellion a wnaed i’r ysgol o ganlyniad i’r arolygiad ysgogi cynllun gwella’r ysgol ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol, ac mae’n parhau i fod yn bwysig yn ymdrechion yr ysgol i barhau i wella a chodi safonau.”* (Athro)
>
> *“Rwyf wedi bod yn Bennaeth ar ddwy ysgol wahanol sydd wedi’u harolygu o fewn y pum mlynedd diwethaf. Ar y ddau achlysur, gwnaeth y tîm arolygu ymdrech fawr iawn i ddeall cyd-destunau’r ysgolion a’r cynnydd yr oedd disgyblion yn ei wneud o’u mannau cychwyn. Dilysodd Estyn ein hunanarfarniad mewn ffordd drwyadl a theg.”* (Pennaeth)

Mae Adroddiad Blynyddol Estyn yn dyfynnu canmoliaeth debyg[32].

> *“Hoffwn nodi pa mor gefnogol oedd ein harolygiad diweddaraf gan Estyn. Roedd yr arolygwyr yn heriol a thrylwyr, ac ar yr un pryd yn hollol hawdd mynd atynt ac yn awyddus i ymroi i ddeialogau proffesiynol bob amser.”*

[30] ibid, tudalen 7
[31] ibid, tudalennau 19-21
[32] Estyn (2017) *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon*, tudalen 17

Mae trefniadau arolygu newydd Estyn, a gyflwynwyd yn y sesiwn gyfredol, yn symud ymhellach tuag at fodel arolygu mwy ymatebol. Mae'r egwyddorion y seilir y trefniadau newydd arnynt yn pwysleisio'r angen i fabwysiadu 'meddylfryd cadarnhaol' ac i annog staff ysgolion i weld yr arolygiad fel cyfraniad adeiladol at eu dysgu eu hunain. Lleihawyd nifer y barnau graddedig o bymtheg i bump i alluogi'r arolygiad i ganolbwyntio'n fwy penodol ar agweddau allweddol ar berfformiad ysgol.

Mae'r pwyslais ar ddiddordebau dysgwyr ac ansawdd dysgu ac addysgu wedi'i gryfhau ymhellach. Gofynnir i arolygwyr deilwra gweithgareddau arolygu i'r cyd-destun sy'n cael ei arfarnu, gan ddefnyddio ystod gynyddol o offer a dulliau. Yn benodol, dylent edrych am arfer arloesol tra ystyriol, ac adrodd ar gryfderau a gwendidau allweddol.

Roedd yn ddyddiau cynnar o hyd o ran cyflwyno'r trefniadau arolygu newydd wrth i'r Adolygiad gael ei gynnal. Fodd bynnag, roedd eisoes yn amlwg bod croeso cyffredinol mewn egwyddor i'r trefniadau hyn, a chydnabyddiaeth eu bod yn newid sylweddol o ran ymagwedd gan Estyn. Adroddwyd am achosion lle canfuwyd nad oedd arolygiadau penodol yn adlewyrchu egwyddorion y trefniadau. Gallai hyn fod yn rhannol yn sgil y ffaith nad yw arolygwyr yn gwbl gyfarwydd eto â'r gofynion newydd. Yn yr un modd, gallai adlewyrchu heriau dyfnach i aelodau penodol o staff i dderbyn a mabwysiadu'r hyn y mae Estyn yn ei ddisgrifio fel 'meddylfryd newydd' sy'n gysylltiedig ag arloesi. Mae credoau ac arferion sydd wedi ymsefydlu yn anodd eu newid, ac mae'r sefydliad yn ymwybodol o'r angen i fonitro gweithredu'n fanwl a mynd i'r afael â'r cyfryw faterion wrth iddynt godi.

Cadarnhaodd trafodaethau gyda PAEM ac uwch aelodau staff eu bod yn cynllunio newidiadau pellach i'r trefniadau wrth i'r cwricwlwm newydd a diwygiadau cysylltiedig ddechrau ymffurfio yn y system ysgolion. Bydd ffocws cryfach ar y ffyrdd y bydd ysgolion yn dwyn dibenion y cwricwlwm yn eu blaen, gan atgyfnerthu ymhellach lle arolygu yn y broses ddiwygio. Mae *Adroddiad Blynyddol 2017* PAEM yn rhoi golwg ddefnyddiol ar ymagwedd adeiladol Estyn at ddiwygio'r cwricwlwm. Yn y Rhagair mae'n dweud 'At ei gilydd, mae rhaglen ddiwygio addysg gydlynol yn bodoli ar gyfer addysg orfodol, sy'n mynd i'r afael a'n prif heriau ac yn osgoi peryglon canlyniadau anfwriadol yn deillio o waith diwygio tameidiog.'

Mynegwyd barnau cadarnhaol iawn hefyd yn ystod yr Adolygiad am rôl genedlaethol Estyn yn nodi a rhannu arfer orau o bob cwr o Gymru. Mae'n hyrwyddo lledaenu arfer orau mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys: adroddiadau thematig; digwyddiadau rhanddeiliaid cenedlaethol a sector; cyhoeddi astudiaethau achos ar ei wefan; a lledaenu gwybodaeth berthnasol drwy ei gylchlythyr. Yn y cyfnod 2016-2017, cyhoeddodd 12 adroddiad thematig a 58 o astudiaethau achos arfer orau, a chynhaliodd 36 o ddigwyddiadau hyfforddi ac 19 o ddigwyddiadau arfer orau. Ym Mawrth 2017, cynhaliodd Estyn ei Noson Wobrau gyntaf i ddathlu llwyddiant darparwyr y barnwyd bod eu perfformiad presennol neu eu rhagolygon gwella yn 'rhagorol' yn 2015-2016. [33]

Soniwyd yn fynych am bwysigrwydd y cyfryw weithgareddau yn ystod yr Adolygiad. Yn benodol, roedd ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgysylltu ag arolygwyr, a

[33] ibid, tudalennau 20-24

dysgu oddi wrthynt, heb yr hyn a welent fel y pwysau gwrthdynnol sy'n gysylltiedig ag arolygiadau ac adroddiadau ysgolion cylchol. Eto, mae dyfyniadau o'r Cais am Dystiolaeth yn adlewyrchu barnau o'r fath.

> *"Mae'r cyfoeth o wybodaeth ynglŷn ag arfer orau…yn cael ei rhannu drwy eu (Estyn) hadroddiadau thematig. Gall ysgolion fynd at y wybodaeth hon fel rhan o'u taith wella."* [34] (Gweithiwr addysgol proffesiynol)

> *"Ar ôl cael arolygiad thematig, roedd yr adborth yn fuddiol – profiad cadarnhaol iawn."* [35] (Ysgol)

> *"Gallant roi cyngor ac arweiniad da yn aml mewn maes perthnasol. Gall hyn arwain at ddatblygiadau yn arfer eich ysgol eich hun gan y gallant roi 'ffordd i mewn' i chi."* [36] (Athro)

Mae adroddiad WISERD[37] yn adlewyrchu'r corff tystiolaeth ehangach a gasglwyd yn yr Adolygiad am y gwerth a roddir i annibyniaeth Estyn. Gwelwyd bod ei rôl yn darparu safbwynt allanol ynglŷn ag ansawdd ysgol, rhanbarth neu awdurdod lleol yn gam diogelu pwysig yn erbyn hunanfoddhad neu adroddiadau hunanlesol. Mae rhiant yn crynhoi hyn fel a ganlyn.

> *"Mae golwg wrthrychol, allanol o wasanaethau cyhoeddus, ac addysg yn yr achos hwn, yn ganolog i unrhyw system atebolrwydd gadarn."* [38]

Mae PAEM wedi sicrhau y bu Estyn yn ymwneud yn weithgar â datblygu'r cwricwlwm newydd. Yn ogystal â secondio dau arolygydd i'r adolygiad o'r cwricwlwm a arweiniodd at *Dyfodol Llwyddiannus*, cynrychiolir staff Estyn yn y grwpiau datblygu allweddol ac mae uwch aelodau staff yn eistedd ar y prif grwpiau cyffredinol sy'n gwneud penderfyniadau. Mae ymglymiad mor helaeth yn arwain at fuddion dwyochrog, sef helpu sicrhau y gall arbenigedd a phrofiad arolygwyr gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu, ac ar yr un pryd, darparu mewnwelediadau angenrheidiol i arolygwyr i nodweddion hanfodol y diwygiadau.

Roedd adroddiadau blynyddol PAEM yn llai cyfarwydd i rai ymarferwyr ond gwelwyd eu bod yn bwysig o ran darparu trosolwg o berfformiad a chyfleu negeseuon allweddol am addysg yng Nghymru. Fe'u disgrifiwyd gan un athro fel adroddiadau yn darparu,

> *"Crynodeb clir iawn a deniadol o negeseuon allweddol a thystiolaeth. Hawdd iawn eu darllen."* [39](Athro).

Un thema gref a dreiddiai drwy'r holl dystiolaeth oedd gwerthfawrogiad cadarnhaol o ymglymiad helaeth arolygwyr cymheiriaid. Mae arolygwyr cymheiriaid yn ymarferwyr presennol mewn rolau uwch arweinyddiaeth sydd wedi'u hyfforddi gan Estyn ac sy'n

---

[34] Taylor C., Power S., Powell R., (2018) *Independent Review of Estyn's Contribution to Wales's Education Reform Programme* WISERD, Prifysgol Caerdydd tudalen 8
[35] ibid, tudalen 28
[36] ibid, tudalen 30
[37] ibid
[38] ibid, tudalen 8
[39] ibid, tudalen 32

ymuno â thimau i ffwrdd o'u hardal ddaearyddol uniongyrchol eu hunain. Gwelir eu bod yn ychwanegu dimensiwn pwysig profiad cyfredol at dimau arolygu. Roedd arolygwyr cymheiriaid eu hunain yn cyfeirio'n fynych at werth ymglymiad o'r fath ar gyfer eu twf proffesiynol eu hunain.

> *"Mae arolygwyr cymheiriaid yn modelu arfer dda sy'n werthfawr iawn i'w rhannu a helpu ysgolion i ddod yn fwy myfyriol."* [40] (Pennaeth)

> *"Mae cyfle i fod yn arolygydd cymheiriaid yn darparu hyfforddiant gwirioneddol dda ac yn helpu ein hysgol ni'n hunain i ddatblygu."* [41] (Ysgol gynradd)

Nod Estyn yw cael o leiaf un arolygydd cymheiriaid ym mhob ysgol. Ar hyn o bryd, daw arolygwyr cymheiriaid o ryw 90% o ysgolion uwchradd, 50% o ysgolion cynradd ac 80% o ysgolion arbennig.

Fel y soniwyd yn gynharach, mae canfyddiadau ynglŷn ag arolygu ac atebolrwydd yn amrywio'n fawr, ac yn aml cânt eu lliwio gan dystiolaeth achlust a phrofiad penodol, boed yn dda neu ddrwg. Fodd bynnag, daeth cryfderau Estyn, fel rhan ag iddi barch proffesiynol a rhan ddylanwadol iawn o dirwedd addysgol Cymru, drwodd yn gryf yn y dystiolaeth i'r Adolygiad. Mae'r cryfderau hyn yn darparu sylfaen dda ar gyfer cryfhau ei waith ymhellach a chyfrannu ymhellach at addysg yng Nghymru.

### Meysydd i'w gwella i Estyn

Roedd pryderon penodol ynglŷn ag arolygiadau ysgolion yn tueddu canolbwyntio ar faterion yn gysylltiedig ag amlder a dibynadwyedd.

Nodwyd cyfyngiadau yn gysylltiedig â dull cylchol o arolygu yn fynych yn nhystiolaeth yr Adolygiad. Mae'r achos dros ddull arolygu cylchol yn dibynnu'n rhannol ar gydbwyso'r adnoddau arolygu sydd ar gael yn erbyn nifer yr ysgolion i adrodd arnynt. Mae'n golygu hefyd fod bylchau sylweddol iawn rhwng arolygiadau, gan roi 'lle i ysgolion anadlu' a chanolbwyntio ar fodloni anghenion eu disgyblion. Symudodd cylch arolygu 2010-2017 i ffwrdd oddi wrth bwlch penodedig rhwng arolygiadau, gan wneud amseru arolygiadau yn llai rhagweladwy. Mae elfen o ragweld mewn cylch, fodd bynnag, yn parhau a gallai hefyd arwain at batrwm datblygu anwastad mewn ysgolion nad ydynt yn ymroddedig i'w gwelliant eu hunain, gyda hyrddiau o weithgarwch dwys ychydig cyn cynnal arolygiad i'w gweld yn ysbeidiol mewn cyfnodau 'cyflwr sefydlog' hwy.

Nodwyd y ffaith fod adroddiadau arolygu yn parhau i fodoli trwy gydol cyfnod cylch arolygu, ni waeth i ba raddau y mae'r ysgol wedi newid yn y cyfamser, fel elfen annheg a chamarweiniol, o bosibl. Gall hyn fod yn fater arbennig i ysgolion sy'n gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd yn dilyn yr arolygiad. Yn yr un modd, fodd bynnag, gall adroddiadau cadarnhaol iawn fod yn gamarweiniol dros gyfnod gan y gall ansawdd ysgol ddirywio yn ogystal â gwella.

Cafwyd sylwadau hefyd ynglŷn â bod arolygiadau naill ai'n rhy fynych neu heb fod yn ddigon mynych. Lle gwelir bod y bwlch rhwng arolygiadau yn rhy hir, yna mae

[40] ibid, tudalen 42
[41] ibid, tudalen 42

defnyddioldeb yr adroddiad o safbwynt rhiant yn lleihau'n gyflym. Yng ngeiriau un rhiant a ymatebodd i'r Cais am Dystiolaeth:

> "*Gall cynnwys yr adroddiad, yn wir, ddyddio o fewn cyfnod amser byr iawn - gall newidiadau i staff, carfanau plant gwahanol, yn amlwg ddylanwadu ar berfformiad yr ysgol ac felly dim ond ciplun mewn amser yw canfyddiadau adroddiad arolygu."* [42]

Ar y llaw arall, gall arolygiadau rhy fynych roi straen gormodol ar staff a thynnu sylw oddi ar fodloni anghenion disgyblion mewn proses gyson o geisio bodloni gofynion arolygwyr. Un her i'r holl arolygiaethau yw taro'r cydbwysedd cywir fel y bodlonir anghenion y rhanddeiliaid amrywiol heb greu pwysau cyson ar ysgolion ac athrawon.

Codwyd materion hefyd ynghylch dibynadwyedd y broses arolygu. Teimlai rhai ymatebwyr fod arolygwyr yn amrywio o ran yr hyn roeddent yn ei ystyried yn arfer dda neu arfer wael. Rhoddwyd enghreifftiau o ysgolion yn ceisio teilwra eu tystiolaeth a'u hymddygiad yn ystod yr arolygiad i fodloni dymuniadau rhagdybiedig yr arolygydd arweiniol. Roedd y prif wahaniaethau canfyddedig ymhlith arolygwyr yn ymwneud â medrau rhyngbersonol ac arddull, a'r graddau yr oedd eu harfarniadau yn ymdddangos fel petaent yn cael eu hysgogi gan ddata meintiol ar draul cyd-destun, tystiolaeth fwy ansoddol a barn broffesiynol.

> *"Ceir diffyg cysondeb amlwg yn y modd y cynhelir arolygiadau gyda darparwyr. Mewn llawer o achosion, nid eir i'r afael â'r anghysondeb hwn yn ddigonol drwy'r hyfforddiant diweddaru blynyddol."* [43](Awdurdod lleol)

Roedd yr amser cymharol fyr y mae arolygwyr yn ei dreulio mewn ysgol yn destun rhywfaint o bryder hefyd. Y duedd yn rhyngwladol fu lleihau hyd arolygiadau er mwyn bodloni pryderon ynglŷn â straen a llwyth gwaith, ac i wneud defnydd mwy effeithiol o amser arolygwyr. Fodd bynnag, mae lleihau hyd cyffredinol arolygiad, o bosibl, yn golygu y gellir casglu llai o dystiolaeth uniongyrchol o arfer, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd dysgu ac addysgu. Un o elfennau allweddol gwerth ychwanegol mewn arolygiad yw arfarniad uniongyrchol o ddysgu ac addysgu. Mae hawl gyfreithiol hen sefydledig arolygwyr i arsylwi addysgu yn amlygu ei le canolog mewn sicrhau ansawdd profiad plant a phobl ifanc. Un o'r heriau yw neilltuo sylw digonol i ddysgu ac addysgu i'r graddau y ceir sylfaen dystiolaeth gref ynglŷn ag ansawdd heb fynd yn rhy ymwthiol ac aflunio'r darlun cywir o bosibl.

Mae'r trefniadau arolygu newydd yn rhoi mwy o amlygrwydd i ddysgu ac addysgu drwy arsylwadau o wersi, teithiau dysgu a thrafod gyda disgyblion ac arholi eu gwaith. Fodd bynnag, er gwaetha'r pwyslais hwn sydd i'w groesawu, ceir pryderon cyson ynglŷn â chredadwyedd tystiolaeth arolygu sy'n deillio o artiffisialrwydd canfyddedig y broses arsylwi a'r sylw cyfyngedig y gellir ei roi o fewn y ffenestr arolygu. Roedd ymateb i'r Cais am Dystiolaeth yn adlewyrchu pryderon o'r fath:

[42] ibid, tudalen 10
[43] ibid, tudalen 14

> "*Mae llwyddiant arolygiad yn dibynnu'n gyfan gwbl ar allu'r pennaeth i baratoi at arholiad.*" [44]

Mae'n rhaid i arolygiaethau, felly, geisio cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng casglu tystiolaeth a dwyster y profiad i ysgolion. Mae tystiolaeth yn dilyn arolygiadau a gesglir gan Estyn, ac a gefnogir mewn sylwadau i'r Adolygiad, yn awgrymu bod y rhan fwyaf o ysgolion yn synnu at gywirdeb y darlun o ysgol a gesglir mewn cyfnod cymharol fyr, a byddai'n wgrymu y gall timau arolygu profiadol ac arbenigol lunio casgliadau credadwy o'r sylfaen dystiolaeth hon.

Un mater sy'n codi droeon mewn arolygu yn rhyngwladol yw'r graddau y dylai arolygwyr gefnogi gwelliant yn ogystal â rhoi sicrwydd. Roedd y thema hon i'w gweld yn gryf yn y dystiolaeth i'r Adolygiad. Mae adroddiad WISERD yn adrodd, "Roedd diddordeb gan nifer fawr o randdeiliaid i weld Estyn yn ymgymryd â rôl fwy cynghorol, cefnogol…"[45] Er bod cydnabyddiaeth fod rhaid i arolygwyr fod yn ofalus i beidio â bod yn gyfarwyddol wrth gynnig cyngor, roedd teimlad cryf, serch hynny, y gallai mwy gael ei wneud mewn arolygiadau ysgolion i gefnogi gwelliant.

> *"Dylai [arolygu] ymwneud mwy â chefnogi ysgolion nac enwi a chywilyddio."* [46] (Pennaeth)

> *"Rwy'n credu y byddai ansawdd addysg yng Nghymru yn gwella mwy ac yn cael effaith fwy hirdymor pe bai arolygiadau'n cael eu cynnal mewn ffordd fwy ymgynghorol a chefnogol yn hytrach na beirniadol."* [47] (Athro)

> *"Rwy'n credu bod angen i Estyn helpu ysgolion i gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm newydd. Rwy'n credu bod ysgolion yn nerfus iawn ynglŷn â chymryd risgiau oherwydd diffyg hyder ynglŷn â sut bydd Estyn yn derbyn dulliau arloesol neu greadigol. Rwy'n credu bod hyn yn wir am fyrddau arholi hefyd ar gyfer ysgolion uwchradd hefyd."* [48] (Athro)

Dywedodd 16.5% o ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth eu bod yn meddwl y gall Estyn rwystro gwelliant. Er bod hon yn gyfran gymharol fach o'r ymatebion cyffredinol, soniwyd am y meysydd a nodwyd mewn rhywfaint o'r dystiolaeth ehangach a gasglwyd hefyd drwy ymweliadau a chyfweliadau. Un pryder a godwyd gan nifer o'r rheini a gafodd eu cyfweld oedd y gred y gall arolygiadau rwystro creadigrwydd ac arloesedd mewn addysgu a dysgu. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â'r gred, os yw ysgolion yn ceisio rhagweld ac ymateb i ofynion arolygwyr, yna maent yn llai tebygol o fentro arloesi mewn ffyrdd y canfyddant na fyddant yn cael eu harfarnu'n gadarnhaol o bosibl.

> *"Mae'n gwneud ysgolion ac athrawon yn ofnus i roi cynnig ar bethau newydd ac yn eu gorfodi nhw i wneud pethau nad ydynt yn iawn i'r disgyblion."* [49] (Athro)

[44] ibid, tudalen 14
[45] ibid, tudalen 46
[46] ibid, tudalen 11
[47] ibid, tudalen 10
[48] ibid, tudalen 45
[49] ibid, tudalen 13

> *“Mae ysgolion yn rhoi gormod o ffocws ar neidio drwy’r cylchoedd i blesio Estyn a llai o ffocws ar ddatblygiad plant.”* [50] (Rhiant)

Adleisir pryderon o’r fath mewn ymchwil ryngwladol ynglŷn ag effeithiau arolygu. Mae’r OECD, er enghraifft, yn ei drosolwg cynhwysfawr o arfarnu ac asesu’n rhyngwladol, yn dweud,

> *‘Mae perygl y gall arfarnu allanol gael ei gysylltu’n bennaf â chydymffurfio â gofynion gweithdrefnol, yn hytrach na gwella ysgolion…Mae hyn yn golygu bod y broses arfarnu ysgolion allanol yn anfon negeseuon amwys ynglŷn â beth sy’n bwysig…’* [51]

Mae’r ffocws cryf ar ddysgu ac addysgu mewn arolygiadau Estyn yn lliniaru’r risg hon, ond serch hynny, adroddwyd am achosion o ysgolion yn ‘chwarae’n saff’ neu’n ceisio ‘chwarae’r gêm’ arolygu. Yng nghyd-destun diwygio, mae angen ystyried yn ofalus y risgiau y gallai’r mathau hyn o ymateb i arolygu rwystro’r mathau o newidiadau a ddynodir yn *Cwricwlwm i Gymru.*

Mae arolygiadau yn arwain at adroddiadau cyhoeddedig sy’n graddio perfformiad ysgolion ar raddfa 4 pwynt, ac mae i arfarniadau digonol neu anfoddhaol oblygiadau arwyddocaol iawn i ddyfodol ysgol a’i staff. Roedd yn amlwg o dystiolaeth i’r Adolygiad fod graddau wedi dechrau rheoli arolygiadau, i’r rheini sy’n cael eu harolygu ac i arolygwyr eu hunain. Mae Estyn wedi cydnabod yr angen i symud y ffocws tuag at y goblygiadau i waith yr ysgol a geir yn y dystiolaeth sy’n sail i raddau. Fodd bynnag, mae mater yn bodoli o hyd mewn perthynas â natur graddio sy’n golygu bod ‘llawer yn y fantol’.

### Y system ehangach ar gyfer atebolrwydd mewn addysg ysgolion yng Nghymru

More general issues were raised during the course of the Review about the role of Codwyd materion mwy cyffredinol yn ystod cyfnod yr Adolygiad ynglŷn â rôl arolygu o fewn diwylliant atebolrwydd ehangach.

Codwyd pryderon mynych ynghylch nifer/ystod y mecanweithiau atebolrwydd sy’n cael eu defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd, ac ynghylch dyblygu canfyddedig yn eu plith. Cydrannau’r system ddigyswllt bosibl hon ar gyfer dwyn ysgolion i gyfrif am eu perfformiad a darparu her a chymorth ar gyfer gwelliant oedd:

- arolygu
- categoreiddio ysgolion
- hunanadolygu gan ysgolion
- rôl cyrff llywodraethol
- mesurau perfformiad gan Lywodraeth Cymru

Daw adroddiad WISERD i’r casgliad fod, ‘…nifer o randdeiliaid o’r farn fod rôl Estyn yn atebolrwydd ysgolion eisoes yn dyblygu swyddogaeth mesurau atebolrwydd eraill…’[52] Yn yr un modd, wrth gwrs, gallai’r mesurau eraill fod yn dyblygu gweithgareddau yr ymgymerir â nhw orau gan arolygiaeth genedlaethol.

[50] ibid, tudalen 13
[51] OECD (2013). *Synergies for Better Learning.* OECD Publishing, Paris tudalen 397
[52] Taylor C., Power S., Powell R., (2018) Independent Review of Estyn’s Contribution to Wales’s Education Reform Programme WISERD, Prifysgol Caerdydd, tudalen v

Nid yw'r set hon o drefniadau atebolrwydd yn cyfuno i ffurfio set gydlynus o gydrannau cydategol â disgwyliadau a dibenion cyson. Heb gydlyniant o'r fath, gallai ysgolion gael negeseuon sy'n gwrthdaro o ran beth sy'n bwysig, a gallai ddargyfeirio ymdrech oddi wrth ddysgu ac addysgu tuag at gasglu a chadw pentyrrau o dystiolaeth, a rhai cymharol fawr yn aml, i fodloni gofynion gwahanol. Nodwedd arall o'r dirwedd atebolrwydd hon, lle caiff ysgolion eu categoreiddio'n gyhoeddus, yw ei natur 'â llawer yn y fantol' lle daw categoreiddio ysgol yn gyhoeddus mewn perthynas â'i hangen am gymorth yn gysylltiedig â methiant. Trafodir isod effeithiau posibl atebolrwydd lle mae llawer yn y fantol.

### Llawer yn y fantol, atebolrwydd ac arolygu

Mae datblygiad polisi addysg yng Nghymru ers datganoli wedi gweld newidiadau sylweddol yn yr amlygrwydd a roddir i atebolrwydd a ysgogir o'r tu allan. O gyfnod cychwynnol lle rhoddwyd cryn ymddiriedaeth mewn ysgolion ac athrawon, arweiniodd pryderon yn deillio o ganlyniadau PISA gwael a thystiolaeth arall a oedd yn peri pryder at gyflwyno ystod eang o fesurau, o 2010, i fynd i'r afael â thanberfformiad canfyddedig. Nododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau bryd hynny ddiffyg brys yn adran y llywodraeth a 'chonsensws gwan yn y Cynulliad.[53] Amlinellodd raglen ag 'ugain o gamau gweithredu clir' gan gynnwys sefydlu Uned Safonau Ysgol newydd yn yr adran, profion ysgol newydd a system genedlaethol ar gyfer graddio ysgolion. Dywedodd yn glir y byddai'n cau ysgolion yr oedd Estyn o'r farn eu bod yn ysgolion a oedd yn methu y tu hwnt i'w hadfer.

Yn ei Adroddiad Blynyddol 2018, mae PAEM yn amlygu pryderon ynghylch pwysau atebolrwydd.

> *'Fe wnaeth trefniadau bandio a chategoreiddio a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn, y rôl 'her' sy'n ofynnol gan y consortia rhanbarthol sydd newydd eu ffurfio, a dangosyddion perfformiad newydd, bob un ohonynt gyfrannu at system atebolrwydd sydd â chysylltiad cryf â chanlyniadau arholiadau. Perygl y dull hwn yw y gall polisi cofrestru ar gyfer arholiadau a'r cyngor a roddir i ddisgyblion ar ba gymwysterau i'w hastudio gael eu gyrru gan bwysau atebolrwydd.'*[54]

Mae arolygu yn rhan annatod o'r ymdrech i wella addysg yng Nghymru. Fodd bynnag, mae yna ganlyniadau i natur ac effeithiolrwydd arolygu sy'n deillio o fod yn rhan o ddull 'â llawer yn y fantol'. [55] Yn benodol, ac i raddau helaeth, bydd y graddau y gwelir bod goblygiadau uniongyrchol ynghlwm wrth arolygu i enw da, hunaniaethau proffesiynol a hyd yn oed bywoliaethau'r rhai sy'n cael eu harolygu yn y dyfodol, yn pennu ymatebion i waith Estyn. Yn benodol, mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad yn dynodi bod y raddfa graddio grynodol mewn adroddiadau arolygu a'i chanlyniadau yn gwneud arolygu yn rhan ganolog o ddiwylliant 'â llawer yn y fantol'.

Mae nifer o fuddion i roi graddau. Maent yn galluogi cyfleu casgliadau arolygu ar ffurf geiriau neu ymadroddion arfarnol syml, gan helpu osgoi problemau dehongli yn

---

[53] Andrews, L. (2014). *Ministering to Education*. Llyfrau Parthian.
[54] Estyn (2018). *Adroddiad Blynyddol PAEM 2016-2017* tudalen 8
[55] Klerks, M (2013) The Effects of School Inspections: A Systematic Review quoted in Ehren et al 2015

deillio o destun hwy. Felly, gallai'r rheini nad ydynt yn rhan o'r gymuned broffesiynol, yn enwedig rhieni, weld graddau yn ddefnyddiol o ran rhoi darlun o ansawdd sy'n rhydd o jargon. Gall graddau roi ffocws i arolygiad, gan helpu osgoi mynd ar drywydd agweddau llai pwysig ar ddarpariaeth ac arfer. Maent hefyd yn galluogi ffurfiau syml o ddadansoddi ac adrodd trwy gydgasglu, cymharu a meincnodi. Ac mae eu natur lem yn rhoi awch i'r broses sy'n mynnu sylw.

Fodd bynnag, mae yna nifer o anfanteision sylweddol iawn hefyd i arfarniadau sy'n seiliedig ar raddau. Gall gradd or-symleiddio a methu adlewyrchu cymhlethdodau ysgol a'r broses ddysgu. Yn y ffordd honno, gall gradd gamarwain yn ei hymgais i gydbwyso amrywiaeth o agweddau gwahanol ar ysgol. Mae disgrifio ysgol fel un 'ragorol' neu 'ddigonol' yn anochel yn golygu pwyso a mesur agweddau cryf ac agweddau llai cryf, a gall gelu meysydd sy'n bwysig serch hynny.

Un her wrth ddefnyddio barnau graddedig yw sut i gyflawni golwg deg, a rennir, ymhlith y rheini sy'n craffu. Mae hynny'n golygu sefydlu set gyffredin o ddisgwyliadau yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn y dylai plant a phobl ifanc fod yn gallu ei ddeall a'r hyn y maent yn ei ddeall ar gyfnodau amrywiol o'u haddysg mewn cyd-destunau gwahanol. Ni ddylai arolygu ffafrio na gwobrwyo confensiynau o ran cyflwyno, ond yn hytrach dylai roi ffocws ar safonau cyflawniad ymhlith myfyrwyr, ar draws ystod eu gwaith a'u gweithgareddau.

Natur system raddau sydd â llawer yn y fantol sy'n fwyaf trafferthus, fodd bynnag. Crynhoir un goblygiad mawr posibl system graddio pennawd yng nghyfraith mesur perfformiad Campbell sy'n datgan *"…po fwyaf y defnyddir unrhyw ddangosydd cymdeithasol meintiol i wneud penderfyniadau cymdeithasol, y mwyaf y bydd yn destun pwysau llygredigaeth a'r mwyaf tueddol y bydd i wyrdroi a llygru'r prosesau cymdeithasol y bwriedir iddo fonitro*."[56] Pan fyddwch yn dal pobl yn atebol gan ddefnyddio un mesur unigol, mae rhai yn gwneud pethau nad ydych eisiau iddynt wneud ac mae'r mesur ei hun yn tueddu gwyrdroi. Ac mae hynny'n golygu bod y graddau yn colli'u gwerth ac yn gwyrdroi'r broses addysgol mewn ffyrdd annymunol."[57] Nid yw graddau arolygu yn seiliedig ar ddata meintiol yn unig, ond fel graddfa maent yn ymgymryd â nodweddion tebyg.

Yn benodol, gall systemau atebolrwydd â llawer yn y fantol arwain at ganlyniadau anfwriadol negatif sylweddol. Yn ychwanegol at y straen y mae'r systemau hyn, yn anochel, yn ei roi ar ysgolion a'u disgyblion, gall y cyfryw ddiwylliannau wrthdynnu sylw oddi wrth fodloni anghenion pobl ifanc fel unigolion wrth i ysgolion geisio celu gwendidau a chyflwyno'u hunain mewn golau gystal â phosibl. Gall gormod o sylw gael ei roi i'r disgyblion hynny y bydd eu mân welliant yn effeithio ar ffigurau perfformiad neu gellir gwneud ymdrechion i ddewis y boblogaeth ysgol ar draul pobl ifanc â'r anghenion mwyaf. Ar ei waethaf, gall annog diwylliant o ofn, rhwystro creadigrwydd a dadansoddi a thrafod proffesiynol diffuant. Gall disgyblion ddod i wasanaethu enw da ysgol yn hytrach na bod yr ysgol yn gwasanaethu anghenion y disgybl.

[56] Campbell, Donald (1975) Assessing the Impact of Planned Social Change, Dartmouth College
[57] Koretz (2017) 'The Testing Charade' Gwasg Prifysgol Chicago

> *“Gwnewch yn siŵr nad yw’r plant yn cael eu hanghofio yn y broses, ac nad rhifau a data i’w olrhain yn unig yw plant.”* [58] (Athro)

Pan fydd y canlyniadau sy’n deillio o fesurau atebolrwydd yn amhriodol o uchel, gallai ysgolion gael eu gyrru i raddau helaeth gan eu dehongliad o’r meini prawf a ddefnyddir gan asiantaethau allanol i farnu’u perfformiad. Er y gall hyn gael effeithiau cadarnhaol mewn achosion lle ceir cymhelliant, arbenigedd neu allu cyfyngedig mewn ysgolion i wella, gall hefyd gyfyngu’r cwricwlwm, rhwystro creadigrwydd ac arwain at ddull fformwläig o fynd i’r afael â chymhlethdodau dysgu.

Roedd canlyniadau anfwriadol y diwylliant â llawer yn y fantol yng Nghymru yr adroddwyd amdanynt i’r Adolygiad, yn cynnwys cyfyngu’r cwricwlwm i ganolbwyntio ar bynciau y credir bod arolygwyr a mesurau perfformiad yn rhoi gwerth iddynt. Roedd llawer o gyfeiriadau hefyd at ffocws amhriodol ar ddisgyblion y credir eu bod yn fwyaf tebygol o effeithio ar feini prawf perfformiad, ar draul disgyblion eraill o bosibl. Gall y dymuniad i gyflawni gradd uchel neu osgoi gradd isel arwain hefyd at gostau cyfle sylweddol wrth i adnoddau gael eu neilltuo i gasglu tystiolaeth ar gyfer arolygiad, ar draul amser yn cael ei dreulio ar addysgu a dysgu.

Dadleuir weithiau y gallai buddion fod ynghlwm wrth newidiadau mewn ymddygiad a ysgogir gan arolygiad lle nad yw’r ysgol ei hun yn gwybod beth sydd orau ar gyfer ei disgyblion. Fodd bynnag, mae newidiadau mewn ymarfer gyda’r bwriad o fynd drwy arolygiad ond sy’n annodweddiadol o ymddygiad arferol yr ysgol, yn newidiadau arwynebol a byrhoedlog yn aml. Gallant arwain at sicrwydd ffug a thanseilio dibynadwyedd canfyddiadau arolygu.

Roedd tystiolaeth i’r Adolygiad gan arolygwyr a’r rheini oedd yn cael eu harolygu, yn cyfeirio’n gyson at y pwysau i benderfynu ar raddau, a’r canlyniadau a allai ddeillio o’r pwysau hwnnw yn rheoli arolygiad. Yn ogystal, mae natur ddiwahân y dull yn golygu bod pob ysgol yn destun yr un pwysau i gydymffurfio, beth bynnag fo’u gallu.

Gellir gweld gofynion i adrodd yn gyhoeddus ar berfformiad ar ffurf graddau pennawd fel rhan angenrheidiol o atebolrwydd tryloyw. Fodd bynnag, mewn amgylchedd lle mae llawer yn y fantol, mae cyfrifoldeb aruthrol ar dimau arolygu i benderfynu ar raddau teg a chywir, a gall yr angen i fod yn gyson ar draws ysgolion arwain at gyfyngu ffocws yr hyn yr adroddir arno i hynny y gellir ei fesur yn fwyaf dibynadwy. Gall diben yr arolygiad gael ei reoli’n gyfan gwbl gan yr angen i benderfynu ar raddau teg. Gall timau arolygu dreulio cryn amser yn dadlau ynghylch ffiniau graddau, gan dynnu oddi wrth drafodaethau dyfnach ynglŷn â sut gallai’r ysgol symud ymlaen. Gall sesiynau adborth i uwch aelodau staff gael eu rheoli hefyd gan drafod graddau. Adroddodd arolygwyr ac ysgolion bod y ffocws llethol mewn sesiynau adborth ar raddau, gyda’r materion y tu ôl i’r graddau hynny yn cael sylw annigonol yn aml o ganlyniad i hynny.

Mae’r achos dros arolygu yn ddibynnol iawn ar ei allu i ddarparu naratif esboniadol sy’n egluro ac yn mynd i’r afael â chymhlethdod. Gall adrodd yn gyhoeddus ar ffurf graddau rwystro’r cyfraniad pwysig hwn pan fydd rhaid i arolygwyr grynhoi materion

[58] Taylor C., Power S., Powell R., (2018) *Independent Review of Estyn’s Contribution to Wales’s Education Reform Programme,* WISERD, Prifysgol Caerdydd tudalen 48

yn ormodol er mwyn penderfynu ar radd arfarnol neu raddfa rifiadol. Roedd tystiolaeth i'r Adolygiad gan arolygwyr a'r rheini oedd yn cael eu harolygu, yn cyfeirio'n gyson at y pwysau i benderfynu ar raddau, a bod hynny'n tynnu oddi wrth botensial arolygu i ddylanwadu ar arfer.

I grynhoi, ceir cryfderau gwirioneddol mewn arfer sefydledig mewn arolygu yng Nghymru. Mae'n anodd gwahanu pryderon sy'n ymwneud â'r dirwedd atebolrwydd ehangach yng Nghymru, oddi wrth arolygu yn gyffredinol ac oddi wrth fanylion gweithrediad Estyn ei hun. Mae adroddiad WISERD yn nodi bod ychydig o enghreifftiau pendant wedi'u darparu i ddangos sylwadau beirniadol ynglŷn ag arolygu, gan awgrymu y gallai rhai o'r pryderon o leiaf fod yn rhai mwy anecdotaidd na gwirioneddol. Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Adolygiad yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon penodol a chyffredinol, ac ar yr un pryd adeiladu ar y cryfderau sefydledig yng ngwaith Estyn, yng nghyd-destun y diwygiadau.



# 4 Estyn, arolygu a diwygio

Fel y gwelsom, mae'r diwygiadau addysgol yng Nghymru yn rhoi ysgolion ac athrawon wrth y llyw i ysgogi newid.  Roedd yn amlwg trwy gydol proses yr Adolygiad, er bod cefnogaeth gref i ddiwygiadau'r cwricwlwm, roedd pryder hefyd ynghylch sut y gellid eu gwneud yn realiti mewn ysgolion ledled y wlad. Gwelwyd y gallai Estyn fod yn bwysig iawn i wneud i hyn ddigwydd. Mae hyn yn arbennig o wir yn absenoldeb unrhyw gorff cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru (yn wahanol i rai gwledydd eraill sydd wedi cychwyn ar waith diwygio radical i'r cwricwlwm).

Mae cyfres o adroddiadau[59] [60] [61] wedi archwilio'r berthynas rhwng y maeth o atebolrwydd allanol mewn system addysg ac aeddfedrwydd y system honno. Yn benodol, mae adroddiad yn 2010 gan McKinsey Corporation, *How the World's Most Improved School Systems Keep Getting Better*, yn awgrymu y dylai systemau addysg sydd eisoes yn 'dda' neu'n anelu at fod yn 'wych' geisio cynnwys athrawon ac arweinwyr ysgol yn fwy uniongyrchol mewn gwella ansawdd addysg. Y tu hwnt i'r cam hwnnw, mae'n rhagdybio taith 'wych' i 'ragorol' lle mai'r ysgolion yw prif ysgogwyr gwelliant.

Nodir yr egwyddor sylfaenol mewn adroddiad gan  McKinsey yn 2007 sy'n awgrymu bod dwyster pwysau ac ymyriadau allanol yn '…wrthgymesur â gallu ysgolion unigol i wella ar eu pennau'u hunain.' Yn achos Cymru, sy'n ceisio dod yn system hunanwella, byddai hyn yn dadlau dros lai o ddwyster pwysau ac ymyrraeth allanol, gan gadw'r angen i gynnal y ffocws ar ysgolion sy'n tanberfformio'n ddifrifol.

Yn ei adroddiad yn 2014 ar addysg ysgolion yng Nghymru, fe wnaeth yr OECD[62] grynhoi'r heriau atebolrwydd a wynebai Cymru wrth i ddiwygiadau 2011 gael eu rhoi ar waith.

> *"Mae taro'r cydbwysedd cywir rhwng atebolrwydd a gwelliant mewn fframwaith asesu ac arfarnu yn her yn rhyngwladol ac i Gymru. Cyn diwygiadau [2011], disgrifiwyd y cydbwysedd yng Nghymru wrth dîm yr adolygiad fel un ag iddo ymddiriedaeth uchel, gyda systemau asesu ac arfarnu at ddibenion datblygol yn bennaf, gyda fawr ddim atebolrwydd. Erbyn hyn, maent wedi symud at fwy o atebolrwydd. Gall mwy o atebolrwydd a ffocws ar arfarnu ac asesu beri risg gwyrdroi'r modd y caiff myfyrwyr eu haddysgu a beth yr addysgir iddynt."*

Mae'r diwygiadau a amlinellwyd yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21*[63] yn fodel cydlynus o ddiwygiadau addysgol sy'n cynnwys newidiadau sylweddol pellach o ran y diwylliant ac arferion atebolrwydd yng

[59] Barber, M (2004). *The Virtue of Accountability: System Redesign, Inspection and Incentives in the Era of Informed Professionalism* Journal of Education 85 (1):7-38

[60] McKinsey 2007 *How the world's best-performing school systems come out on top*

[61] Barber, M., Chijioke, C., a Mourshed, M. (2010). Education: *How the world's most improved school systems keep getting better.* Llundain: McKinsey & Company.

[62] OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective*, tudalen 31, OECD Paris

[63] Llywodraeth Cymru (2017), *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21*

Nghymru. Cyfeiriodd adroddiad yr OECD at densiynau amlwg rhwng natur ‘â llawer yn y fantol’ y diwygiadau ôl-2011 ar yr un llaw, ac ar y llaw arall, y dyheadau am i fwy o benderfyniadau gael eu gwneud yn lleol ac mewn ysgolion, a chreu cyd-destun dynamig ar gyfer dysgu pobl ifanc. Bydd angen datrys y tensiynau hyn fel rhan o’r newidiadau i ddiwylliant ac arferion atebolrwydd yng Nghymru.

Y nod yw cael system hunanwella, sy’n ymroddedig i’w dysgu a’i gwelliant parhaus ei hun. Bydd llai o gyfarwyddyd canolog a mwy o ymreolaeth i ysgolion. Bydd symudiadau tuag at ddatblygu ysgolion fel sefydliadau dysgu, sy’n cael eu harchwilio ar hyn o bryd gyda chymorth yr OECD, yn gwreiddio’r nodweddion hyn mwy fyth. Bydd mwy o ymreolaeth yn mynnu arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar bob lefel yn y system. Bydd llwyddiant yn mynnu lefelau uwch o ymrwymiad, hyder, gwybodaeth ac arbenigedd gan ymarferwyr. Bydd llwyddiant hefyd yn mynnu bod y lefelau llywodraethu amrywiol yn alinio er mwyn dilyn agenda gytûn.

Os yw Cymru am gael system addysg sy’n hunanwella, rhaid i arolygu a mathau eraill o gymorth ac atebolrwydd gael eu rhoi ar brawf o ran eu cydnawsedd â’r dyhead hwn.

### Goblygiadau i Estyn

Mae i Estyn le unigryw mewn addysg yng Nghymru. Un thema gyson yn y dystiolaeth i’r Adolygiad oedd y gallai natur ymgysylltiad Estyn â’r agenda diwygio olygu hybu neu ddifetha llwyddiant yr agenda honno yn y pen draw. Mae iddo hygrededd uchel am ei annibyniaeth a’i broffesiynoliaeth, ac, yn gyffredin â chyd arolygiaethau yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt, mae ar dir canol rhwng polisi ac arfer. Mae arfarniadau ohono ar lefel systemau a lefel sefydliadau unigol. Gall tystiolaeth o arolygu helpu pennu’r agenda polisi, ac ar yr un pryd cael effaith sylweddol ar beth sy’n digwydd mewn ysgolion a llywodraeth leol.

O ystyried ei rôl ddylanwadol a chanolog, mae’n rhaid i ddatblygiad pellach Estyn yn gyffredinol, ac arolygu ysgolion yn arbennig, daro cydbwysedd anodd rhwng craffu/atebolrwydd a gwelliant. Wrth wneud hyn, mae angen i Estyn ailffurfio ei rôl strategol yng nghyd-destun diwygiadau i addysg ysgolion yng Nghymru. Felly, beth ddylai prif ddiben Estyn fod yn gyffredinol, ac arolygu yn benodol, yn system addysg ddiwygiedig Cymru?

Darparodd Deddf 2005[64] yr ateb statudol i ddibenion Estyn fel y’u pennwyd gan y llywodraeth ar y pryd. Gwelwyd arolygu bryd hynny fel prif gyfrwng atebolrwydd, yn gyfrifol am arfarnu ac adrodd ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan ysgolion, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, y safonau a gyflawnir a’r ffyrdd yr aed i’r afael â datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol a lles disgyblion. System yn cael eu harwain yn ganolog oedd y cyd-destun, gyda chwricwlwm gweddol fanwl wedi’i ragnodi’n genedlaethol.

[64] UK Parliament Acts/E/EA-EG/Education Act 2005 (2005 c 18) Pennod 3 School Inspectors and School Inspections: Wales

Mae adroddiad WISERD ar y Cais am Dystiolaeth yn crynhoi barnau ynglŷn â rôl Estyn yn y dyfodol fel a ganlyn[65]:

> *'At ei gilydd, ystyriwyd yn gyffredinol mai nodi arfer dda, ac yna Adroddiadau Thematig, oedd y gweithgareddau pwysicaf y mae Estyn yn ymgymryd â nhw ar gyfer bodloni anghenion yn y dyfodol ...Gweithgareddau lleiaf pwysig Estyn ar gyfer bodloni anghenion yn y dyfodol oedd Adroddiadau Blynyddol PAEM, ac yna arolygiadau ysgolion ac arolygiadau o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Serch hynny, dynododd 41.6% o ymatebion o hyd y byddai arolygiadau ysgolion yn bwysig iawn ar gyfer bodloni anghenion y rhaglen ddiwygio addysg newydd yng Nghymru yn y dyfodol.'*

Cyfeiriodd elfennau gwahanol y dystiolaeth at ddymuniad cryf am i arbenigedd proffesiynol Estyn gael ei ddefnyddio i gefnogi yn ogystal â chraffu.

### Goblygiadau i arolygu ysgolion

Mewn gwahanol leoliadau yn rhyngwladol, mae'r ffyrdd y gall tystiolaeth ac arfarniadau arolygu gael effaith yn perthyn i dri chategori bras:

- darparu adroddiadau arfarnol i rieni a'r cyhoedd, i lywio dewis o ysgol weithiau
- rhoi sicrwydd yn genedlaethol, yn lleol ac ar lefel ysgolion ynglŷn ag ansawdd yr addysg sy'n cael ei darparu
- hyrwyddo gwelliant a meithrin gallu naill ai drwy ymgysylltiad uniongyrchol neu trwy ddarparu tystiolaeth a chyngor i lywio polisi ac arfer

Nid yw'r categorïau hyn yn annibynnol ar ei gilydd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod yn glir ynglŷn â'u pwysigrwydd cymharol os nad yw arolygu am gael ei danseilio gan anghysonderau mewnol a disgwyliadau allanol cystadleuol.

Yn wahanol i'w gymydog agos, ni welir dewis o ysgol fel prif ysgogwr gwelliant yn ysgolion Cymru. Diben adroddiadau arolygu ysgolion Estyn yw rhoi gwybodaeth i rieni a theuluoedd am ansawdd ysgol, ond mae eu defnyddio i ddewis ysgol yn fwy o sgîl-gynnyrch yn hytrach na phrif bwrpas yr adroddiadau. Dywed WISERD yn ei adroddiad ar y Cais am Dystiolaeth[66] mai dim ond un rhiant nododd pwysigrwydd arolygiadau wrth benderfynu ar ei ddewis o ysgol ar gyfer ei blentyn. Adlewyrchwyd y canfyddiad hwnnw yn y set o dystiolaeth ehangach a gasglwyd yn yr Adolygiad, a phrin iawn y codwyd dewis o ysgol fel ystyriaeth bwysig.

Efallai mai'r disgwyliad mwyaf cyffredin o arolygu yw y bydd yn rhoi sicrwydd i bob un o'r rheini sydd â buddiant yn yr ysgol ynglŷn ag ansawdd yr addysg sy'n cael ei darparu; gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Felly, gall rhieni fod yn sicr bod eu plant yn cael eu haddysgu'n dda; neu gall llywodraethwyr fod yn hyderus yng ngwaith ymarferwyr; neu gall llywodraeth leol a chenedlaethol fod yn hyderus bod ysgolion yn gyffredinol yn darparu safon dda o addysg. Yn yr ystyr hwnnw, meithrin hyder y cyhoedd yw eu diben. Fodd bynnag, gellir creu a chyfleu sicrwydd mewn llawer o ffyrdd.

---

[65] Taylor C., Power S., Powell R., (2018) *Independent Review of Estyn's Contribution to Wales's Education Reform Programme,* WISERD, Prifysgol Caerdydd tudalen 42

[66] ibid, tudalen 52

Mae rhaglen arolygu ac adrodd gylchol Estyn yn ymwneud yn benodol â sicrwydd. Mae ei waith thematig ac adroddiadau blynyddol PAEM yn ymgorffori elfen gref o sicrwydd yn ogystal â chyngor. Ceir amwysedd mewn arolygu yn y graddau y gallai ei arfarniadau annibynnol gael eu tanseilio os bu'n benodol yn ei gyngor cynharach ar wella, gan arwain at wrthdaro buddiannau posibl. Hyd yn hyn, mae'r cydbwysedd mewn arolygiadau ysgolion wedi tueddu tuag at sicrwydd gyda gwelliant fel sgîl-gynnyrch yn hytrach na strategaeth uniongyrchol. Fodd bynnag, mae ei rolau thematig ac arfer dda yn rhoi ffocws cryfach o lawer ar feithrin gallu.

O fewn cyd-destun system ysgol sy'n ailgyfeirio'i hun tuag at ddibenion newydd a dod yn system sy'n hunanwella, sut dylai Estyn gyfeirio'i ddylanwad, ei arbenigedd a'i adnoddau?

Bydd arfarnu allanol yn bwysig o hyd i ddarparu sicrwydd ac annog yr ymddygiadau sydd eu hangen i wneud y dull newydd yn llwyddiant. Bydd goblygiadau sylweddol i'r modd y cynhelir arfarnu allanol, gan gynnwys arolygu, a'r modd yr adroddir amdano. Mae agweddau ar y diwygiadau y bydd angen mynd i'r afael â nhw wrth ailystyried arfarnu ac arolygu yn cynnwys, yn benodol:

- y graddau y mae newidiadau yn y cwricwlwm, asesu ac addysgeg yn cael eu gwireddu'n ymarferol
- eu heffaith ar safonau
- y pwyslais o'r newydd ar les
- natur sybsidiaredd a'r amrywio mwy mewn arfer a fydd yn codi yn sgîl hynny
- mathau o gydweithio
- cysoni disgwyliadau a chyfrifoldebau yn gysylltiedig ag atebolrwydd
- rôl hunanarfarnu mewn system o hunanwella
- parodrwydd a gallu ysgolion i ymgysylltu â diwygio

### Cwricwlwm, asesu ac addysgeg

Nod y diwygiadau yw creu dysgu gwell a safonau uwch o fewn system hunanwella. Bydd y *Cwricwlwm i Gymru* yn ceisio datblygu pobl ifanc yn ddysgwyr llwyddiannus, galluog; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; ac unigolion iach, hyderus. Bydd y dibenion hyn yn rheoli penderfyniadau ynglŷn â chynnwys, dilyniant, addysgeg, ac asesu.

Bydd cwmpas a dyfnder y newidiadau yn y cwricwlwm a threfniadau asesu yn creu heriau newydd i ysgolion, arolygwyr ac arolygu ysgolion. Mae trefniadau arolygu newydd Estyn yn cryfhau'r ffocws ar ddysgu ac addysgu, ond maent wedi'u datblygu yng nghyd-destun mesur o ragweladwyedd ynglŷn â'r cwricwlwm ysgol a'i gyflwyno. Bydd y newidiadau sylweddol yn deillio o'r diwygiadau yn mynnu ystyriaeth bellach o sut y gall arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r trefniadau newydd yn gweithredu'n ymarferol, a'u heffaith ar ddysgwyr.

Bydd newidiadau o ran y modd y mae athrawon yn addysgu ac yn asesu, a beth a sut bydd plant yn ei ddysgu, wrth graidd gwireddu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. Bydd ymhelaethu ar bedwar diben y cwricwlwm ym mhob ysgol yn arwain at newidiadau mewn addysgeg ac asesu, a bydd nodweddion strwythurol newydd ar ffurf Meysydd Dysgu a Phrofiad, a'r tri o gyfrifoldebau traws-gwricwlaidd.

Bydd rhaid i feini prawf a phrosesau arolygu newydd archwilio'n fanwl y graddau y caiff y newidiadau hyn yn y cwricwlwm, asesu ac addysgeg eu hadlewyrchu yng ngwaith ysgol mewn ffyrdd sy'n gwella dysgu a chyflawniad ei disgyblion. Mae hynny'n awgrymu ymgysylltiad dyfnach a hirach â dysgu ac addysgu nag a geir ar hyn o bryd, hyd yn oed yn y trefniadau arolygu newydd. Mae'r cymysgedd o arsylwadau dosbarth, teithiau dysgu ac archwilio gwaith disgyblion yn debygol o barhau, ond bydd mwy o ddyfnder wrth ddadansoddi arfer. Mae pryderon presennol ynghylch natur 'ciplun' arolygiadau yn debygol o gynyddu yn y cyd-destun datblygol.

### Safonau

Y profion eithaf o'r diwygiadau i addysg yng Nghymru fydd y graddau y maent yn arwain at safonau cyrhaeddiad uwch a dysgu sy'n fwy perthnasol i bob disgybl. Ar hyn o bryd, mae'r diffiniad o 'safonau' yn amrywio yn ôl pwy sy'n gofyn y cwestiwn. Mewn rhai achosion, mae ystyr benodol iawn i 'safonau', yn canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd a pherfformiad mewn ystod ddiffiniedig o gymwysterau cenedlaethol. Sonnir am PISA yn aml fel mesur o 'safonau' gwlad. Ac weithiau, defnyddir y term mewn ystyr cynhwysfawr i gyfleu argraff gyffredinol o ba mor dda y mae pobl ifanc yn dysgu.

Os yw'r symudiad tuag at system hunanwella i arwain at welliant go iawn i bobl ifanc, yna mae angen cytundeb o ran pa safonau fydd yn cael eu defnyddio i fesur llwyddiant. Mae angen i'r disgrifiad cytûn o safonau adlewyrchu ehangder pedwar diben y cwricwlwm newydd heb golli ffocws angenrheidiol ar lythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a chymwysterau. Bydd rhaid cytuno tystiolaeth feintiol, ansoddol a phrocsi fel dangosyddion credadwy o gynnydd. Bydd y cyfryw gytundeb a chyd-ddealltwriaeth yn hanfodol os yw arfarniadau mewnol ac allanol i roi 'mesur' dilyn o'r cynnydd hwnnw.

### Lles

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n disgwyl iddynt:

- gydweithio yn well
- cynnwys pobl, gan adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau
- edrych ar bethau yn yr hirdymor yn ogystal â chanolbwyntio ar y sefyllfa ar hyn o bryd
- cymryd camau i geisio rhwystro problemau rhag gwaethygu - neu hyd yn oed eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf.[67]

Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi lle amlycach i les hefyd o ran ei ddibenion ac yn strwythurol fel Maes Dysgu a Phrofiad ar wahân a chyfartal.

Bydd cydnabod pa mor ganolog yw lles i allu plant i ddysgu mewn deddfwriaeth ac yn y diwygiadau i'r cwricwlwm yn golygu y bydd goblygiadau i arolygu. Mae

67 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy

deddfwriaeth bresennol[68] eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn adrodd ar les disgyblion. Mae holiaduron disgyblion Estyn, yn rhannol, yn adlewyrchiad o'r ddyletswydd hon, ac mae'r trefniadau arolygu newydd yn cyfeirio at fonitro lles myfyrwyr. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch lefelau disgwyliad priodol mewn perthynas â lles ar draws y sefydliadau amrywiol sy'n gysylltiedig. Er enghraifft, ceir cwestiwn ynglŷn ag i ba raddau y dylid cydnabod lles staff yn benodol mewn meini prawf arfarnu. Mae'r angen i fod yn gliriach ynghylch beth a olygir gan les yn cael ei gydnabod yng *Nghynllun Gweithredu 2017-21* y llywodraeth. Mae'n debygol y bydd angen datblygu methodoleg arolygu ymhellach i adlewyrchu unrhyw arweiniad pellach ar ddisgwyliadau ynglŷn â lles.

### Sybsidiaredd

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r rhaglen ddiwygio wedi'i seilio ar egwyddor sybsidiaredd lle mae ymgysylltiad uniongyrchol ymarferwyr yn hollbwysig i ddatblygu'r fframwaith cwricwlwm newydd ac i'w ddatblygu wedyn mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth ar hyd a lled Cymru. Mae goblygiadau sylweddol yr ymagwedd hon at ddiwygio i ddysgu proffesiynol, arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn cael eu cydnabod yn benodol yng *Nghynllun Gweithredu 2017-21* Llywodraeth Cymru.

Mae trefniadau newydd Estyn eisoes wedi symud tuag at ymagwedd fwy ymatebol at arolygu. Gofynnir i arolygwyr roi mwy o ystyriaeth i gyd-destun ysgol a'i hunanarfarniad ei hun wrth lunio'u casgliadau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae elfen weddol uchel o ragweld o ran y ffordd y mae ysgolion yn gweithredu. Mae'r system ddiwygiedig yn debygol o ddangos mwy o amrywioldeb, gan greu heriau i arolygwyr y bydd rhaid iddynt nawr ddeall ac ymateb i'r ffyrdd arbennig y mae ysgolion yn gwneud y cwricwlwm newydd yn realiti.

### Cydweithio

Yn adroddiad ei asesiad polisi cyflym yn 2017, pwysleisiodd yr OECD bwysigrwydd cydweithio er mwyn sicrhau llwyddiant y diwygiadau - *'…mae mwy o gydweithio ac ymddiriedaeth ymhlith rhanddeiliaid yn hanfodol ar gyfer gwireddu amcan y wlad o gael system ysgolion sy'n hunanwella'.*[69]

Mae *Cynllun Gweithredu 2017-21* y llywodraeth yn hyrwyddo'n benodol 'cymuned o addysgwyr' sy'n 'cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd.'[70] Mae'r polisi yn rhagweld cydweithio rhwng cymheiriaid o fewn, ymhlith a thu hwnt i ysgolion. Mae'r ymagwedd cyd-adeiladu at ddiwygio'r cwricwlwm yn enghraifft dda o gydweithio o'r fath. Mae ysgolion arloesi yn gweithio gyda'i gilydd i ddylunio'r fframwaith cwricwlwm newydd, a chânt eu hannog hefyd i ymgysylltu ag ysgolion 'partner' nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith ysgolion arloesi.

Yn ogystal, mae pontio rhwng cyfnodau addysg a sefydliadau yn faes penodol, ond hanfodol, o gydweithio. Un o'r materion yr aed i'r afael ag ef yn *Dyfodol Llwyddiannus*

[68] UK Parliament Acts/E/EA-EG/Education Act 2005 (2005 c 18) Pennod 3
[69] OECD (2017), *The Welsh Education Reform Journey: A rapid policy assessment*. OECD Publishing;Paris tudalene 49
[70] Llywodraeth Cymru (2017), *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21*

oedd yr ymyriad ar ddilyniant mewn dysgu ar draws cyfnodau ac, yn benodol, rhwng addysg gynradd ac uwchradd. Ar hyn o bryd, caiff ysgolion eu harolygu fel sefydliadau ar wahân ac nid yw'r broses arolygu, felly, yn arfarnu dilyniant yn benodol ar draws cyfnodau pontio ac yn annog cydweithio ar draws ysgolion neu gyfnodau.

Gwnaeth Estyn sylw uniongyrchol ar gynnydd tuag at gydweithio yn Adroddiad Blynyddol PAEM 2017[71].

> *'Ym mhob consortiwm rhanbarthol, ceir ymagwedd strategol at newid diwylliant ac i wneud yn siŵr bod ymrwymiad cryf i system hunanwella, a dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn rhan o system hunanwella. Maent wedi sefydlu strwythurau i annog a chynorthwyo ysgolion i weithio mewn partneriaeth… Canfyddiad arall yn yr arolygiadau cychwynnol o gonsortia oedd nad yw dysgu rhwng ysgolion yn cael ei fonitro na'i arfarnu'n ddigon gofalus i sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn cael yr effaith a fwriadwyd, ac nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr ysgol sy'n darparu'r cymorth.'*

Cydweithio felly yw un o elfennau canolog diwygiadau Llywodraeth Cymru. Dylai arfarnu allanol, ac arolygu, yn benodol, arfarnu a hyrwyddo cydweithio, drwy ei brosesau a'i adroddiadau. Dylai arolygiadau clwstwr neu ardal fod yn rhan o unrhyw fframwaith newydd.

### Cysoni â mathau eraill o atebolrwydd

Mae arolygu'n gweithredu o fewn cyd-destun ehangach o atebolrwydd a chymorth. Yn ychwanegol at raglen arolygu gylchol Estyn, caiff ysgolion eu harfarnu drwy system categoreiddio blynyddol a weithredir gan gonsortia rhanbarthol, a mesurau perfformiad gan Lywodraeth Cymru. Er eu bod yn ateb dibenion gwahanol, mae'r mathau amrywiol hyn o adrodd ar berfformiad yn gyhoeddus yn creu amgylchedd sy'n rhoi pwysau ar ysgolion.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â chategoreiddio yn dweud yn glir 'nid dim ond data sy'n sail iddo, mae hefyd yn ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth a'r addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion.'[72] Disgrifir y dull tri cham o benderfynu ar 'gategori' ysgol yn y canllawiau.

- Mae cam un (nad yw'n cael ei gyhoeddi bellach) yn defnyddio ystod eang o wybodaeth am berfformiad gan Lywodraeth Cymru i lywio hunanarfarniad ysgolion o'u gallu i wella o ran yr addysgu a'r dysgu. Bydd hefyd yn fan cychwyn ar gyfer trafodaethau rhwng ysgolion ac ymgynghorydd her eu consortiwm rhanbarthol am eu perfformiad a'u meysydd i'w gwella.

- **Yng ngham dau**, mae ymgynghorwyr her o'r consortia rhanbarthol yn arfarnu gallu'r ysgol i wella, gan ystyried tystiolaeth ynghylch y safonau a gyflawnir, ac ansawdd yr arweinyddiaeth a'r dysgu ac addysgu.

---

[71] Estyn (2018) *Adroddiad Blynyddol PAEM 2016-2017* tudalen 45

[72] https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/schoolcategorisation/?skip=1&lang=cy

- **Mae cam tri yn gweld** y deilliannau o gam dau yn cael eu defnyddio i benderfynu ar gategori cymorth terfynol pob ysgol.

Mae'r categoreiddiad terfynol yn god lliw sy'n dangos lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgol ac mae'n ysgogi rhaglen o gymorth, her ac ymyrraeth wedi'i theilwra. Y categorïau cymorth yw gwyrdd, melyn oren neu goch (ysgolion yn y categori gwyrdd sydd angen y cymorth lleiaf, a'r ysgolion yn y categori coch sydd angen y cymorth dwysaf).

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi dweud yn glir y bwriadwyd i gategoreiddio fod yn fecanwaith ar gyfer pennu lefelau cymorth i ysgolion unigol. Yn y datganiad i'r wasg a ryddhawyd gyda chanlyniadau'r system categoreiddio yn 2017, dywedodd, *"Nid graddio, labelu neu greu tablau cynghrair crai yw hanfod y system hon, ond yn hytrach mae'n ymwneud â darparu cymorth ac annog gwelliant yn ein hysgolion".* [73] Fodd bynnag, roedd yn glir o'r dystiolaeth i'r Adolygiad fod graddfeydd lliw y broses gategoreiddio yn cael eu gweld fel gradd perfformiad lawn gymaint â chymorth. Gellir cymharu hyn hefyd â chanfyddiadau arolygu cyhoeddedig, gan beri dryswch posibl.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn crynhoi a chyhoeddi mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer ysgolion uwchradd. Gall y mesurau hyn gael effaith sylweddol ar bolisi ac arfer, gan gynnwys ôl-effaith i'r Cyfnod Allweddol 3 presennol a all gyfrannu at ddiffyg her ac ymgysylltiad i ddisgyblion. Yn ddiweddar, mae'r llywodraeth wedi cydnabod rhai canlyniadau anfwriadol, gan gynnwys lleihau dewisiadau pwnc wrth i ysgolion ganolbwyntio ar y pynciau hynny sy'n ymddangos yn y mesurau. Yn ogystal, mae ffocws cynllunio'r cwricwlwm gan ysgolion ar un mesur yn cyferbynnu â chyfeiriad diwygio'r cwricwlwm tuag at ei bedwar diben addysg.

Roedd yn amlwg yn y dystiolaeth i'r Adolygiad fod diffyg cydlyniant yn y ffynonellau atebolrwydd amrywiol hyn. Mae cryn le i sefydlu fframwaith atebolrwydd mwy cydlynus ac adeiladol ar gyfer ysgolion.

### Rôl hunanarfarnu mewn system hunanwella

Mae *Cynllun Gweithredu 2017-21* Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais cryf ar ei dymuniad i ddatblygu diwylliant dysgu ar draws addysg yng Nghymru fel amod hanfodol i fuddion llawn y cwricwlwm newydd gael eu gwireddu i bobl ifanc yng Nghymru. Hanfod y diwylliant hwnnw fydd gallu sefydliadau i addasu'n hyblyg a chyflym i amgylchiadau yn newid, heb yr angen i aros am gyfarwyddyd, caniatâd neu gymorth allanol.

Fel rhan o'r rhaglen ddiwygio, mae'r OECD wedi bod yn gweithio gydag ysgolion yng Nghymru i archwilio'r graddau y mae nodweddion allweddol sefydliadau dysgu eisoes yn bodoli a'r goblygiadau ar gyfer eu datblygu ymhellach. Mae'r ymagwedd at ddatblygu, yn yr un modd â'r cwriclwm, wedi canolbwyntio ar gyd-adeiladu. Dewisir yr ysgolion peilot o'r set o ysgolion arloesi, gan weithio gyda'r Academi Genedlaethol newydd ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, y Gyfarwyddiaeth Addysg ac Estyn. Mae model Cymreig o ysgol ddysgu wedi'i ddatblygu, sy'n cynnwys goblygiadau i

[73] https://gov.wales/newsroom/educationandskills/2017/latest-categorisation-figures-show-school-improvement/?lang=cy

hunanarfarnu a chynllunio datblygiad. Bydd sefydlu hunanarfarnu yn rhywbeth ‘annatod’ yn hytrach na rhywbeth ‘ychwanegol’ yn hollbwysig i lwyddiant.

Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu y gall y cyfuniad o arfarnu mewnol ac allanol fod yn elfen bwerus mewn cynllunio ysgol llwyddiannus.[74] I bob ysgol yng Nghymru fod yn sefydliadau dysgu, bydd angen cyd-ddealltwriaeth ynghylch hunanarfarnu a’i rôl mewn dysgu sefydliadol. Yn yr un modd, dylai meini prawf a dulliau arfarnu allanol ffurfio rhan o iaith gyffredin yn ymwneud ag ansawdd, a ddeellir ac a groesewir ar bob lefel yn y system.

Bydd llwyddiant yn dibynnu ar sefydlu natur y berthynas rhwng arfarnu allanol a mewnol. Mae Alvik[75] yn gwahaniaethu rhwng tair ffurf y berthynas honno:

- cyfochrog – lle mae’r ddwy system yn rhedeg ochr yn ochr, bob un ohonynt â’u meini prawf a’u protocolau eu hunain
- dilyniannol – lle mae cyrff allanol yn dilyn ymlaen o arfarniad ysgol ei hun ac yn defnyddio hynny fel ffocws eu system sicrhau ansawdd
- cydweithredol – lle mae asiantaethau allanol yn cydweithio gydag ysgolion i ddatblygu dull cyffredin o arfarnu

Mae rhesymeg polisi system hunanwella yng Nghymru yn awgrymu perthynas gydweithredol. Mae dulliau cyfochrog a dilyniannol yn rhoi blaenoriaeth i arfarnu allanol gyda chanlyniadau canlynol ar gyfer cydymffurfio a cheidwadaeth.

Yn y dull cydweithredol, dylai arfarnu allanol ddarparu safbwynt gwahanol a mwy gwrthrychol ar waith ysgol, ynghyd ag asesiad o’i gallu i wella. Lle mae arfarnu mewnol yn gadarn ac mae iddo ddilysrwydd, ac mae’n canolbwyntio ar ddysgu a datblygu, bydd yn darparu sylfaen dystiolaeth ddyfnach a mwy datblygedig ar gyfer pennu blaenoriaethau y gellir eu deillio o’r ffenestr gymharol fer sydd ar gael i arolygu. Dylai hefyd sicrhau ymrwymiad i weithredu, yn hytrach na chydymffurfio (amharod weithiau) gyda chyfarwyddyd allanol. Mae dulliau o’r fath eisoes ar waith mewn nifer o wledydd, gan gynnwys Seland Newydd a’r Alban.

Yn Seland Newydd, mae hunanadolygiad ysgol ac adolygiad ysgol allanol yn cydategu’i gilydd. Mae’r Swyddfa Adolygu Addysg (ERO) yn arwain ysgolion tuag at welliant parhaus lle byddant yn arfarnu’u harfer yn systematig, gan ddefnyddio dangosyddion fel fframwaith ar gyfer ymholi a defnyddio cronfa o offer dadansoddol a ffurfiannol.

Yn yr Alban, mae’r arolygiaeth wedi hyrwyddo hunanarfarnu ers dechrau’r 1990au yn seiliedig ar gyfres o ddangosyddion ansawdd[76] a ddefnyddir ar gyfer arfarnu mewnol ac allanol. Mae arolygiadau allanol yn adeiladu o hunanarfarnu ysgolion ac yn adrodd ar bedwar dangosydd ansawdd: Arweinyddiaeth Newid; Dysgu, Addysgu ac Asesu; Codi Cyrhaeddiad a Chyflawniad; a Sicrhau Lles, Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Caiff canlyniadau’r arolygiad eu cyfleu i rieni ar ffurf llythyr yn hytrach nag adroddiad ffurfiol.

[74] OECD (2013). *Synergies for Better Learning.* OECD Publishing, Paris
[75] Alvik, T. (1996) School Self-Evaluation: A Whole School Approach quoted in OECD (2013) op cit
[76] Education Scotland (2015) *How Good Is Our School*

Hefyd, mae'r Alban wedi cyflwyno math o hunanarfarniad wedi'i ddilysu yn ei harolygiadau o awdurdodau lleol. Mewn hunanarfarniad wedi'i ddilysu, mae arolygwyr yn gweithio ochr yn ochr â staff awdurdod lleol, gan geisio:

- adeiladu gallu awdurdodau addysg i arfarnu'u perfformiad eu hunain
- gwella ansawdd gwasanaethau a deilliannau ar gyfer dysgwyr
- hyrwyddo a datblygu arfer dda a gwerth gorau mewn awdurdodau addysg
- darparu gwybodaeth i Weinidogion yr Alban a'r cyhoedd am ansawdd darpariaeth mewn awdurdodau addysg
- cynnig arfarnu a dilysu annibynnol
- cyfrannu at leihau craffu allanol ar lefel gwasanaeth lle bo modd, gan ystyried risg, a darparu gwybodaeth gadarn o ansawdd uchel ar gyfer asesu risg ar y cyd

Mae Estyn wedi bod yn hyrwyddo hunanarfarnu hefyd ac yn rhoi lle mwyfwy amlwg iddo yn ei fframwaith arolygu. Mae'r trefniadau arolygu newydd yn symudiad arwyddocaol pellach i'r cyfeiriad hwn. Mae canllawiau Estyn ar hunanarfarnu, er nad ydynt yn orfodol, yn cael eu gweld yn ganllawiau arbennig o bwysig gan ysgolion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y goblygiadau sylweddol posibl ar gyfer hunanarfarnu sy'n annatod yn ei dyheadau. Mae wedi ymroi i egluro rolau arfarnu allanol a mewnol mewn fframwaith asesu ac arfarnu ar gyfer y system addysg gyfan. Felly, mae wedi gofyn i Estyn a'r OECD gyd-archwilio creu fframwaith hunanarfarnu cenedlaethol.

### Parodrwydd a gallu ysgolion i ymgysylltu â diwygio

Bydd y diwygiadau'n creu heriau sylweddol ar bob lefel o'r system addysg yng Nghymru. Mae arfarniadau presennol o arweinyddiaeth ysgolion yn arolygiadau Estyn yn awgrymu y bydd angen i ysgolion uwchradd, yn arbennig, 'gynyddu'u hymdrechion' os ydynt i wneud y diwygiadau yn llwyddiant.

> *"Mewn chwarter o ysgolion cynradd a phedair o bob deg ysgol uwchradd, mae angen gwella arweinyddiaeth. Yn yr ysgolion hyn, ceir diffyg cyfeiriad strategol sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Nid yw arweinwyr wedi sefydlu diwylliant o ddysgu proffesiynol lle caiff staff drafodaethau agored a gonest am eu harfer eu hunain a'i heffaith ar ddysgu a deilliannau disgyblion. Nid oes gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol gan arweinwyr yn yr ysgolion hyn o sut beth ddylai addysgu o ansawdd da ac arfer broffesiynol fod. O ganlyniad i'r diffygion hyn, nid yw arweinwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu rôl i gynorthwyo athrawon i wella eu harfer."* [77]

Dylai arweinyddiaeth a pharodrwydd i ddiwygio, felly, fod yn bwynt pwysig i ganolbwyntio arno ar gyfer arfarnu mewnol ac allanol yng Nghymru. Hefyd, mae goblygiadau arwyddocaol yng nghanfyddiadau Estyn ar arweinyddiaeth ysgolion ar gyfer y math o gymorth, arweiniad, datblygiad proffesiynol ac adeiladu gallu a fydd yn angenrheidiol i danategu'r broses ddiwygio.

---

[77] Estyn (2018) *Adroddiad Blynyddol PAEM 2016-2017* tudalen 49



# 5 Arolygu ysgolion yn y dyfodol

Yn unol â'r hyn a drafodwyd yn y bennod flaenorol, mae nodweddion yr agenda diwygio yng Nghymru yn cynnwys goblygiadau mawr ar gyfer rôl a diben arolygu ysgolion. Mae'r adran hon yn tynnu'r ffactorau hyn at ei gilydd ac yn nodi meini prawf ar gyfer dylunio modelau arolygu i'r dyfodol. Mae wedyn yn amlinellu newidiadau posibl i arolygu ysgolion yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Mae'r cynigion yn ystyried cryfderau a diffygion canfyddedig mewn arolygiadau presennol, a hefyd nodweddion y diwygio.

Mae'r prif gwestiynau sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau y mae angen i Estyn fynd i'r afael â nhw, a threfniadau atebolrwydd ehangach, yn cynnwys y canlynol.

- Pa wahaniaethau y mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, a'u goblygiadau ar gyfer addysgeg, yn eu gwneud i ansawdd y profiad a'r safonau a gyflawnir gan bobl ifanc yng Nghymru?
- I ba raddau y mae athrawon ac arweinwyr ysgolion yn arfer/yn cael arfer lefel y penderfynu a hyrwyddir yn y diwygiadau?
- I ba raddau y ceir diwylliant gwirioneddol o ddysgu, cydweithio a hunanarfarnu mewn addysg yn ysgolion Cymru?
- Ac, yn bwysicaf, a yw addysg ysgolion Cymru yn gwella o ganlyniad i'r diwygiadau?

I helpu ateb y cwestiynau hyn, dylai arolygu:

- arfarnu'r graddau y mae pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gwireddu
- pennu disgwyliadau uchel ac arfarnu'r safonau a gyflawnir
- canolbwyntio ar ansawdd y cwricwlwm a dysgu ac addysgu mewn perthynas â phob disgybl
- arfarnu lles disgyblion a pha mor dda y mae'r holl ddisgyblion yn cael eu cynnwys ym mywyd a gwaith yr ysgol
- meithrin hyder a gallu a chadarnhau arfer dda
- hyrwyddo dysgu proffesiynol a sefydliadol
- arfarnu a hwyluso cydweithio
- arfarnu a chefnogi arloesi craff
- meithrin gallu ar gyfer hunanarfarnu, ac yn y pen draw, ei seilio ar hunanarfarnu sicr mewn ysgolion
- cael sylfaen dystiolaeth feintiol ac ansoddol.

Ac felly:

- gadael ffordd gadarnhaol ymlaen sy'n dynodi gwelliant
- rhoi sicrwydd i rieni a rhanddeiliaid ehangach ynglŷn ag ansawdd yr ysgol y mae eu plant yn ei mynychu
- rhoi sicrwydd i lefelau gwahanol llywodraeth ynghylch ansawdd ysgolion, ac effaith polisi, gan gynnwys parodrwydd i ddiwygio a chynnydd gyda diwygio

Mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad yn amlygu nifer o agweddau ar y dull arolygu presennol sydd eisoes yn adlewyrchu'r cyd-destun datblygol. Mae arolygu ysgolion yn rhoi sicrwydd annibynnol ar ffurf barnau syml gan dimau arolygu ynglŷn ag ansawdd ysgol a'r safonau a gyflawnir. Hefyd, mae prosesau arolygu yn rhoi cipolygon pwysig i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddysgu'r disgyblion. Yn benodol, un cryfder hanfodol arolygu yw ei ffocws ar ddysgu ac addysgu drwy arsylwi arfer yn uniongyrchol ac archwilio gwaith disgyblion. Mae cynnwys arolygwyr cymheiriaid ac enwebeion yn uniongyrchol yn gwella arbenigedd a phrofiad cyfunol y tîm arolygu, a gall helpu adeiladu gallu ar draws y system.

Mae'r Adolygiad yn rhagweld ffordd ymlaen at gyfer cyd-destun datblygol y diwygiadau, un sy'n ymestyn meddylfryd Estyn ei hun yn ei drefniadau newydd, ac sydd hefyd yn mynd i'r afael â rhai o ddiffygion canfyddedig presennol arolygu. Bydd unrhyw ddull arolygu newydd yn mynnu newid radical o ran athroniaeth ac arfer er mwyn sefydlu arolygu'n gadarn wrth galon y diwylliant addysgol mwy dynamig a ragwelir yn y rhaglen genedlaethol ar gyfer diwygio addysg. Fodd bynnag, bydd newidiadau i arolygu yn cael eu tanseilio heb newidiadau cydategol, cydnaws yn y diwylliant atebolrwydd ehangach.

Y nod o gael system hunanwella yw hanfod yr ymagwedd newydd. Mae system o'r fath yn ymhlygu atebolrwydd dwyochrog[78] [79] lle mae gan yr ysgolion a'r rheiny sy'n pennu'r cyd-destun ar gyfer gwaith ysgolion, hawliau a chyfrifoldebau cynhenid. Os yw arolygu i gyfrannu'n gadarnhaol at system o'r fath, mae angen iddo gyfuno craffu/sicrwydd gyda meithrin gallu.

Mae angen sicrwydd ar Lywodraeth Cymru fod y system yn ei chyfanrwydd yn bodloni disgwyliadau polisi, ei bod ei hun yn parhau i wella a bod y lefelau cyflwyno amrywiol yn gweithio'n dda. Mae angen sicrwydd ar awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol fod eu hysgolion yn gwasanaethu pobl ifanc yn dda, a bod y meysydd pryder yn cael eu nodi a'u hunioni. Mae angen sicrwydd ar ysgolion eu bod yn bodloni disgwyliadau cenedlaethol, lleol a disgwyliadau rhieni yn dda, a bod amodau allanol priodol i'w cyflawni yn cyd-fynd â'r disgwyliadau hynny. Ac mae angen sicrwydd ar rieni, teuluoedd a'r bobl ifanc eu hunain, fod yr ysgol yn darparu profiad dysgu o ansawdd uchel sy'n anelu at gyflawniad uchel. Ac mae angen sicrwydd ar yr holl randdeiliaid y bydd arolygu hefyd yn gallu nodi lle mae ysgol yn methu bodloni anghenion ei disgyblion er mwyn iddi allu gwella.

Fel y gwelsom, os troir sicrwydd yn ganlyniadau 'â llawer yn y fantol', yna gallai llawer o elfennau hanfodol hunanwella gael eu tanseilio. Rhaid i atebolrwydd yn gyffredinol, ac arolygu yn benodol, arfer eu swyddogaethau sicrhau mewn ffyrdd sy'n annog darparwyr addysg i gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am wella ansawdd eu hunain tra'n cynnal mesurau diogelu angenrheidiol lle nad yw ysgolion yn gallu neu'n barod i ymgymryd â'r cyfryw gyfrifoldeb.

Mae profiad yn Iwerddon yn rhoi rhywfaint o gipolwg i'r modd y gellir mynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng sicrwydd/gwelliant. Mae swyddogaethau Arolygiaeth Iwerddon yn

---

[78] Elmore, R (2007) School Reform from the Inside Out Harvard Education Press, tudalennau 244-253
[79] Leeuw F. (2002) *Reciprocity and Educational Evaluations by European Inspectorates: assumptions and reality checks.* Quality in Higher Education, Cyfrol 8, Rhif 2

debyg i rai Estyn. Mae'n darparu sicrwydd ansawdd ac atebolrwydd cyhoeddus yn y system addysg; yn cynnal arolygiadau mewn ysgolion a chanolfannau addysg; yn cynnal arfarniadau cenedlaethol; ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu ar ysgolion unigol a chanolfannau addysg. Fodd bynnag, mae ganddi rôl ymgynghori fwy penodol i hyrwyddo arfer orau a gwelliant ysgolion gan athrawon ymgynghorol, penaethiaid a byrddau rheoli mewn ysgolion. Mae ei hadroddiadau arolygu yn defnyddio continwwm o ddisgrifiadau ansawdd yn y testun, nid graddau pennawd, gan leihau'r ffocws rywfaint ar y rhain fel deilliant o'r broses lle mae 'llawer yn y fantol'.

Os yw ysgolion i fod yn brif ysgogwyr eu gwelliant eu hunain, mae angen rôl gryfach o lawer ar gyfer hunanarfarnu o fewn cyd-destun ysgolion yn datblygu fel sefydliadau dysgu. Yr her yw sefydlu ymagwedd at hunanarfarnu nad yw'n mynd yn fiwrocrataidd ac yn gwneud defnydd dwys o 'bapur'. Hefyd, rhaid i'r ymagwedd annog ffocws ar ddysgu a gwelliant. Dylai hunanarfarnu, felly, ymwneud â cheisio deall yr ysgol a'i disgyblion, defnyddio tystiolaeth o arfer i nodi cryfderau presennol a meysydd i'w datblygu. Dylai ddefnyddio iaith ddysgu a blaenoriaethau. Mae'n hanfodol nad yw'n mynd yn broses hunanraddio neu hunangyfiawnhau, hyd yn oed.

Mae hunanarfarnu yn mynnu elfen o safbwynt allanol os yw i elwa o her angenrheidiol a pheidio â chael ei danseilio gan fuddiannau a phrofiad y rheiny sy'n fwyaf uniongyrchol gysylltiedig. Gallai'r safbwynt allanol hwnnw ddod o dair ffynhonnell.

- O gronfa o adolygwyr cymheiriaid, wedi'u hyfforddi gan Estyn gyda chymorth gan y consortia rhanbarthol. Yn wahanol i'r gofynion presennol ar gyfer arolygwyr cymheiriaid, gallai ysgolion weithio gydag adolygwyr cymheiriaid lleol ar sail gydweithredol. Gallent gyfrannu gwybodaeth arbenigol ymhellach na hynny a geir mewn ysgol ar ei phen ei hun, yn ogystal â gweithredu fel bwrdd seinio a ffrind beirniadol.

- O ymgynghorwyr her consortia rhanbarthol neu eu holynwyr a allai ddarparu cymorth a her gyson i'r broses.

- Gallai arolygwyr Estyn chwarae rhan ffurfiol ac anffurfiol yn y broses. Byddai'r rôl ffurfiol fel rhan o fath o broses hunanarfarnu wedi'i dilysu, a ddisgrifir isod. Yn ogystal, gallai arolygwyr gysylltu â grwpiau rhanbarthol o ysgolion ar ffurf rhywbeth tebyg i rôl Arolygydd Ardal a oedd yn nodwedd sefydledig o waith AEM yn y gorffennol. Byddai ymgysylltiad llai ffurfiol gan arolygwyr fwy na thebyg yn golygu y byddai'n rhaid i Estyn symud tuag at fodel gweithlu mwy gwasgaredig.

Yn sylfaenol, fodd bynnag, mae angen i'r ysgol fod ar y blaen os yw hunanarfarnu i ymsefydlu o fewn y system hunanwella.

### Cynigion ar gyfer datblygu arolygu mewn ysgolion

Roedd un prif bryder a fynegwyd i'r Adolygiad yn ymwneud ag effaith bosibl arolygu wrth i ysgolion ymgysylltu â diwygiadau. Yn aml, nododd staff mewn ysgolion ac yn fwy eang y byddai dryswch rhwng nodau'r diwygiadau a ffocws canfyddedig arolygu yn eu rhwystro rhag ymgysylltu'n llawn â diwygio. Byddai'r cynigion isod, gan

gynnwys newid sylweddol i weithgarwch Estyn o’r rhaglen arolygu bresennol am gyfnod cychwynnol, yn helpu mynd i’r afael â’r pryderon hyn ac yn atgyfnerthu’r angen i ysgolion ganolbwyntio ar ddiwygio.

Mae’r Adolygiad yn rhagweld dull tri cham, gyda’r bwriad o adlewyrchu a chefnogi aeddfediad y diwygiadau. Byddai pob un o’r camau yn cadw rôl Estyn yn darparu sicrwydd annibynnol credadwy. Ar yr un pryd, mae’r cynigion yn cydnabod y bydd ysgolion yn gweithio trwy gamau gwahanol proses newid sylfaenol, ac y byddant yn gwahaniaethu o ran sut y byddant yn mynd ati i newid, yn ogystal â’u gallu i gyflawni’r newidiadau. Hefyd, byddai pob cam yn ceisio mynd i’r afael â’r risgiau sy’n gysylltiedig ag atebolrwydd ‘â llawer yn y fantol’.

Yn bwysig, byddai’r symudiadau o gam un i’r cam nesaf yn cael eu llywio gan dystiolaeth oddi wrth Estyn ynghylch ymateb ysgolion i’r diwygiadau.

***Cam 1***

Byddai gweithgareddau Estyn yn ystod y cam hwn yn cydnabod graddfa’r disgwyliadau y mae’r agenda diwygio yn eu rhoi ar ysgolion, a byddai, felly, yn canolbwyntio ar gynorthwyo ac arfarnu’r broses ddiwygio. Byddai hefyd yn galluogi arolygwyr Estyn i ddatblygu’u dealltwriaeth eu hunain o’r diwygiadau yn ddyfnach.

Yn ystod y cam hwn:

- Byddai arolygwyr yn ystyried ac yn ymgysylltu â datblygu mewn clystyrau o ysgolion fel rhan o strategaeth ehangach o gydweithio a dysgu proffesiynol, i gefnogi’r diwygiadau i’r cwricwlwm wrth iddynt symud o’r cam dylunio i’w gwireddu. Gellid cytuno ar raglen gydlynus o ymgysylltiad ar lefel y consortia rhanbarthol.

- Dylai gweithgarwch arolygu alluogi casglu tystiolaeth am gynnydd gyda’r diwygiadau yn gyflym er mwyn llywio penderfyniadau ynglŷn ag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

- Byddai Estyn yn cynorthwyo’r symud tuag at system hunanwella drwy gefnogi datblygu dulliau newydd o hunanarfarnu, yn cynnwys datblygiad proffesiynol ar gyfer arolygwyr cymheiriaid a staff ysgolion.

- Byddai Estyn yn sicrhau bod arolygwyr eu hunain yn datblygu’r ddealltwriaeth a’r arbenigedd angenrheidiol y mae’r diwygiadau yn ceisio’u hyrwyddo.

- Er mwyn rhyddhau’r adnoddau angenrheidiol ar gyfer pob un o’r gweithgareddau hyn, byddai’r cylch arolygu presennol yn cael ei atal, a byddai hynny’n galluogi’r dysgu angenrheidiol a’r addasiadau angenrheidiol i weithdrefnau.

- Byddai math priodol o arolygu yn parhau o hyd mewn achosion lle nodwyd bod pryderon ynghylch ansawdd neu ddiogelu mewn ysgol. Byddai’r arolygiadau hyn yn cael eu cynllunio i ddiagnosio’r materion sy’n peri pryder a helpu mynd i’r afael â nhw. Byddai ysgolion sydd mewn categori gweithgarwch dilynol ar hyn y bryd yn cael eu hystyried ar sail achos wrth achos.

- Byddai gweithgarwch arolygu thematig yn parhau er mwyn sicrhau monitro systemau'n barhaus. Byddai themâu yn cael eu dewis i alluogi arolygwyr i gasglu tystiolaeth uniongyrchol ac adrodd ar gynnydd gyda'r rhaglen ddiwygio ac arfer ddatblygol yn y cwricwlwm, addysgeg ac asesu.

- Byddai amseru a chyfnod amser ailgyfeirio arolygu yn cyd-fynd â chynlluniau i gyflwyno'r diwygiadau fesul cam. Yn ôl y cynlluniau presennol, mae'n debygol y byddai'r ailgyfeirio arfaethedig yn para trwy gydol y sesiwn ysgol 2019-20.

- Y neges sylfaenol fyddai y byddai disgwyl bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud pan fydd rhaglen arolygu lawn yn cael ei hailddechrau, ar ffurf newydd, wedi'i chysoni'n llwyr â bwriadau'r diwygiadau.

*Cam 2*

Yn y cam hwn, byddai cylch arolygu yn ailddechrau, gan adeiladu ar y trefniadau arolygu newydd a gyflwynwyd yn 2017 ond gyda nifer o addasiadau sylweddol. Yn y cynllunio manwl ar gyfer y cam hwn, byddai Estyn yn parhau i gasglu tystiolaeth am safonau ac ansawdd addysg ysgolion, ond gyda ffocws cryfach ar gynnydd gyda'r diwygiadau. Byddai disgwyliadau uwch o ran hunanarfarnu.

Byddai Estyn yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod cam 1 er mwyn teilwra'r gweithgareddau arolygu yn ystod y cam hwn, gan ei alluogi i addasu cydbwysedd ei arolygiadau i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg.

Mewn newid sylweddol o'r gweithdrefnau presennol, byddai arfarniadau'n cael eu hymgorffori yn naratif y testun, nid ar ffurf graddau pennawd.

Dylid cynllunio arolygiadau (a hunanarfarnu ysgolion) i fynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda y mae'r ysgol yn ymgysylltu a dibenion y Cwricwlwm i Gymru?

- Pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu dysgu ac yn cyflawni safonau uchel priodol?

- Pa mor ddatblygedig yw'r sylfeini ar gyfer dysgu?
  - ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
  - ansawdd y dysgu ac addysgu
  - lles yr holl ddisgyblion

- Pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio hunanarfanu a dysgu proffesiynol i nodi ei chryfderau presennol ac i bennu blaenoriaethau ar gyfer datblygu?

Yn ystod y cam hwn:

- Byddai arolygiadau'n ymwneud i raddau mwy uniongyrchol â'r model cenedlaethol newydd ar gyfer hunanarfarnu ysgolion sydd wrthi'n cael ei

ddatblygu, a thrwy ddeialog proffesiynol rhwng staff ac arolygwyr, byddai'n cael ei gynllunio i helpu meithrin gallu ysgolion i hunanarfarnu.

- Byddai adroddiadau, yn fras, yn dilyn ymagwedd ymatebol trefniadau arolygu newydd Estyn, ond gyda ffocws cryfach ar gynnydd â'r diwygiadau ac ar allu ysgolion i ymgymryd â hunanarfarnu, fel yr amlinellwyd yn y cwestiynau uchod.

- Byddai arfarniadau'n cael eu disgrifio yn y testun heb unrhyw raddau pennawd, er mwyn ceisio lleihau effeithiau negyddol y dull adrodd presennol lle mae 'llawer yn y fantol'. Byddai disgrifiadau yn y testun yn adlewyrchu'r trywydd gwelliant yn well. Mae dysgu yn broses ddynamig, nad yw wedi'i gosod ar adeg benodedig mewn amser fel yr ymhlygir gan raddau pennawd. Byddai'r symudiad hefyd yn annog rhoi mwy o sylw i ffactorau sylfaenol hanfodol sy'n cyfrannu at ansawdd ac effaith gweithgareddau'r ysgol.

- Dylai naratif yr adroddiad nodi cryfderau, materion a meysydd i'w datblygu a'u gwella yn glir. Mae ymagwedd o'r fath yn gyson â'r nodau polisi o hyrwyddo system hunanwella a system ddysgu.

- Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r ffyrdd y disgrifir arfarniadau yn y testun. Gallai'r ymagwedd a ddefnyddir ar hyn o bryd gan arolygiaeth Iwerddon, sef 'continwwm ansawdd', sy'n galluogi rhoi disgrifiad llawnach, mwy cytbwys, gynnig model i'w ystyried. Fodd bynnag, un her fydd bod yn glir ynghylch arfarnu heb adleoli graddau pennawd yn syml yn y testun.

- Byddai dileu graddau pennawd mewn adroddiadau arolygu yn cael ei adlewyrchu mewn newidiadau i rôl consortia rhanbarthol ac, yn benodol, i ddulliau o benderfynu ar gymorth trwy fodel categoreiddio diwygiedig.

- Byddai gweithgarwch arolygu thematig yn parhau fel yng ngham 1, er mwyn sicrhau monitro systemau'n barhaus a thystiolaeth benodol yn ymwneud â themâu â pherthnasedd a diddordeb arbennig.

- Byddai'r dystiolaeth a gesglir yn ystod y cam hwn yn galluogi Estyn i gael trosolwg o allu ysgolion i hunanarfarnu er mwyn llywio cam 3, yn enwedig penderfyniadau ynghylch 'ymreolaeth haeddiannol' a gynigir isod.

*Cam 3*

Yn y cam hwn, gweithredir yn llawn egwyddorion y system hunanwella, gan adeiladu o Gam 2 a galluogi arolygiadau i weithredu'n bennaf ar sail hunanarfarnu wedi'i ddilysu. Byddai'n golygu newid mawr i atebolrwydd ac arolygu, yn gyson â system hunanwella.

Wrth i ysgolion aeddfedu o ran eu gallu i ymgysylltu'n agored ac adeiladol mewn hunanarfarnu, dylai rôl unigolion a chyrff allanol gynnwys darparu safbwyntiau sy'n archwilio ac ymestyn barnau mewnol. Ni fydd pob ysgol yn cyrraedd y pwynt hwn ar yr un pryd, ac felly dylid cyflwyno'r cam hwn ar gyflymder sy'n cyfateb i hyder mewn cynnydd tuag at system hunanwella. Dylai ei gamau cynnar fod yn seiliedig ar egwyddorion 'ymreolaeth haeddiannol' sy'n golygu y dylai ysgolion yng Ngham 2 a

ddangosodd eu bod yn gwneud cynnydd da iawn tuag at fod yn sefydliadau dysgu gyda hunanarfarnu priodol, symud at ymagwedd wedi'i dilysu gan Estyn. Mae mabwysiadu'r ymagwedd yn gyffredinol yn debygol o gymryd cryn amser.

Yn y cam hwn, byddai'r ymagwedd newydd yn cynnwys yr elfennau canlynol.

- Byddai dyletswydd ar bob ysgol i arfarnu ei hun yn unol â fframwaith wedi'i gytuno'n genedlaethol a fyddai'n gweithredu o fewn cyd-destun ehangach ysgolion fel sefydliadau dysgu.
- Byddai Estyn yn gweithio'n ffurfiol ochr yn ochr ag ysgolion yn eu proses hunanarfarnu yn unol â chylch wedi'i gytuno, gan ei alluogi i ddilysu (neu beidio â dilysu) proses hunanarfarnu'r ysgol. Byddai hyn yn galluogi Estyn i roi sicrwydd i rieni a'r gymuned ehangach ynghylch uniondeb y broses hunanarfarnu, am y safonau sy'n cael eu cyflawni ac am flaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach.
- Byddai gweithgareddau Estyn yn ystod yr hunanarfarniad wedi'i ddilysu, yn ychwanegol at ddadansoddi dogfennaeth berthnasol a holiaduron, yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol lle byddai arolygwyr yn asesu dysgu ac addysgu ac agweddau allweddol eraill ar waith ysgol yn unol â chwestiynau Cam 2 a amlinellwyd uchod. Byddai'n mynnu dulliau arolygu newydd, hyblyg, a gallai, er enghraifft, gynnwys arolygydd ac aelod o staff yr ysgol yn arsylwi dysgu ac addysgu ar y cyd, a/neu yn archwilio tystiolaeth ar gyfer asesu disgyblion ar y cyd.
- Byddai hunanarfarnu'n ymwneud yn uniongyrchol â phedwar diben y cwricwlwm cenedlaethol ac yn cynnwys meysydd y mae gofyniad statudol ar Estyn i adrodd arnynt. Prif ffocws yr hunanarfarnu fyddai dysgu, profiad, cyflawniad a lles y disgyblion.
- Byddai dyletswydd ar ysgolion i adrodd yn gyhoeddus, ar ffurf gytûn, ar ganfyddiadau eu hunanarfarniad. Ni fyddai'r hunanarfarniad yn graddio yn nhermau labeli arfarnol presennol, ond yn hytrach byddai'n pennu p'un a yw'r ysgol yn gryf ar hyn o bryd ac a oes angen am newid neu welliant.
- Byddai Estyn yn adrodd yn gyhoeddus ar gylch cytûn ar ei hyder yn y broses hunanarfarnu a chanfyddiadau'r ysgol. Byddai'r hyder hwnnw'n cael ei fynegi ar ffurf graddau hyder, yn debyg i'r rheiny a ddefnyddir mewn archwiliad ariannol: cwbl hyderus; rhannol hyderus; ddim yn hyderus.
- Byddai disgwyl i ysgolion weithio gydag adolygwyr cymheiriaid, wedi'u hyfforddi gan Estyn gyda chymorth gan gonsortia rhanbarthol, i lunio'u barn ynglŷn â chryfderau, y materion y mae'r ysgol yn eu hwynebu, a meysydd i'w datblygu.
- Byddai staff consortia rhanbarthol yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r ysgol yn ei hunanarfarniad ac yn cynorthwyo'r ysgol i fynd ar drywydd ei blaenoriaethau ar gyfer datblygu.
- Lle mae ansawdd darpariaeth ysgol a'i deilliannau ar gyfer disgyblion, neu ei phroses hunanarfarnu, yn peri pryder sylweddol, byddai'r ysgol yn cael arolygiad diagnostig gyda'r opsiwn o gychwyn gweithdrefnau targedig yn debyg i fesurau arbennig presennol.

- Gallai arolygiadau gael eu hysgogi hefyd yn dilyn cwynion sylweddol ac wedi'u cadarnhau.

- Byddai arolygiadau ac adroddiadau thematig Estyn yn parhau fel o'r blaen.

Byddai manteision yr ymagwedd a argymhellir fel a ganlyn:

1 Byddai'n ailddatgan cyfrifoldeb yr ysgol i adnabod ei hun ac i ymgysylltu'n flaenweithgar â'i gwelliant ei hun. Byddai cymhelliant gryn dipyn yn llai i gael ei hysgogi gan ofynion allanol canfyddedig.

2 Byddai'n rhoi mwy o lawer o ffocws proffesiynol ar ddysgu a phrofiadau pobl ifanc ac i ffwrdd oddi wrth graddio syml. Y nod gyffredinol fyddai dysgu o dystiolaeth a chymryd camau i wella yn hytrach na cheisio cyflwyno'r ysgol yn gadarnhaol i arfarnwyr allanol.

3 Byddai'n darparu dull o adrodd mwy parhaus ac amserol i rieni a'r gymuned ehangach.

4 Byddai'n annog mwy o gysondeb â'r agenda diwygio, yn galluogi ymagwedd fwy cynhwysfawr at ddysgu proffesiynol a sefydliadol ac yn annog cydweithio ymhlith ysgolion a chyrff allanol, gan gynnwys consortia rhanbarthol ac Estyn.

5 Byddai'n galluogi Estyn i gyfuno ei rôl sicrhau gyda chyfraniad mwy uniongyrchol at welliant. Byddai sicrwydd yn fwy dibynadwy am y byddai'n deillio o gorff tystiolaeth mwy datblygedig sy'n llai agored i effeithiau gwyrdroadol graddio.

6 Gallai ryddhau adnodd yn Estyn i ymgymryd â mwy o waith thematig yn unol â'r agenda ddiwygio genedlaethol.

Er bod yr ymagwedd a argymhellir yn cynnwys y potensial i leoli Estyn yn fwy canolog yn y rhaglen ddiwygio genedlaethol, mae iddi nifer o risgiau hefyd.

1 Mae'n mynnu newid mewn diwylliant i ffwrdd oddi wrth un lle mae pob ysgol yn cael ei gyrru i raddau helaeth gan bwysau allanol, i ddiwylliant lle mae'r ysgolion eu hunain yn cymryd mwy o berchnogaeth o welliant. Ni fyddai newidiadau angenrheidiol mewn diwylliant ac arfer yn digwydd yn gyflym o reidrwydd. Byddai'r egwyddor 'ymreolaeth haeddiannol' yn darparu cymhelliant pwysig i ddangos hunanarfarnu effeithiol.

2 Gallai'r newidiadau fod yn anodd i'w cyfleu i gynulleidfa nad yw'n broffesiynol. Yn benodol, mae rhieni a phobl eraill wedi dod yn gyfarwydd ag arfarniadau wedi'u graddio, a gallent bryderu y bydd y newidiadau yn celu gwendid. Byddai angen cyfleu'r neges yn glir fod y broses hon yn darparu tystiolaeth gadarnach a'i bod yn fwy tebygol o arwain at welliant go iawn.

3 Gallai hunanarfarnu ddod yn fwy biwrocrataidd a/neu yn amcan ynddo'i hun, yn amsugno egni ac yn tynnu oddi wrth genhadaeth yr ysgol a chamau a allai esgor ar fuddion gwell i'w disgyblion. Dylai hunanarfanu fod yn rhan annatod o welliant llwyddiannus ac nid yn elfen ychwanegol.

4 Bydd y broses yn mynnu buddsoddiad sylweddol mewn meithrin arbenigedd proffesiynol a deall hunanarfarnu ymhlith yr holl staff, ar adeg pan fyddant hefyd yn meithrin eu harbenigedd proffesiynol mewn datblygu'r cwricwlwm, addysgeg ac asesu.

5 Gallai'r mewnbynnau allanol fod naill ai'n aneffeithiol neu'n rhy flaenllaw, gan ddibynnu ar yr ymagwedd a fabwysiedir gan y rheiny sy'n gysylltiedig, ac arweinyddiaeth a diwylliant yr ysgol. Dylai cynnwys Estyn a'r consortia rhanbarthol mewn hyfforddiant adolygwyr cymheiriaid nodi'r cyfryw bryderon.

Byddai'n hanfodol i gynllunio a monitro camau gweithredu lliniaru i fynd i'r afael â'r risgiau hyn a risgiau eraill cyn symud ymlaen yn llwyr at Gam 3. Byddai rôl bwysig gan Estyn i nodi unrhyw faterion o bryder sy'n dod i'r amlwg, a chynghori ar gamau gweithredu i ymateb iddynt.

### Ysgolion sy'n tanberfformio

O dan unrhyw system arolygu newydd, bydd yr angen i nodi a gweithredu mewn perthynas ag ysgolion sy'n peri pryder difrifol yn parhau. Bydd y newidiadau arfaethedig i arolygu ysgolion yn mynnu dull addasedig o nodi ysgolion sy'n tanberfformio, ac o ran pennu gofynion arnynt.

Mae Arweiniad Estyn yn Awst 2017 yn amlinellu'r gweithgarwch dilynol presennol.[80]

Mae tri math o weithgarwch dilynol ar hyn o bryd:

1 Adolygu gan Estyn (monitro gan Estyn yn flaenorol)

2 Gwelliant sylweddol

3 Mesurau arbennig

Roedd 'adolygu gan Estyn' yn ei ddiwyg blaenorol fel 'monitro gan Estyn' yn mynnu ymgysylltiad parhaus, yn cynnwys ymweliadau, â nifer sylweddol o ysgolion ar ôl iddynt gael eu harolygu. Fodd bynnag, mae'r trefniadau o sesiwn 2017-2018 wedi'u haddasu i ganiatáu ymateb mwy hyblyg i ysgolion yn y categori hwn. Cynhaliwyd gweithgarwch dilynol yn y modd hwn mewn 22% o ysgolion cynradd ac 20% o ysgolion uwchradd yn 2016-2017.[81]

Mae 'gwelliant sylweddol (neu â ffocws)' a 'mesurau arbennig' yn gategorïau statudol sy'n gymwys i ysgolion sydd yn peri pryder fel y diffiniwyd gan Ddeddf Addysg 2005 a chylchlythyrau cysylltiedig. Mae rhyw 5% o'r holl arolygiadau yn arwain at weithgarwch dilynol statudol, yn amrywio yn 2016-2017 o 4% o ysgolion cynradd i 23% o ysgolion uwchradd.[82]. Mae arweiniad Estyn yn pennu, yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol. Mae penderfyniadau ynglŷn â chategori wedi'u seilio ar y barnau yn y pum

[80] Estyn (2017) Arweiniad ar Weithgarwch Dilynol ar gyfer ysgolion ac arolygwyr Awst 2017
[81] Estyn (2017) *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon*, tudalen 15
[82] ibid, tudalen 15

maes arolygu. Mae'n ofynnol i'r tîm ystyried a yw'r ysgol yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion, ac a yw'r unigolion sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn yr ysgol.

Os bernir bod angen gwelliant sylweddol ar ysgol, dylai'r ysgol weithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael a'r gwendidau. Bydd arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol yn ystod y tymor ar ôl cyhoeddi'r adroddiad i arfarnu cynllun gweithredu ôl-arolygiad yr ysgol (CGOA) a datganiad gweithredu'r awdurdod lleol. Tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, bydd Estyn yn cynnal ymweliad monitro â'r ysgol er mwyn arfarnu cynnydd, a bydd yn penderfynu pa gamau pellach y gall fod eu hangen, os o gwbl.

Os nodir bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn ysgolion yn ystod arolygiad craidd, mae'n debygol y bydd ganddynt lawer o feysydd pwysig yn eu gwaith y mae angen eu gwella. Yn benodol, mae'n rhaid i arolygwyr farnu p'un a ystyrir bod y gallu gan arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn yr ysgol.

> *"Rhaid i arolygwyr roi ystyriaeth benodol i nodi bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol pan fydd y farn ar gyfer maes arolygu 5, arweinyddiaeth a rheolaeth, yn 'anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys'."* [83]

Pan fydd ysgol yn cael ei rhoi yn y categori mesurau arbennig, caiff set fanwl o weithdrefnau ei rhoi ar waith. Mae'r CGOA yn parhau yn brif bwynt ffocws trwy gydol y broses. Pennir y gofynion ar gyfer adrodd, ac amseru a hyd ymweliadau arolygu yn fanwl, ynghyd â gweithgareddau cysylltiedig.

Mae cyfrannau'r ysgolion y mae angen rhyw fath o weithgarwch dilynol arnynt ar ôl arolygiad yn amrywio yn ôl sector, ond maent yn uchel iawn. Dros y cyfnod 2010-2017[84], dim ond 50% o ysgolion cynradd a 34% o ysgolion uwchradd nad oeddent mewn rhyw fath o gategori monitro ar ôl arolygiad. O ran categorïau statudol, roedd 3% o ysgolion cynradd yn y categori angen gwelliant sylweddol, ac roedd 3% yn y categori mesurau arbennig. Roedd y ffigurau uwchradd yn sylweddol uwch, gyda 10% yn y categori angen gwelliant sylweddol ac 8% yn y categori mesurau arbennig, ac mewn ysgolion arbennig, y ffigurau oedd 4% a 2%.

Yn yr ysgolion sydd wedi'u rhoi yn y categori mesurau arbennig, fel arfer mae diffygion difrifol wedi'u nodi yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Mae ysgolion sy'n symud allan o gategori gweithgarwch dilynol yn dangos gwelliannau sylweddol yn aml yn yr addysgu a'r dysgu, a '...chefnogwyd y gwelliannau hyn drwy gryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, cynllunio gwelliant a rheoli llinell'. [85]

Nid yw tystiolaeth o berfformiad presennol ar draws y system addysg yng Nghymru yn awgrymu y dylid lleihau trylwyrder y broses bresennol ar gyfer gweithgarwch dilynol. Yn wir, bydd y rhaglen ddiwygio yn rhoi gofynion ychwanegol ar ysgolion, yn

[83] ibid, tudalen 6
[84] Estyn (2018) *Adroddiad Blynyddol PAEM 2016-2017*
[85] ibid, tudalen 91

enwedig y rheini y barnwyd bod angen gwelliant arnynt eisoes. Dylai'r egwyddor o fynd ar drywydd ysgolion sy'n peri pryder gael ei chynnal felly.

Mae'n debygol, fodd bynnag, y bydd angen adolygu ffurf y broses gweithgarwch dilynol. Er y bydd llawer o'r arweiniad presennol yn parhau'n berthnasol, bydd y cynnig yn yr Adolygiad i symud i ffwrdd oddi wrth raddau pennawd yn mynnu sylfaen wahanol ar gyfer pennu gweithgarwch dilynol. Hefyd, er enghraifft, bydd lle i gyfranogiad uniongyrchol llai helaeth gan Estyn wrth i'r broses hunanarfarnu fwy cydweithredol ymwreiddio.

Bydd angen i natur unrhyw broses ddiwygiedig ar gyfer gweithgarwch dilynol gysylltu â'r broses ddilysu neu ddangosyddion eraill sy'n awgrymu diffygion sylweddol. Er enghraifft, lle mae'r broses hunanarfarnu sydd wedi'i dilysu yn arwain at dystiolaeth o bryder difrifol, gallai'r arolygwyr cysylltiedig wedyn ofyn i PAEM orchymyn arolygiad diagnostig. Yn unol â'r angen am gymorth wedi'i deilwra a amlygwyd yn arfarniad Her Cymru[86], dylai arolygiad diagnostig fod yn fwy datblygedig a dyfnach na'r trefniadau arolygu presennol, er mwyn galluogi sefydlu agenda glir ar gyfer gwelliant.

Gallai cynadleddau gwelliant, sy'n nodwedd gymharol newydd ar broses arolygu awdurdodau lleol, wella effeithiolrwydd gweithgarwch dilynol. Eu diben yw cynorthwyo awdurdod lleol i wella ei wasanaethau addysg gyda ffocws ar gynlluniau gwella'r awdurdod. Yn ystod y gynhadledd welliant, caiff rhwystrau rhag cynnydd eu nodi a chaiff ffyrdd posibl ymlaen a risgiau cysylltiedig eu harchwilio.[87]

> *'Nod y cynadleddau yw i arolygwyr geisio sicrwydd gan uwch swyddogion ac aelodau bod yr awdurdod a'i gonsortiwm yn deall ac yn cymryd cydgyfrifoldeb dros y materion sy'n arwain at berfformiad gwael. Yn ystod y gynhadledd, rydym yn gwirio bod gan yr awdurdod gynlluniau cydlynus i wella, bod ganddo ddigon o adnoddau i roi ei gynlluniau ar waith, a bod ganddo brosesau trylwyr ar waith i fonitro ac arfarnu eu heffaith. Yna, caiff gweithredu'r cynlluniau ei fonitro gan arolygwyr cyswllt yr awdurdod lleol yn ystod eu hymweliadau â'r awdurdodau lleol.'* [88]

Gallai dull tebyg i gynadleddau gwelliant awdurdodau lleol wella effeithiolrwydd gweithgarwch dilynol mewn ysgolion y nodwyd eu bod yn tanberfformio yn y broses arolygu ysgolion newydd arfaethedig.

Yn y dystiolaeth i'r Adolygiad, roedd pryderon fod y broses bresennol ar gyfer gweithgarwch dilynol mewn ysgolion yn rhy fecanistig, ac nad oedd yn caniatáu digon o hyblygrwydd i helpu ysgolion i wella. Roedd un o'r ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn adleisio pryderon ynglŷn â'r broses a fynegwyd yn uniongyrchol yn ystod yr Adolygiad.

> *"Fel athro mewn ysgol sydd yn y categori mesurau arbennig, ac wedi cael 10 o ymweliadau gan Estyn mewn 7 mlynedd, rwy'n meddwl tybed beth fu'r*

[86] Llywodraeth Cymru (2017) *Asesu cyfraniad Her Ysgolion Cymru at y canlyniadau a gyflawnwyd gan yr ysgolion Llwybrau Llwyddiant.* Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 38/2017
[87] Estyn (2016) Arweiniad ar gyfer Cynadleddau Gwelliant
[88] Estyn (2018) *HMCI Annual Report 2016-2017* page 142

*effaith y maent wedi'i chael ar addysg ein plant. Mae'r nifer hon o ymweliadau wedi achosi straen yn gysylltiedig â gwaith yn bendant, ac wedi arwain at staff byrarhosol iawn, nad yw'n cael unrhyw effaith gadarnhaol ar addysg ein plant."* [89] (Rhiant/Llywodraethwr/Athro/Gweithiwr Proffesiynol Addysg Arall)

Bydd penderfyniadau ynglŷn ag union natur gweithgarwch dilynol yn mynnu ystyriaeth o ddifrif yn y symudiadau tuag at system hunanwella, yn enwedig os yw'r argymhellion yn yr Adolygiad hwn yn cael eu derbyn. Dylai'r gyfryw ystyriaeth geisio lleihau natur fformwläig y broses bresennol, adeiladu ar hunanarfarnu wedi'i ddilysu a chreu cydbwysedd gwell rhwng ymgysylltiad Estyn a llywodraeth leol yn y broses.

### Crynodeb

Byddai'r model newydd arfaethedig ar gyfer arolygu ysgolion a gweithgarwch dilynol yn cynnwys y nodweddion canlynol.

- Byddai cyfrifoldeb gan bob ysgol i hunanarfarnu yn unol ag arweiniad cenedlaethol
- Byddai hunanarfarnu yn cael ei gefnogi, fel y bo'n briodol, gan adolygwyr cymheiriaid, staff consortia rhanbarthol a/neu arolygwyr lleol o Estyn
- Byddai Estyn a chonsortia rhanbarthol yn hyfforddi'r gronfa o adolygwyr cymheiriaid
- Byddai Estyn yn ymgymryd yn ffurfiol â gweithgareddau gydag ysgolion i ddilysu (neu beidio) eu proses hunanarfarnu yn unol â chylch wedi'i gytuno, ac yn cyhoeddi ei gasgliadau ar ansawdd proses hunanarfarnu'r ysgol.
- Byddai gweithgarwch dilynol mewn ysgolion sy'n peri pryder difrifol yn parhau. Byddai natur y gweithgarwch dilynol hwnnw'n newid ac yn dod yn fwy hyblyg ac wedi'i deilwra i adlewyrchu'r cyd-destun newydd.
- Byddai ysgolion sydd yn y categorïau gwelliant sylweddol a mesurau arbennig ar hyn o bryd yn parhau i gael eu monitro'n uniongyrchol gan Estyn.
- Byddai ysgolion sy'n peri pryder yn y broses newydd yn cael arolygiad diagnostig cyn cael eu rhoi yn y categori mesurau arbennig

Ymdrinnir â goblygiadau ehangach ar gyfer arfarnu system ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn.

[89] Taylor C., Power S., Powell R., (2018) *Independent Review of Estyn's Contribution to Wales's Education Reform Programme,* WISERD, Prifysgol Caerdydd tudalen 10



# 6 Arfarnu ar lefel system

Yn unol ag argymhelliad gan OECD, mae Llywodraeth Cymru wedi ymroi i ddatblygu '*Fframwaith asesu a gwerthuso ar gyfer y system gyfan, gan ddangos yn glir beth mae pob rhan o'r system yn gyfrifol amdano, gan sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu dyrannu'n briodol a bod atebolrwydd yn glir, er mwyn gwreiddio cydweithio a chodi safonau i'n holl ddysgwyr.'*[90] Bydd arfarnu ar lefel system yn rhan bwysig o fframwaith o'r fath.

## Arfarnu presennol ar lefel system

Ar hyn o bryd, mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn casglu data perfformiad a gyhoeddir ar Setiau Data Craidd Cymru Gyfan, ar Fy Ysgol Leol neu mewn adroddiadau ystadegol. Mae Cymru'n cyfranogi yn arolygon PISA yr OECD, gan ddarparu cymariaethau rhyngwladol o berfformiad mewn iaith, mathemateg a gwyddoniaeth ar gylch tair blynedd. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r OECD, gan ei wahodd i ymgymryd â dau arfarniad o bolisi yn 2014 a 2017, ac ymchwilio i'r graddau yr oedd ysgolion Cymru yn datblygu fel sefydliadau dysgu.

Hefyd, mae Cymru'n cyfranogi mewn cynadleddau a chydweithrediadau rhyngwladol, ac yn nodedig yn yr Atlantic Rim Collaboratory yn ddiweddar a oedd yn cynnwys Gweinidogion ac uwch swyddogion polisi mewn trafodaethau gydag academyddion blaenllaw ynglŷn â materion yn ymwneud â thegwch, rhagoriaeth, lles, cynhwysiant, democratiaeth a hawliau dynol.

Hefyd, o dro i dro, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiadau lefel system i ymateb i faterion polisi penodol. Yn ychwanegol at yr adolygiad hwn o Estyn, byddai adolygiad Robert Hill o ddyfodol cyflwyno gwasanaethau addysg yng Nghymru, a'r adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* ar y cwricwlwm, ill dau yn enghreifftiau o'r ymagwedd hon at arfarnu ar lefel system.

Ar hyn o bryd, mae Estyn yn gwneud nifer o gyfraniadau pwysig at arfarnu addysg yng Nghymru ar y lefel system. Y cyfraniad mwyaf amlwg yw drwy adroddiadau blynyddol PAEM sy'n rhoi trosolwg o dystiolaeth arolygu yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â sylwebaeth gan y Prif Arolygydd. Rhoddir yr adroddiadau hyn gerbron y Cynulliad ac fe'u trafodir gan aelodau'r Cynulliad, yn nodedig yn y Pwyllgor Addysg a Sgiliau. Hefyd, mae PAEM yn cyfarfod yn gyson gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn mynd i'r afael â materion ar lefel system, gan roi adborth ar bolisi a chipolygon ar arfer dda yn y meysydd a ddewisir i ymchwilio iddynt. Yn ogystal, mae staff Estyn, yn enwedig uwch aelodau staff, yn cyfrannu at drafodaethau polisi ac yn cyfranogi mewn cynadleddau a digwyddiadau addysgol.

[90] Llywodraeth Cymru (2017), *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21,* tudalen 37

O'u cymryd ynghyd, mae'r ffurfiau amrywiol hyn o arfarnu systemau yn rhoi cipolygon pwysig ar berfformiad addysg yng Nghymru. Fodd bynnag, i raddau helaeth, maent yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd ac nid oes unrhyw drosolwg cynhwysfawr rheolaidd sy'n sefydlu darlun o 'gyflwr y genedl yn addysgol.' O ganlyniad, gall fod ymateb braidd yn ddigyswllt ac episodig i arfarnu, gan greu'r risg y ceir ymatebion gwleidyddol byrdymor a allai danseilio'r strategaeth wella tymor hwy.

### Cyfraniad ehangach gan Adroddiad PAEM

Mae'r OECD, yn ei drosolwg rhyngwladol yn 2013 o arfarnu ac asesu[91], yn nodi nifer o 'awgrymiadau' ar gyfer fframwaith arfarnu ac asesu cenedlaethol, gan gynnwys y dylai:

- ymgorffori cysyniad bras o beth ddylid ei gynnwys gyda set amrywiol o dystiolaeth ansoddol a meintiol
- arwain at adroddiad blynyddol ar y graddau y mae amcanion system yn cael eu bodloni
- cynnwys strategaeth genedlaethol i fonitro safonau dysgu myfyrwyr
- monitro materion yn ymwneud â thegwch
- hyrwyddo datblygu'r gallu i arfarnu
- sicrhau gwrthrychedd a hygrededd wrth arfarnu system addysg

Mae Estyn eisoes yn bodloni, i raddau amrywiol, yr holl 'awgrymiadau' a restrwyd uchod, ac mae mewn sefyllfa dda i wneud cyfraniad pwysig at y fframwaith. Mae adroddiad blynyddol PAEM yn rhoi trosolwg o dystiolaeth o arolygiadau sefydliadol, meysydd ac arolygiadau thematig, ansoddol a meintiol. Mae ei holiaduron a ddosberthir fel rhan o arolygiadau yn rhoi gwybodaeth ehangach am randdeiliaid. Mae sylwebaeth PAEM yn rhoi barn broffesiynol gredadwy am oblygiadau i bolisi ac arfer. Mae'r adroddiad yn annibynnol ar y Gyfarwyddiaeth Addysg, llywodraeth leol ac ysgolion. Mae'n ymdrin â materion tegwch fel rhan o'r drefn. Ac mae'r broses arolygu a hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid yn hyrwyddo datblygu gallu arfarnol yn y system.

Er nad yw adroddiadau PAEM yn effeithio'n eang ar athrawon ac ysgolion, roedd cefnogaeth gref gan rai[92] am eu gwerth.

> '*Mae'n nodi tueddiadau, negeseuon allweddol, meysydd pryder.* (Pennaeth)
>
> *'Mae'n hynod ddefnyddiol, mae'n canolbwyntio ar faterion cyfredol'* (Pennaeth)
>
> *'Crynodeb clir a deniadol iawn o negeseuon allweddol a thystiolaeth. Hawdd ei ddarllen.'* (Athro)
>
> *'Mae'r adroddiad hwn yn ddefnyddiol iawn am ei fod yn nodi 'pynciau llosg' – y meysydd cryfder a gwendidau o'r holl arolygiadau cynradd. Rydym yn defnyddio'r adroddiad fel Uwch Arweinwyr i hunanwirio ein prosesau ein hunain. Un enghraifft dda fyddai'r ffocws ar effaith datblygiad proffesiynol ac*

[91] OECD (2013). *Synergies for Better Learning.* OECD Publishing, Paris. Tudalennau 640-648
[92] Taylor C., Power S., Powell R., (2018) Independent Review of Estyn's Contribution to Wales's Education Reform Programme, WISERD, Prifysgol Caerdydd, tudalennau 32 a 33

> *ymchwil athrawon yn adroddiad 2015/16. Gwnaethom rai newidiadau i'n cynnig DPP, ac rydym yn gwybod bod angen i ni gefnogi staff mewn ffordd fwy strwythuredig o ran prosiectau ymchwil graddfa fach*.' (Ar ran ysgol)
>
> *'Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at beth sy'n dda a beth sydd o'i le gydag addysg. Mae'n rhoi'r negeseuon cywir i arweinwyr ysgolion ac eraill, gan eu cyfeirio i'r cyfeiriad cywir.'* (Aelod o'r cyhoedd â diddordeb)

Mae adroddiad diweddaraf PAEM yn edrych ar negeseuon o'r cylch yn ei gyfanrwydd, gan roi cipolwg ar y potensial am ymagwedd fwy cynhwysfawr. Gellid gwella rôl adroddiad blynyddol PAEM ymhellach pe bai'n ehangu ei ystod tystiolaeth.

- Ar hyn o bryd, mae'r adroddiad yn cael ei gyfyngu gan sampl flynyddol sydd wedi'i chyflyru i raddau sylweddol gan y dull arolygu cylchol. Fodd bynnag, mae'r cynigion ar gyfer arolygu ysgolion a wneir gan yr Adolygiad yn creu'r posibilrwydd am i gorff o dystiolaeth fwy cynrychioliadol gael ei ddefnyddio.

- Gellid cryfhau'r dystiolaeth yn yr adroddiad ymhellach pe bai'n mynd y tu hwnt i ysgolion wedi'u harolygu ac adolygiadau thematig. Gallai canfyddiadau ymchwil gydategu tystiolaeth arolygu, a gallai hefyd ddefnyddio profiad o fannau eraill yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Gallai aelodaeth Estyn o SICI, sef y sefydliad arolygiaethau addysg rhyngwladol,  gyfrannu at safbwynt rhyngwladol o'r fath.

- Hefyd, gallai'r adroddiad ddefnyddio'r rhaglen profion samplu a gynigiwyd yn Dyfodol Llwyddiannus ac a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru fel elfen hanfodol o ymagwedd ddeallus at atebolrwydd. Mae hyn yn debygol o gynnwys rhaglen dreigl o brofion samplu ar draws gwahanol ysgolion, cyfnodau ac agweddau ar y cwricwlwm, a galluogi arfarnu safonau ar lefel system heb effeithiau gwyrdroadol profion o'r garfan gyfan lle mae 'llawer yn y fantol'. Dylai trosolwg Estyn o berfformiad system gynnwys sylwebaeth benodol ar oblygiadau tystiolaeth profion samplu o'r fath.

- Mae adroddiadau PAEM eisoes yn cyfeirio at oblygiadau canlyniadau PISA i Gymru. Fodd bynnag, mae a wnelo grym PISA yn fwy â manylion yr hyn y gall ei ddatgelu ynglŷn â'r ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad na'i raddau cymharol proffil uchel o wledydd. Mae Estyn mewn sefyllfa dda iawn i dynnu'r cyfryw negeseuon allan a'u gosod ochr yn ochr â'i dystiolaeth arall o berfformiad.

Hyd yn hyn, mae adroddiadau PAEM wedi bod yn gynhwysfawr wrth iddynt ymdrin â thystiolaeth blwyddyn, ond mae Estyn eisoes yn ystyried ymagwedd â mwy o ffocws at yr adroddiadau hyn. Wrth i natur a diben y fframwaith arfarnu ac asesu arfaethedig ddod yn gliriach, dylid ystyried patrwm adrodd yn y dyfodol. Gellid lleihau amlder adroddiadau cynhwysfawr i gyfateb i rythm y cylch tystiolaeth. Gallai adroddiad bob tair blynedd ar 'gyflwr y genedl', er enghraifft, ddarparu sylfaen dystiolaeth sylweddol iawn a oedd yn cynnwys y dystiolaeth ddiweddaraf o PISA. Wedyn, gallai adroddiadau blynyddol dargedu materion polisi ac arfer cyfredol allweddol yn fwy. Yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, er enghraifft, gallai adroddiadau fydd yn canolbwyntio ar gynnydd â'r diwygiadau wneud cyfraniad pwysig at eu llwyddiant. Gallai'r canfyddiadau hyn, gan gynnwys canfyddiadau o ymchwil, weithredu fel dolen adborth

rymus i'r rheini sy'n trefnu elfennau cydgysylltiedig amrywiol y diwygiadau, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â goblygiadau gwahanol gamau'r diwygiadau i arolygu. Yn benodol, gallent lywio blaenoriaethau mewn addysg gychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon.

### Adroddiadau thematig

Mae adroddiadau thematig Estyn yn rhoi trosolygon arfarnol o agweddau allweddol ar bolisi ac arfer yng Nghymru. Gwnaed sylwadau cadarnhaol iawn am yr adroddiadau hyn i'r Adolygiad. Yn y Cais am Dystiolaeth, "…soniodd y rhan fwyaf o'r ymatebion fod adroddiadau thematig yn bwysig am eu bod yn galluogi rhannu arfer dda rhwng darparwyr addysg". [93]

> "*Ar ôl cael arolygiad thematig, roedd yr adborth yn fuddiol - profiad cadarnhaol iawn. Mae adroddiadau thematig yn cael eu defnyddio'n rheolaidd e.e. i nodi arfer orau y gellir ei rhannu gyda staff."* '[94] (Ar ran ysgol)

> *"Mae'r rhain yn ddefnyddiol iawn ac yn rhoi cipolwg ar arfer orau. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth fuddiol fel rhan o ymchwil ysgol i welliant ysgolion. Mae'r rhain yn galluogi ysgolion sy'n gwella i gysylltu ag ysgolion â pherfformiad uchel i rannu arfer dda. Mae'n cefnogi hunanwella drwy weithio rhwng ysgolion."* [95] (Gweithiwr Addysg Proffesiynol Arall)

Ar hyn o bryd, caiff y rhaglen o adolygiadau thematig ei chytuno gyda'r Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i cadarnheir ar ffurf 'llythyr cylch gwaith'. Mae'n ymddangos bod y broses hon yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd yr adolygiadau hyn, dylai'r broses ar gyfer penderfynu'n derfynol ar y rhaglen gydweddu â golwg strategol, hirdymor ar flaenoriaethau. Gellid hwyluso ymagwedd strategol o'r fath gyda phroses ymgynghori fwy cynhwysol. Mae'r Adolygiad, felly, yn argymell y dylai Estyn a'r Gyfarwyddiaeth Addysg archwilio ffyrdd lle gellid datblygu mwy o ymgysylltiad gan randdeiliaid o fewn rhaglen dymor hwy o adolygiadau thematig.

[93] ibid, tudalen 28
[94] ibid, tudalen 28
[95] ibid, tudalen 28

# 7 Materion ehangach

Mae nifer o faterion ehangach yn deillio o'r dystiolaeth i'r Adolygiad ac o'i argymhellion. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- llywodraethu ac annibyniaeth
- cyllido
- synergeddau ar draws cyfrifoldebau Estyn
- goblygiadau i fathau eraill o atebolrwydd a chymorth
- staffio yn y dyfodol
- arolygu'r chweched dosbarth
- arolygiadau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol
- hunanarfarnu Estyn

## Llywodraethu ac annibyniaeth

Mae Estyn yn adran anweinidogol y gwasanaeth sifil ac mae'n annibynnol ar, ond yn cael ei ariannu gan, Lywodraeth Cymru o dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae PAEM yn gyfrifol am drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol yn Estyn, ac am ei weithdrefnau mewn materion ariannol a materion eraill, gan gynnwys ymddygiad a disgyblaeth. Mae gan PAEM ddyletswydd gyffredinol i roi gwybod i Weinidogion Cymru am gyflawni ei gyfrifoldebau ac mae ganddo'r hawl i ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â gweithgareddau o fewn ei gylch gwaith.

Mae fframwaith llywodraethu yn disgrifio'r '…systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli Estyn ac y mae Estyn, drwy'r rhain, yn monitro cyflawniad ein hamcanion strategol a'n hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid'. [96]

Yn fewnol, mae gan Estyn Fwrdd Strategaeth a Bwrdd Gweithredol. Mae gan y Bwrdd Strategaeth ddau is-bwyllgor: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Tâl. Mae Cynllun Blynyddol yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol Estyn, yn cyflwyno'i brif nodau ac amcanion, ac mae'n destun cymeradwyaeth gan y Prif Weinidog.

Caiff y Bwrdd Strategaeth ei gadeirio gan PAEM ac mae ei aelodaeth yn cynnwys dau Gyfarwyddwr Strategol Estyn, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a thri chyfarwyddwr anweithredol. Nid oes rôl gwneud penderfyniadau gan y cyfarwyddwyr anweithredol. Nid ydynt y gyflogeion i Estyn ac maent yn atebol i PAEM, fel y Swyddog Cyfrifyddu.

Diben y Bwrdd Strategaeth yw pennu a monitro agenda strategol Estyn, hyrwyddo llywodraethu corfforaethol effeithiol a chynghori ar ddatblygiad Estyn er mwyn

[96] Estyn (2016) *Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Esty*n

sicrhau ei les a'i welliant parhaus fel cyflogwr ac fel gwasanaeth cyhoeddus proffil uchel.[97]

Caiff y Bwrdd Gweithredol ei gadeirio gan PAEM hefyd, ac yn ogystal â'r Cyfarwyddwyr Strategol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, fe'i mynychir gan gyfarwyddwyr cynorthwyol yn eu tro. Ei ddiben yw 'cefnogi a chynorthwyo PAEM wrth arwain a rheoli Estyn yn unol ag egwyddorion llywodraethu corfforaethol da, rheolaeth fewnol dda a rheoli risg yn dda.'[98]

Mae Estyn yn destun adolygiad archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ychwanegol at archwilio'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, mae'r hawl gan Swyddfa Archwilio Cymru hefyd i gynnal archwiliadau gwerth am arian o agweddau ar unrhyw weithgareddau fel y bo'n briodol.

Mae'r trefniadau llywodraethu hyn yn darparu sylfaen dda ar gyfer rheolaeth fewnol Estyn. Mae llywodraethu cadarn yn cynnwys cydbwyso cyfraniadau rolau gweithredol ac anweithredol. Yn benodol, caiff prif fyrddau eu cadeirio'n aml gan rywun y tu allan i staff parhaol sefydliad. Mae trafodaethau gyda chyfarwyddwyr anweithredol yn awgrymu bod y trefniant presennol, lle mae PAEM yn cadeirio'r Bwrdd Strategaeth, yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, ni ddylai'r cyfryw drefniadau fod dan reolaeth personoliaethau ac amgylchiadau penodol y cyfnod hwnnw. Dylid rhoi ystyriaeth felly, maes o law, i gael cadeirydd anweithredol i'r Bwrdd Strategaeth.

Yn yr un modd, nid yw natur perthynas Estyn â gweinidogion yn Llywodraeth Cymru yn un sydd wedi'i diffinio, ac mae'r berthynas honno hefyd felly dan reolaeth amgylchiadau penodol y cyfnod. Bydd y berthynas rhwng PAEM ac uwch weision sifil, yn benodol, yn effeithio'n gryf ar y ffyrdd y gall Estyn gyfrannu at ddatblygu polisi.

Mae statws Estyn fel adran anweinidogol yn peri rhywfaint o amwysedd o ran ei gysylltiad â gweinidogion. Dylai llunio polisi ar sail tystiolaeth yn y llywodraeth olygu bod gan y cyfoeth o dystiolaeth a chyngor sy'n deillio o Estyn le cadarn yn y broses polisi. Roedd yn amlwg i'r Adolygiad, er bod gweithdrefnau a pherthnasoedd presennol yn rhai cadarnhaol, nad oes angen i hynny fod yn wir bob tro. Mae achos cryf, felly, dros ddatblygu Cytundeb Fframwaith sy'n gosod y sylfaen i allu sicrhau lle'r cyfryw gyngor proffesiynol annibynnol i weinidogion arni.

### Cyllido

Mae trefniadau cyllido presennol wedi'u cynllunio i helpu diogelu annibyniaeth Estyn. Nid yw ei gyllid yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan yr adran y mae'n fwyaf cysylltiedig â hi (y Gyfarwyddiaeth Addysg). Er nad oedd modd mynd ar drywydd goblygiadau'r trefniant hwn yn fanwl yn yr Adolygiad, gallai arwain at ddiffyg gwybodaeth ynghylch pwysigrwydd cymharol gwaith Estyn mewn penderfyniadau cyllido nag a fyddai fel arall.

Hyd yn hyn, bu disgwyl i Estyn gydbwyso'i adnoddau cyffredinol i'w alluogi i ymgymryd â'r gwaith arolygu thematig a nodir yn y llythyr cylch gwaith oddi wrth

---

[97] ibid
[98] ibid

Lywodraeth Cymru. O ystyried pwysigrwydd gweithgarwch thematig i lywio'r rhaglen ddiwygio, mae achos dros fabwysiadu ymagwedd wedi'i theilwra'n fwy ar gyfer cyllido'r agwedd hon ar waith Estyn. Dylai goblygiadau adnoddau gwaith thematig angenrheidiol gael ei gytuno gyda'r adran, a dylid cydnabod y goblygiadau i'r gyllideb. Fel hynny, gellid pennu blaenoriaethau yn fwy uniongyrchol, a'u llywodraethu'n rhannol gan eu goblygiadau ariannol.

### Synergeddau ar draws cyfrifoldebau Estyn

Amlinellir ystod eang cyfrifoldebau presennol Estyn ym Mhennod 2. Mae graddfa'r dyletswyddau hyn wedi ehangu dros gyfnod wrth i bolisi ddatblygu ac wrth i'r angen am arfarnu allanol gynyddu. Er bod gan bob agwedd ar arolygu ei nodweddion arbennig ei hun, mae Estyn wedi gallu sefydlu synergeddau pwysig ar eu traws.

Ei arolygiadau o ysgolion, gan gynnwys ysgolion arbennig, yw'r gyfran fwyaf sylweddol o raglen waith Estyn, ond ceir synergeddau sylweddol rhwng y rhaglen honno a meysydd gweithgarwch eraill. Er enghraifft, mae ei arolygiadau ar y cyd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn flaenorol) o leoliadau meithrin nas cynhelir, yn ei alluogi i gyflwyno arbenigedd arbenigol mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen i'r lleoliadau hyn. Yn hanfodol, mae arolygu unedau cyfeirio disgyblion (UCD) yn galluogi dod â disgwyliadau o'r brif ffrwd i gyd-destun lle gallai addysg y bobl ifanc dan sylw ddioddef o ddiffyg her yn hawdd. Yn yr un modd, gall ei waith mewn addysg bellach gael ei wneud gan wybod am faterion mynegiant gyda gwaith mewn ysgolion.

Mae gweithio ar y cyd â chyrff arolygu eraill yn cynnig cyfleoedd hefyd i gyfuno arbenigedd. Mae Arolygu Cymru yn rhaglen o gydweithio a chydweithredu rhwng: yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn. Drwy weithio gyda'i gilydd yn effeithiol, gellir cynyddu'r effaith y gallant ei chael.

Mae arbedion effeithlonrwydd i'w gwneud yn sgîl rhoi ystod o gyfrifoldebau i Estyn y tu hwnt i addysg ysgolion. Yn ychwanegol at fuddion logistaidd, gall arolygwyr ddatblygu cronfa o arbenigedd, gan alluogi eu defnyddio'n effeithlon ar draws sectorau. Mewn unrhyw ystyriaeth yn y dyfodol o'r dirwedd atebolrwydd, ni ddylid diystyru gwerth y buddion sydd i'w cael o synergeddau o'r fath.

### Goblygiadau ar gyfer y dirwedd cymorth ac atebolrwydd ehangach

Yn wahanol i wledydd eraill y DU, fel Yr Alban ac Iwerddon, er 2006, nid oes gan Gymru gorff cenedlaethol i gynorthwyo datblygu'r cwricwlwm yn genedlaethol ac yn lleol[99]. Felly, caiff cyfrifoldeb dros gymorth ei ledaenu ar draws ystod o gyrff cenedlaethol a lleol, dan arweiniad y Gyfarwyddiaeth Addysg, fel arfer. O ystyried goblygiadau maint a chwmpas y diwygiadau presennol i ysgolion, mae angen i'r holl sefydliadau hynny sy'n ymwneud ag ysgolion sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn mewn cynorthwyo'r broses ddiwygio. Mae'r estyniadau i rôl Estyn a argymhellir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r rheidrwydd hwn yn rhannol.

[99] Amsugnwyd ACCAC: Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu i Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn 2006.

Byddai datblygu fframwaith arfarnu ac asesu, ynghyd â chynigion yr Adolygiad hwn, pe byddant yn cael eu derbyn, yn arwain at oblygiadau ehangach ar gyfer y dirwedd atebolrwydd a chymorth. Byddai goblygiadau penodol i'r consortia rhanbarthol. Mae'r system gategoreiddio bresennol â chodau lliw wedi dod i'w hystyried yn rhan annatod o ddiwylliant sydd â llawer yn y fantol. Cyfeiriwyd yn gyson yn y dystiolaeth i'r Adolygiad at y ffyrdd yr oedd categoreiddio yn effeithio ar ymddygiad mewn ysgolion. Roedd hefyd yn ymddangos bod gorchmynion y codau lliw yn rheoli gwaith ymgynghorwyr her, ac yn lleihau eu cyfraniad posibl at gynorthwyo gwelliant. Yn yr un modd â graddau arolygu, mae angen adolygu priodoldeb y codau hyn. Nid oes angen i'r dull brysbennu o bennu lefelau cymorth gael ei adlewyrchu mewn system godio o'r natur hon.

Pe byddai Estyn yn symud i ddull wedi'i seilio ar hunanarfarnu wedi'i ddilysu, yna byddai angen cydweithio'n agosach â chonsortia. Mae'r potensial yn bodoli i greu fframwaith llawer mwy cydlynol o gymorth a her a fyddai'n osgoi rhai o effeithiau negyddol y diwylliant presennol sydd â llawer yn y fantol.

### Staffio yn y dyfodol

Mae angen i arolygwyr fod â lefelau uchel o arbenigedd proffesiynol, awdurdod personol a hygrededd, yn ogystal â'r statws sy'n deillio o gael eu penodi'n AEM. Rhaid iddynt gyfuno medrau rhyngbersonol hynod effeithiol â medrau arfarnydd, a'r ddealltwriaeth ddofn angenrheidiol o'r hyn i chwilio amdano mewn cyd-destunau dysgu o ansawdd uchel. Yn niffyg arbenigedd tebyg, mae perygl gwirioneddol y bydd eu barnau'n arwynebol ac yn gyfeiliornus hyd yn oed. Mae sicrwydd ffug yn waeth na dim sicrwydd.

O ystyried y gwahaniaethau rhwng cyflogau, mae'n anodd i Estyn recriwtio'r staff uwch o ysgolion uwchradd i'w weithlu parhaol. Mae modelau staffio presennol yn caniatáu cymysgedd defnyddiol o AEM parhaol ag ymarferwyr sy'n cynorthwyo arolygiadau fel arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr ychwanegol neu enwebeion ysgolion. Mae arolygwyr cymheiriaid, yn benodol, nid yn unig yn gwella'r arbenigedd ar dimau arolygu, ond cânt eu gwella'n broffesiynol eu hunain trwy gymryd rhan yn y broses. O ystyried y ffocws ar y cwricwlwm a dysgu ac addysgu yn y cyd-destun arfaethedig newydd, dylid ehangu ystod arbenigedd y garfan arolygwyr cymheiriaid i gynnwys y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o ddiwygio'r cwricwlwm ac addysgeg ar lefel yr ystafell ddosbarth.

Mae Estyn wedi parhau i gynnwys arolygwyr lleyg mewn timau arolygu. Mae arolygwyr lleyg yn aelodau o'r cyhoedd sydd, ar ôl ymarfer recriwtio agored, yn cael eu hyfforddi gan Estyn i gymryd rhan mewn arolygiad ysgol. Eu bwriad yw darparu asesiad gwrthrychol a diduedd o'r ddarpariaeth addysg. O ystyried datblygiad ysgolion yn sefydliadau dysgu, efallai y byddai'n well ymgorffori'r ymglymiad lleyg hwn yn rhan o hunanarfarniad ysgol yn hytrach na thrwy dimau arolygu.

Mae rhai cymhlethdodau o ran staffio Estyn yn deillio o fodelau arolygu blaenorol hefyd, sy'n parhau ar waith mewn statud. Wrth fynd i'r afael ag unrhyw oblygiadau deddfwriaethol sy'n deillio o'r Adolygiad hwn, byddai'n ddefnyddiol ailedrych ar unrhyw anghysondebau tebyg a'u dileu.

### Arolygu adrannau chweched dosbarth

Roedd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'i darpariaeth addysg ôl-orfodol ar yr un pryd â'r Adolygiad hwn. Er bod cylch gorchwyl yr Adolygiad hwn yn ymwneud ag addysg ysgol, rwyf wedi cadw mewn cof y gallai fod goblygiadau ehangach ar gyfer y sector ôl-orfodol hefyd.

Caiff manteision synergedd ar draws meysydd cyfrifoldeb Estyn eu trafod uchod. Yn benodol, gall arolygwyr ddatblygu safbwyntiau ehangach trwy weithio ar draws sectorau sy'n ymestyn eu harbenigedd. Yn yr un modd, mae'r sefydliad yn ennill manteision o ran adnoddau o'r gallu i ddefnyddio staff yn hyblyg ar draws sectorau.

Mae adrannau chweched dosbarth yn rhan bwysig o'r gymuned ysgol gyffredinol. Dylai arolygiadau Estyn o adrannau chweched dosbarth ganolbwyntio'n glir ar baratoi ar gyfer cymwysterau, ond mae nodweddion pwysig eraill o ddarpariaeth y dylid eu cynnwys yn ei arfarniadau. Nid yw pedwar diben Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r gorau i fod yn berthnasol yn un-ar-bymtheg oed, ac mae Estyn mewn sefyllfa dda i arfarnu sut mae ysgolion yn ategu eu gwireddiad ar gyfer pob unigolyn ifanc. Mae ei gyrhaeddiad ar draws addysg hefyd yn ei ganiatáu i ddadansoddi ac adrodd ar faterion pontio ehangach i bobl ifanc.

Dylai arolygu a disgwyliadau atebolrwydd eraill sicrhau y caiff adrannau chweched dosbarth eu hystyried yn rhan annatod o'r gymuned ysgol, ac nad ydynt yn destun disgwyliadau a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.

### Arolygiadau o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

Yn ogystal ag arolygiadau ysgolion, mae Estyn hefyd yn cynnal arolygiadau o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Yn y cylch arolygu chwe blynedd o 2010, cafodd pob awdurdod lleol arolygiad craidd yn ystod tair blynedd cyntaf y cylch chwe blynedd. Roedd angen gweithgarwch dilynol ar lawer o awdurdodau lleol ar ôl yr arolygiad cychwynnol.

Mae dibenion arolygiadau o awdurdodau lleol[100] fel a ganlyn:

- darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill trwy ein hadroddiadau cyhoeddus ar ddarparwyr
- hybu gwelliant mewn addysg a hyfforddiant
- llywio'r gwaith o ddatblygu polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru

Bu canlyniadau arolygiadau o awdurdodau lleol yn peri pryder.

> *'At ei gilydd, roedd y deilliannau arolygu ar gyfer awdurdodau lleol yn ystod y cylch arolygu yn wan. Roedd angen gweithgarwch dilynol ar 15 o'r 22 awdurdod lleol o ganlyniad i'r arolygiadau hyn. O'r rhain, roedd angen mesurau arbennig ar chwech ohonynt, sef y lefel gweithgarwch dilynol ddwysaf, ac roedd angen gwelliant sylweddol ar ddau arall ohonynt.*

[100] Estyn (2010) *Arweiniad ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc* o Fedi 2010

> *Cwblhawyd y gweithgarwch dilynol yn 2016. Diffyg cyffredin ym mron pob un o'r awdurdodau lleol yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt oedd y diffyg gallu arweinyddol i sicrhau gwelliannau.'* [101]

Mae Estyn hefyd wedi cynnal dau gylch arolygu o'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Mae Adroddiad PAEM 2018 yn cyflwyno darlun calonogol o'u cynnydd.

> *'Ar ôl dechrau eithaf ansicr pan roedd dyfodol hirdymor y consortia yn aneglur, mae'r consortia rhanbarthol wedi dod yn nodwedd fwy sefydlog o'r system addysg yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio mwy o gyfrifoldebau ac adnoddau tuag at y consortia rhanbarthol ac, ar adegau, mae'r consortia wedi cael trafferth cyflawni ym mhob un o'r meysydd newydd hyn. Un enghraifft yw'r cymorth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, sef llinyn ychwanegol i waith y consortia.'* [102]

Bydd y bwriadau polisi sy'n gysylltiedig â symudiadau tuag at system addysg hunanwella a dysgu yn dibynnu'n fawr ar berfformiad haen ganol y llywodraeth a'r gwerth y mae'n ei ychwanegu i berfformiad ysgolion. Yn y cyd-destun hwnnw, dylai arolygiadau Estyn o'r haen hon barhau â ffocws ar ei chyfraniad at wireddu'r diwygiadau a dull sy'n adlewyrchu'r angen i hunanarfarnu fod yn gymwys ar bob lefel o'r system.

### Hunanarfarnu Estyn ei hun

Mae Estyn yn gadarn ac yn dryloyw yn ei hunanarfarnu ei hun. Mae ganddo sawl ffordd y mae'n arfarnu ei weithrediadau a'i effaith ei hun.

Mae gweithdrefnau systematig ar waith i arfarnu arolygiad a'r adroddiad cyn ei gyhoeddi. Caiff proses benodol ei defnyddio'n fewnol i herio canfyddiadau a barnau, gwirio y dilynwyd arweiniad, sicrhau bod y dystiolaeth yn ategu'r arfarniadau a gwirio cysondeb mewnol yr adroddiad. Caiff gwybodaeth o ymweliadau sicrhau ansawdd â sampl o ysgolion ar ôl arolygiad, a holiaduron sy'n cael eu dosbarthu ar ôl cyhoeddi adroddiad arolygu, ei defnyddio i lywio newidiadau i arweiniad arolygu, anghenion hyfforddiant ac, i Arolygwyr Cofrestredig, dyfarnu contractau.

Mae rheolwyr canol ac AEM dynodedig sectorau yn olrhain data arolygu ar draws eu sectorau, ac mae rheolwyr yn derbyn adroddiadau o'r gwaith rheolaidd o goladu materion sy'n deillio o'r broses o sicrhau ansawdd arolygiadau. Caiff materion sy'n codi yn ymwneud, er enghraifft, ag anghysondebau o ran dulliau neu farnau ar draws arolygiadau gwahanol eu cyfeirio at dimau sector, y disgwylir iddynt wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Mae panel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sector yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi materion sy'n peri pryder, ac i gytuno at newidiadau i arweiniad ac arfer arolygu, lle bo hynny'n briodol. Yn ogystal â newidiadau blynyddol, cynhelir adolygiad mwy cynhwysfawr o'r broses arolygu tua diwedd cylch arolygu, cyn llunio fframwaith arall neu arweiniad newydd. Caiff arweiniad ei wirio'n flynyddol hefyd yn erbyn newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi ac arfer addysg.

---

[101] Estyn (2018) *Adroddiad Blynyddol PAEM 2016-2017* tudalen 140
[102] ibid, tudalen 142

Caiff hunanarfarnu ar raddfa fwy ar draws y sefydliad cyfan ei gynnal yn bennaf mewn dogfennaeth sy'n cael ei pharatoi bob tair blynedd ar gyfer ymweliadau gan Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP). Gall cyfnewidiadau cyson ag arolygiaethau eraill, gan gynnwys fel rhan o ddigwyddiadau SICI, arwain at fireinio arfer Estyn.

Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol hefyd yn ystyried deilliannau cwynion yn ffocws ar gyfer gwella. Caiff unrhyw faterion perthnasol sy'n codi o'r sylfaen wybodaeth eang hon eu defnyddio wrth reoli perfformiad hefyd.

Mae Estyn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid cynrychiolwyr, lle maent yn trafod adborth ar arferion a newidiadau posibl i arolygu. Yn y gorffennol, mae Estyn hefyd wedi comisiynu adolygiadau allanol o farnau rhanddeiliaid cyn cynllunio trefniadau arolygu newydd mewn cylch newydd.

Mae sylw Estyn i arfarnu ei arfer a'i berfformiad ei hun yn drawiadol. Datblygiad pellach i'w ddull fyddai gofyn i sefydliad allanol ddosbarthu a dadansoddi ei holiaduron. Byddai'r elfen ychwanegol honno o dryloywder yn sicrhau hyder yn nidwylledd yr ymatebion i'r holiaduron.



## 8 Casgliadau

Mae Cymru wedi dechrau trawsnewidiad radical mewn addysg ysgolion. Mae ysgolion wrth wraidd datblygu cwricwlwm newydd, sydd wedi'i lunio i fynd i'r afael â phedwar diben eang, a byddant yn parhau wrth wraidd y datblygiad hwnnw. Mae'r dibenion hyn yn arwydd o'r ffyrdd y gellir paratoi pobl ifanc yng Nghymru orau ar gyfer dyfodol. Bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn dibynnu ar gyflawni diwylliant o gydweithio ac ymddiriedaeth, ochr yn ochr â ffocws cryfach ar ddysgu proffesiynol a sefydliadol, a dull mwy adeiladol o ran sut mae ysgolion yn atebol, gan gynnwys arolygu. **Gyda'i gilydd, mae i'r datblygiadau hyn oblygiadau mawr ar gyfer systemau atebolrwydd a rôl Estyn ac arolygu ysgolion.**

Mae Estyn yn mwynhau lefel uchel o hygrededd ar gyfer ei annibyniaeth a'i broffesiynoldeb. Roedd tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad yn atgyfnerthu ei bwysigrwydd parhaus o ran gwella ansawdd addysg yng Nghymru. Gwerthfawrogwyd ei rôl annibynnol o ran monitro perfformiad, pennu disgwyliadau uchel, a nodi a rhannu arfer orau yn fawr. Mae Estyn wedi profi ei fod yn sefydliad effeithlon, hyblyg ac arloesol, gan arwain y ffordd yn rhyngwladol mewn rhai agweddau ar arolygu. Dywedwyd bod cyfranogiad arolygwyr cymheiriaid ac enwebeion o'r ysgol mewn arolygiadau yn nhystiolaeth yr Adolygiad yn gryfderau gwirioneddol yn ei ddull presennol. **Mae'r cryfderau pwysig hyn yn ei waith presennol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer newidiadau angenrheidiol i'w rôl a'i arferion yn y dyfodol.**

Bydd cwmpas y rhaglen diwygio addysg yn gosod galwadau ychwanegol sylweddol ar bob lefel o'r system hyd y gellir rhagweld. Yn wahanol i wledydd eraill y DU, fel Yr Alban ac Iwerddon, er 2006, nid oes gan Gymru gorff cenedlaethol mwyach i gynorthwyo datblygu'r cwricwlwm yn genedlaethol ac mewn ysgolion. Felly, mae angen i'r holl sefydliadau hynny sy'n ymwneud ag ysgolion sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn mewn cynorthwyo'r broses ddiwygio. **Felly, bydd yn hanfodol bod cyrff cenedlaethol a lleol perthnasol, gan gynnwys Estyn, yn darparu cymorth allanol tebyg pa le bynnag y gallant.**

Prawf eithaf y diwygiadau fydd i ba raddau y bydd y safonau a gyflawnir gan bobl ifanc o ran pedwar diben y cwricwlwm, ac ansawdd eu dysgu, yn gwella. I fesur llwyddiant, bydd angen bod yn hollol glir ynghylch beth yw ystyr 'safonau' cyflawniad. Ni fydd diffiniad cul o ran mesur llythrennedd, rhifedd a nifer y cymwysterau yn adlewyrchu goblygiadau llawn pedwar diben y cwricwlwm ar gyfer dysgu a lles pobl ifanc. Ar y llaw arall, ni fyddai honiadau amwys ynghylch cynnydd o ran y dibenion yn caniatáu trylwyredd angenrheidiol wrth arfarnu effaith y diwygiadau. **Felly, bydd datblygu fframwaith arfarnu ac asesu cenedlaethol yn mynnu cytundeb a chyd-ddealltwriaeth o sut olwg fydd ar ddiwygio llwyddiannus o ran safonau, mesurau dilys a dangosyddion.**

Mae Estyn wedi cyfrannu'n uniongyrchol ac yn adeiladol at y rhaglen ddiwygio bresennol. Mae ei drefniadau arolygu newydd yn dangos model arolygu mwy ymatebol. Ymhlith gwelliannau eraill, mae arolygwyr yn rhoi mwy o sylw i addysgu a

dysgu, ac ymatebolrwydd ysgolion i arloesedd. Y bwriad yw helpu ysgolion i ystyried arolygu nid yn unig yn agwedd ar atebolrwydd, ond hefyd fel profiad dysgu. **Mae'r trefniadau arolygu presennol yn cynrychioli cam pwysig tuag at ail-ddehongli arolygu yn y system addysg ddiwygiedig.**

Amlygodd yr Adolygiad nifer o faterion penodol yn ymwneud â'r dull o arolygu ysgolion yng Nghymru. Roedd y cylch arolygu saith blynedd, anghysondeb tybiedig mewn barnau arolygwyr a chyfyngiadau yn deillio o'r cyfnod arolygu byr yn themâu a ddaeth i'r amlwg o'r dystiolaeth. **Er nad oedd y pryderon penodol hyn yn rhai cyffredinol ar unrhyw gyfrif, serch hynny dylai unrhyw drefniadau arolygu newydd geisio lliniaru eu heffeithiau.**

Roedd meysydd a oedd yn peri pryder ynghylch Estyn a fynegwyd yn ystod yr Adolygiad yn aml yn ymwneud yn fwy â materion yn gysylltiedig â'r cyd-destun a'r diwylliant ehangach o atebolrwydd. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi cyflwyno nifer o fesurau a luniwyd i sbarduno gwelliant mewn ysgolion. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys cyflwyno a chyhoeddi canlyniadau profion, categoreiddio ysgolion yn ôl codau lliw, a thargedau yn ymwneud â chymwysterau cenedlaethol. **Gall y dull hwn, sy'n rhoi 'llawer yn y fantol', fynd i'r afael â diffygion penodol, ond gall hefyd gyfyngu ar ddatblygu ac nid yw'n cydweddu'n dda â'r math o system hunanwella, greadigol sy'n cael ei hyrwyddo yn y diwygiadau presennol.**

Mae arolygu wedi dod yn elfen bwysig yn y diwylliant hwn sydd 'â llawer yn y fantol'. Mae pryderon, wedi'u hategu gan dystiolaeth ymchwil, yn y cyfryw ddiwylliant, y gall arolygu lesteirio gwella ac arloesi os bydd ysgolion yn ceisio 'dyfalu' beth hoffai arolygwyr ei weld. **Mae adroddiadau arolygu wedi'u graddio a chategorïau gweithgarwch dilynol yn atgyfnerthu cysylltiad arolygu â dull o wella sydd wedi'i sbarduno'n allanol, a gall ystumio arferion rhai ysgolion, er anfantais i'w disgyblion.**

Mae dyhead Llywodraeth Cymru i fod â system sy'n hunanwella â diwylliant dysgu yn golygu llai o gyfarwyddyd o'r 'canol' a mwy o ryddid a chyfrifoldeb i ysgolion ac ymarferwyr. Bydd cydweithio mewn, rhwng a'r tu hwnt i ysgolion wrth wraidd y ffyrdd newydd o weithio. **Bydd angen i arfarnu allanol, yn enwedig arolygu, arfarnu cynnydd y diwygiadau a hefyd, yn bwysig, ategu'r nodweddion hanfodol hyn o'r system ddiwygiedig.**

Gall arolygu ddarparu sicrwydd a chynorthwyo gwelliant os yw'n rhan o ddiwylliant dysgu ehangach. Nid yw systemau addysg dynamig yn cael eu sbarduno'n gyfan gwbl neu hyd yn oed yn bennaf gan rymoedd atebolrwydd allanol. Os yw gwelliant am dreiddio trwy orfodaeth allanol dybiedig, rhaid i ysgolion ac athrawon eu hunain gymryd mwy o reolaeth a chyfrifoldeb dros y broses. **Nid yw sicrwydd a gwelliant yn ddewisiadau amgen ond yn rhannau hanfodol a chyflenwol o system addysg ddynamig.**

Bydd hunanarfarnu'n chwarae rhan bwysig mewn ffurfio natur y diwygiadau fesul ysgol; mewn nodi pa mor dda y mae'r newidiadau'n mynd rhagddynt; ac mewn darparu tystiolaeth i fagu hyder y cyhoedd. Bydd yn bwysig sicrhau nad yw hunanarfarnu'n cael ei ystyried yn estyniad o atebolrwydd yn unig, ond yn anhepgor i

ysgolion fel sefydliadau dysgu. Dylai hunanarfarnu fod yn flaengar, a defnyddio cymysgedd o dystiolaeth feintiol ac ansoddol i nodi a deall cryfderau presennol a blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Dylai datblygiadau cenedlaethol mewn hunanarfarnu, dan arweiniad OECD ac Estyn, ganiatáu i ddull hunanarfarnu dyfnach a mwy cyson gael ei sefydlu. **Rhaid i hunanarfarnu beidio â dod yn fformiwläig neu'n feichus, a dylai gydweddu'n naturiol â'r ffyrdd y mae ysgolion yn dysgu ac yn gwella.**

Mae canfyddiadau Estyn ar arweinyddiaeth ysgolion a'u gallu i wella, a chyfran uchel yr ysgolion mewn prosesau gweithgarwch dilynol, yn peri pryder mewn perthynas â'r agenda feichus y mae ysgolion yn ei hwynebu. **Ar hyn o bryd, mae llawer o ysgolion, yn enwedig yn y sector uwchradd, gryn ffordd o allu ymgysylltu â'r math hwn o hunanarfarnu a dod yn sefydliadau dysgu.**

Dylai arfarnu allanol ddarparu safbwynt gwahanol a mwy gwrthrychol ar waith ysgolion a'i effaith ar ddysgu. Gall arfarnu allanol ddod o adolygwyr cymheiriaid sy'n gydweithwyr proffesiynol yn gweithredu'n gyfeillion beirniadol i ysgol neu glwstwr o ysgolion. Mae 'ymgynghorwyr her' consortia eisoes yn cyflawni'r rôl hon, a dylid gwella rhagor ar eu cyfraniad at gynorthwyo ysgolion yn y cyd-destun newydd. Gall Estyn chwarae rhannau mwy a llai ffurfiol fel arfarnwyr allanol. Yn ogystal ag arfarnu ac adrodd ffurfiol, gallai arolygwyr weithredu'n fwy lleol hefyd, gan alluogi cysylltiad mwy rheolaidd ag ysgolion. **Rhesymeg y polisi hunanwella a dysgu yng Nghymru yw datblygu dulliau hunanarfarnu cydweithrediadol sy'n cynnwys adolygwyr cymheiriaid hyfforddedig, staff consortia ac arolygwyr.**

Caiff llwyddiant y rhaglen diwygio addysg ei ddylanwadu'n gryf gan allu Estyn i ddefnyddio arolygu i hybu newidiadau mewn arfer ac ymddygiad. Mae ysgolion yn nodi'n ofalus yr hyn y maent yn ei amgyffred yn flaenoriaethau arolygwyr. Yn benodol, mae angen i arolygu arfarnu'r ffyrdd y mae dibenion y cwricwlwm newydd yn newid arfer mewn ysgolion, codi safonau ar draws pedwar diben y cwricwlwm, gwella ansawdd y profiad dysgu i bob plentyn ac unigolyn ifanc ym mhob sector ac yn mynd i'r afael ag iechyd a lles plant. Bydd effaith strwythurau'r cwricwlwm newydd, newidiadau mewn asesu, ac addysgu a dysgu wedi'u sbarduno gan ddibenion, yn creu heriau i ysgolion ac arolygwyr, fel ei gilydd. **Bydd angen i newidiadau i arolygu arfarnu'r newidiadau hyn a rhai eraill, a rhoi sicrwydd ynghylch safonau ac ansawdd profiad dysgu pob disgybl.**

Mae hanes sefydledig Estyn o ddiwygio, fel y dangosir gan ei drefniadau arolygu newydd, yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer newidiadau angenrheidiol, pellach i arolygu ysgolion. Yn y pen draw, sefydlu dull atebolrwydd wedi'i seilio ar hunanarfarnu cadarn wedi'i ddilysu ddylai'r nod fod. Dylai sicrwydd ynghylch pa mor dda mae ysgolion unigol yn gwasanaethu eu hysgolion barhau'n ganolog i genhadaeth Estyn, ond byddai rhai o'r effeithiau anfwriadol sy'n gysylltiedig â'r dull presennol yn cael eu hosgoi yn y newidiadau i arolygu a gynigir yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal, dylid gwella rôl adeiladol arolygwyr o ran meithrin gallu a chynorthwyo diwygio. **Dylai arolygu gynyddu hyder y cyhoedd bod ysgolion, a'r system addysg yn fwy cyffredinol, yn perfformio'n dda ac wedi ymrwymo i'w gwelliant eu hunain.**

Mae angen i symudiadau tuag at hunanarfarnu wedi'i ddilysu, a gynigir yn yr adroddiad hwn, ystyried hyder a chymhwysedd ysgolion mewn hunanarfarnu, yn ogystal â'r gorchmynion ar y system sy'n deillio o'r rhaglen ddiwygio ei hun. Felly, dylid eu cyflwyno dros gyfnod sy'n gyson â chynnydd y rhaglen ddiwygio ehangach. **Y nod fyddai cael gwared ar rai o effeithiau negyddol anfwriadol arolygu ac adrodd 'sydd â llawer yn y fantol', gan gynnal lefel y sicrwydd cadarn sydd ei angen ar gyfer hyder y cyhoedd.**

Dylai'r cyfnod cyntaf gynnwys ailgyfeirio arolygu cylchol tuag at gymorth uniongyrchol i'r rhaglen ddiwygio. Nid oes yr un crynhoad o arbenigedd proffesiynol a gynrychiolir gan staff Estyn mewn unman arall yn y system addysg yng Nghymru. Dylid atal y cylch arolygu ac adrodd dros dro er mwyn caniatáu i arolygwyr ymgysylltu ag ysgolion, yn unigol ac mewn clystyrau, heb y gofyniad i lunio adroddiadau cyhoeddus wedi'u graddio. Prif ddiben ymgysylltu fyddai meithrin gallu ar gyfer y newidiadau i'r cwricwlwm, dysgu ac asesu fesul ysgol. Byddai manteision i ysgolion ac arolygwyr fel ei gilydd. I ysgolion, byddai'n cael gwared ar unrhyw beth a fyddai'n tynnu eu sylw oddi wrth y daith ddiwygio sy'n deillio o arolygu. Gallant hefyd elwa ar gymorth arolygwyr yn ystod y cyfnod hwn. I arolygwyr, byddai'n caniatáu cyfnod i ddatblygu eu harbenigedd o'r cwricwlwm ymhellach yn deillio o'r diwygiadau, ac yn eu caniatáu i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r broses ddiwygio, yn genedlaethol ac yn lleol. **Felly, byddai ailgyfeirio adnoddau grymus Estyn dros dro yn caniatáu i ysgolion ac arolygwyr ganolbwyntio ar ddiwygio.**

Byddai'r ail gyfnod interim yn ailgyflwyno arolygiadau a fyddai'n cadw llawer o nodweddion trefniadau arolygu newydd Estyn. Byddai amseriad cyflwyno'r cyfnod hwn yn cael ei benderfynu ar sail tystiolaeth o gynnydd y diwygiadau yn ystod cyfnod 1. Byddai rhai gwahaniaethau sylweddol o gymharu â'r model arolygu presennol: byddai ffocws arolygiadau yn cael ei deilwra i ateb cwestiynau allweddol ynghylch cynnydd yr ysgol mewn perthynas â'r diwygiadau a'r effaith ar brofiadau a deilliannau plant; ni fyddai'r arfarniadau ar ffurf graddau pennawd bellach, ond yn cael eu disgrifio'n glir yn y testun. Hefyd, byddai rôl gryfach i hunanarfarniad ysgolion o ran llunio barnau, yn unol â'r arweiniad sy'n deillio o'r gwaith ar y cyd ar hunanarfarnu yn cynnwys OECD ac Estyn. **Byddai'r cyfnod hwn yn dechrau'r symudiad tuag at hunanarfarnu wedi'i ddilysu, gan gynnal rôl hanfodol Estyn o ran rhoi sicrwydd.**

Dylai'r trydydd cyfnod, sef y cyfnod olaf, fod yn seiliedig ar fodel hunanarfarnu wedi'i ddilysu, sy'n gyson â'r dyhead polisi i symud tuag at system hunanwella. Wrth i ysgolion aeddfedu yn eu gallu i ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol â hunanarfarnu, dylai rôl unigolion a chyrff allanol fod i ddarparu safbwyntiau sy'n procio ac ymestyn barnau mewnol. Gallai ysgolion sydd â gallu profedig i gynnal hunanarfarniad a gweithredu arno symud tuag at fodel arolygu sy'n dilysu ar sail 'ymreolaeth haeddiannol'. Byddai Estyn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyfryw ysgolion ar gylch cytûn er mwyn adrodd yn gyhoeddus ar ei hyder yn y broses hunanarfarnu a chyfanrwydd adroddiadau gan ysgolion. Byddai'r hyder hwnnw yn cael ei fynegi trwy Estyn yn dilysu (neu beidio) prosesau a chanfyddiadau'r ysgol, a fyddai'n cael ei ddisgrifio trwy naratif byr, o bosibl, yn mynegi i ba raddau y mae gan arolygwyr hyder yn y broses. Er y gallai hyn ymddangos yn radical o ran dulliau arolygu diweddar yn y Deyrnas Unedig, mae gan ddull tebyg elfennau sy'n gyffredin ag agweddau ar arfer arolygu yn rhyngwladol. **Byddai symud tuag at fodel atebolrwydd o**

**hunanarfarnu wedi'i ddilysu yn adlewyrchu'r dyhead ehangach i greu system hunanwella wedi'i seilio ar ddysgu proffesiynol a sefydliadol.**

Wrth symud tuag at y model 3-chyfnod arfaethedig, byddai nifer o nodweddion o waith presennol Estyn yn bwysig o hyd. Dylai ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt, neu sydd yn y categori mesurau arbennig, barhau i fod yn destun sylw penodol, er y bydd angen adolygu natur y sylw hwnnw. Bu monitro gan Estyn eisoes yn destun rhai addasiadau, a dylid penderfynu ar ei oblygiadau parhaus i ysgolion unigol yn hyblyg fesul achos. Yn ogystal, byddai ysgolion y nodir eu bod yn peri pryder yn ystod unrhyw un o'r cyfnodau yn cael arolygiad wedi'i lunio i ddarganfod y materion sy'n peri pryder a helpu i fynd i'r afael â nhw. **Ni ddylai symud tuag at ddull newydd o arolygu ysgolion dynnu oddi wrth y ffocws presennol ar yr ysgolion hynny sy'n peri pryder difrifol. Byddai arolygiadau diagnostig o'r cyfryw ysgolion yn darparu sail fwy fforensig ar gyfer gwella.**

Yn gyffredinol, cydnabuwyd bod rhaglen gweithgarwch dilynol helaeth Estyn yn elfen angenrheidiol o'r broses sicrwydd a gwella. Mae'r gweithdrefnau presennol ar gyfer ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt, neu sydd yn y categori mesurau arbennig, yn dilyn canllawiau tynn. **Er bod angen gweithgarwch dilynol cadarn mewn achosion o danberfformio difrifol o hyd, dylid adolygu'r broses er mwyn caniatáu diagnosis gwell o broblemau a mwy o hyblygrwydd o ran darparu cymorth a her. Yn benodol, dylai'r broses ystyried y disgwyliadau ychwanegol ar gyfer newid y bydd diwygio'r cwricwlwm yn eu rhoi ar yr ysgol.**

Dylai gwaith thematig ac arfer dda Estyn barhau neu gael ei gryfhau. Gwerthfawrogwyd yr agwedd hon ar waith Estyn yn fawr yn y dystiolaeth i'r Adolygiad, a dylai gyfrannu'n sylweddol at ddysgu cyfunol am ddiwygio a'i oblygiadau. **Wrth i'r diwygiadau ymffurfio, bydd yn bwysicach fyth sefydlu darlun cenedlaethol o gynnydd, ynghyd â chyngor penodol ac enghreifftiau o arfer ddiddorol.**

**Dylai Estyn wneud cyfraniad cryfach i arfarnu ar lefel systemau.** Mae adroddiadau blynyddol PAEM eisoes yn rhoi gwybod i ystod eang o randdeiliaid am berfformiad addysg yng Nghymru, fel y'i gwelir gan arolygwyr. Mae Estyn ei hun yn ystyried dull mwy ffocysedig ar gyfer adroddiadau blynyddol PAEM, a byddai eu cyfraniad at bolisi ac arfer yn cael ei wella pe byddai corff ehangach o dystiolaeth. Gallai adroddiad 'cyflwr y wlad' ddarparu sail dystiolaeth well pe byddai'n cynnwys dadansoddiad mwy datblygedig o ganfyddiadau ymchwil perthnasol, canlyniadau arolygon a'r dystiolaeth ddiweddaraf o brofiad rhyngwladol, gan gynnwys PISA. **Dylai adrodd ar lefel systemau gan Estyn ganolbwyntio mwy ar faterion polisi ac arfer cyfredol allweddol. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, er enghraifft, gallai adroddiadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gynnydd mewn perthynas â'r diwygiadau wneud cyfraniad pwysig i'w llwyddiant a llywio'r broses ddiwygio.**

Mae Estyn yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda, ac mae ei ddiwylliant a'i strwythur mewnol yn drawiadol. Mae ei staff yn uniaethu'n gryf â gwerthoedd y sefydliad, ac mae ei weithrediadau a'i berfformiad yn ganmoladwy o dryloyw. **Byddai gweithdrefnau hunanarfarnu Estyn, sydd eisoes yn helaeth, yn cael eu cryfhau ymhellach pe byddai ei holiaduron sicrhau ansawdd yn cael eu gweinyddu a'u dadansoddi'n allanol.**

Rhoddwyd gwerth mawr ar annibyniaeth Estyn yn y dystiolaeth i’r Adolygiad. Fodd bynnag, mae ei statws fel adran anweinidogol yn gadael rhywfaint o amwysedd ynghylch ei gysylltiad â gweinidogion. Dylai llunio polisïau wedi’u llywio gan dystiolaeth yn y llywodraeth olygu bod gan y cyfoeth o dystiolaeth a chyngor a ddaw gan Estyn le sicr a gwerthfawr yn y broses polisi. Roedd yn amlwg i’r Adolygiad, er bod y gweithdrefnau a’r perthnasoedd presennol yn gadarnhaol, nad oes angen i hynny fod yn wir bob tro. Gall penderfyniadau polisi yn ymwneud â meysydd nad ydynt yn amlwg yn berthnasol i’w waith gael effaith anfwriadol ar gyllid Estyn. Byddai sail fwy sicr a thargedig ar gyfer cyllid yn hwyluso cynllunio tymor hwy angenrheidiol. **Felly, mae achos cryf dros sefydlu Cytundeb Fframwaith sy’n pennu’r sail ar gyfer sicrhau’r cyfryw gyngor proffesiynol annibynnol a’r goblygiadau ariannu cysylltiedig.**

Bydd newidiadau i rôl Estyn ac arolygu ysgolion yn mynnu adolygiad o’r goblygiadau ehangach ar gyfer agweddau eraill ar atebolrwydd yn y system. Nid lle’r Adolygiad hwn yw argymell newidiadau amodol penodol, ond mae’r goblygiadau ar gyfer categoreiddio a rhai mesurau perfformiad cenedlaethol yn glir. **Mae’n hanfodol y dylai’r dirwedd atebolrwydd sy’n cael ei gipio yn y fframwaith arfarnu ac asesu cenedlaethol arfaethedig alinio dibenion, cyfrifoldebau a gweithdrefnau ar draws cyrff cenedlaethol a lleol. Dylai’r fframwaith ddarparu sicrwydd angenrheidiol ond gan osgoi’r canlyniadau anfwriadol negyddol a all gyd-fynd â mesuriadau sy’n rhoi llawer yn y fantol.**

# 9 Argymhellion

## Cyffredinol

1 Dylai Estyn barhau i ddarparu sicrwydd annibynnol ynghylch y safonau a'r ansawdd sy'n cael eu cyflawni gan y system ysgolion yng Nghymru.

Yng ngoleuni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cwricwlwm newydd a system ysgolion sy'n hunanwella:

- Dylid gwella cyfraniad Estyn i gynorthwyo gwelliant a meithrin gallu
- Dylid addasu system arolygu ysgolion Estyn gam-wrth-gam, yn unol â'r diwygiadau ehangach, i un sydd wedi'i gyfeirio tuag at ddilysu hunanarfarniadau ysgolion, yn y pen draw

2 Dylai fframwaith arfarnu ac asesu cenedlaethol arfaethedig Llywodraeth Cymru ddiffinio'n glir y safonau a'r deilliannau a ddisgwylir o'r diwygiadau, ynghyd â mesurau a dangosyddion meintiol ac ansoddol perthnasol.

3 Dylid disdoli'r agweddau ' â llawer yn y fantol' ar y trefniadau atebolrwydd presennol sy'n debygol o danseilio nodau'r llywodraeth ar gyfer diwylliant o hunanwella a dysgu, gan ddulliau eraill, gan barhau i sicrhau trylwyredd.

4 Er mwyn cydnabod maint ac arwyddocâd y diwygiadau addysg, dylai'r holl gyrff cyhoeddus cenedlaethol a lleol perthnasol yng Nghymru roi blaenoriaeth i ddarparu cymorth priodol i ysgolion.

## Arolygu a hunanarfarnu ysgolion

5 Dylai diben strategol arolygu, hunanarfarnu (a dulliau atebolrwydd ehangach) ganolbwyntio ar ateb 4 prif gwestiwn:

a Pa mor dda y mae'r ysgol yn ymgysylltu â dibenion Cwricwlwm i Gymru?

b Pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu dysgu ac yn cyflawni safonau uchel priodol?

c Pa mor ddatblygedig y mae'r sylfeini hanfodol ar gyfer dysgu:

- ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm?
- ansawdd dysgu ac addysgu?
- lles pob disgybl?

ch Pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio hunanarfarnu a dysgu proffesiynol i nodi ei chryfderau presennol a phennu blaenoriaethau ar gyfer datblygu?

6 Dylai adroddiadau arolygu ddarparu naratif esboniadol cryfach ynghylch perfformiad yr ysgol o ran y pedwar cwestiwn hyn, gan ddefnyddio proses hunanarfarnu'r ysgol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

7 Dylai barnau arfarnol mewn adroddiadau arolygu ysgolion gael eu disgrifio'n glir ac yn gryno yng nghorff y testun, yn hytrach nag ar ffurf graddau pennawd.

8 Dylai Estyn barhau i wella cysondeb o ran sut y cynhelir arolygiadau o ysgolion a'r barnau a lunnir gan arolygwyr.

9 Dylai'r fenter genedlaethol ar hunanarfarnu ysgolion sy'n cael ei harwain gan Estyn ac OECD sefydlu egwyddorion cenedlaethol cytûn a fframwaith a fydd yn annog ysgolion i nodi a deall eu cryfderau eu hunain a'u blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Wrth adrodd ar ei chryfderau a'i blaenoriaethu ei hun, dylai ei phrif ddiben ymwneud â'i dysgu a'i gwelliant ei hun.

10 Wedi i ysgolion wneud cynnydd o ran meithrin eu gallu i hunanarfarnu, dylid diwygio'r cylch adroddiadau arolygu 7-mlynedd presennol fel y byddai Estyn yn ymgysylltu ag ysgolion yn ôl cylch diwygiedig er mwyn gallu dilysu prosesau a chanfyddiadau hunanarfarnu'r ysgol.

11 Dylai canfyddiadau arolygwyr o'r dilysiad ffurfiol o hunanarfarniadau ysgolion gael eu cyfleu trwy adroddiadau sy'n nodi hyder y tîm arolygu yn ansawdd hunanarfarnu ar gyfer gwella'r ysgol.

12 Dylai ysgolion y nodir bod angen gwelliant brys arnynt wrth ddilysu'r broses hunanarfarnu fod yn destun arolygiad diagnostig gyda bwriad i amlygu'r meysydd sy'n peri pryder yn yr ysgol, cyn gwneud penderfyniad ynghylch eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol.

13 Yng nghyd-destun gweithgarwch dilynol, dylai arolygiadau diagnostig fod yn ddigon hir a dwfn i greu darlun cynhwysfawr o gryfderau a gwendidau'r ysgol.

14 Dylid ymgorffori cynadleddau gwella, sy'n nodwedd o arolygiadau o awdurdodau lleol ar hyn o bryd, yn y broses gweithgarwch dilynol.

15 Dylid diwygio'r broses gweithgarwch dilynol er mwyn caniatáu mwy o atebolrwydd i gynnydd yr ysgol a rôl gryfach i gonsortia rhanbarthol.

16 Dylid sefydlu dull sy'n caniatáu i lywodraethwyr ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ofyn am arolygiad o ysgol.

17 Dylai Estyn oruchwylio hyfforddiant cronfa eang o adolygwyr cymheiriaid o fewn y fframwaith hunanarfarnu cenedlaethol.

18 Dylid tynnu arolygwyr cymheiriaid o'r gronfa adolygwyr cymheiriaid, a dylent gynnwys arbenigwyr mewn llunio'r cwricwlwm, disgyblaethau pwnc, a dysgu ac addysgu, yn ogystal ag uwch reolwyr.

19 Dylid ystyried terfynu ymgysylltiad presennol arolygwyr lleyg â thimau arolygu, a dylid cryfhau ymgysylltiad lleyg â hunanarfarnu ysgolion.

### Gweithgareddau ehangach Estyn

20 Dylai Estyn gynnal arolygiadau o grwpiau o ysgolion mewn ardaloedd a chanolbwyntio ar effeithiolrwydd cydweithio a phontio.

21 Dylai Estyn barhau i arolygu ac adrodd ar gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol, gan gynnwys eu rôl mewn cynorthwyo'r agenda ddiwygio.

22 Dylai Estyn sicrhau bod ei arolygiadau o adrannau chweched dosbarth yn canolbwyntio ar ddibenion y cwricwlwm, yn ogystal â chymwysterau cenedlaethol.

23 Dylid cryfhau rôl adroddiadau thematig Estyn er mwyn darparu tystiolaeth o arfer a chynnydd mewn meysydd sydd â blaenoriaeth. Dylai arolygiadau thematig barhau i gynnwys arolygwyr cymheiriaid sydd ag arbenigedd perthnasol.

24 Dylai penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer rhaglen thematig Estyn gynnwys dulliau sy'n cynnwys rhanddeiliaid yn y broses.

25 Yn ogystal â thystiolaeth o arolygiadau, dylai adroddiadau thematig ddadansoddi ac adrodd ar ymchwil a thystiolaeth ddilys arall i roi cyngor cynhwysfawr i lywio polisi ac arfer.

26 Dylai PAEM barhau i ddarparu adroddiadau blynyddol, ond dylid addasu natur yr adroddiadau. Dylai adroddiadau blynyddol ganolbwyntio mwy ar gynnydd o ran diwygio, a dylai fod adroddiad trosolwg 'Ansawdd Addysg yng Nghymru' mwy sylweddol bob tair blynedd. Dylai adroddiadau ddefnyddio ystod ehangach o dystiolaeth nag arolygu yn unig, gan gynnwys sylwebaeth ar PISA a'r rhaglen profion sampl genedlaethol.

27 Dylid parhau i gyflwyno holl adroddiadau PAEM ger bron Cynulliad Cymru.

28 Dylai Estyn a Llywodraeth Cymru gytuno ar gynllun pontio ar gyfer newid o ran trefniadau cymorth ac arolygu a ddylai gynnwys:

- trefniadau a fydd yn caniatáu i arolygwyr chwarae rhan ganolog mewn diwygio addysg yng Nghymru, o ran polisi a meithrin gallu mewn ysgolion ac awdurdodau lleol / consortia
- cydlynu â chyflwyno dull hunanarfarnu cenedlaethol
- atal y cylch adroddiadau arolygu ffurfiol am gyfnod wrth i arolygwyr ymgysylltu ag ysgolion i ddysgu am wireddu'r cwricwlwm cenedlaethol newydd a'i gynorthwyo
- cynnydd gam-wrth-gam tuag at fodel atebolrwydd hunanarfarnu wedi'i ddilysu, ar gyflymder sy'n gyson â gallu cynyddol ysgolion i hunanarfarnu a datblygu'r cwricwlwm newydd
- y goblygiadau strwythurol a logistaidd yn deillio o ystyried yr adroddiad hwn

### Llywodraethu Estyn

29 Dylid diffinio llywodraethu Estyn, gan gynnwys trefniant i ddiogelu ei annibyniaeth a'i berthynas ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, mewn Dogfen Fframwaith.

30 Dylid ystyried penodi cyfarwyddwr anweithredol i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gadeirio'r Bwrdd Strategaeth.

31 Trwy adeiladu ar drefniadau presennol arolygwyr arweiniol awdurdodau lleol, dylai Estyn ystyried y ffordd orau i alluogi i'w staff ysgwyddo cyfrifoldebau tiriogaethol dros ymgysylltu ag ysgolion mewn ardaloedd penodol, a dylai fod timau sy'n gysylltiedig â'r consortia rhanbarthol.

32 Dylid cryfhau adolygiadau Estyn o'i berfformiad ei hun trwy ymgorffori elfennau allanol, gan gynnwys gweinyddu a dadansoddi holiaduron arfarnu.

33 Dylid adolygu trefniadau ariannu Estyn i'w alluogi i gynllunio adnoddau tymor hwy a chydnabod yn fwy eglur oblygiadau gweithgareddau ychwanegol yn gysylltiedig â diwygio o ran adnoddau.

**Goblygiadau ehangach**

34 Dylai datblygu fframwaith arfarnu ac asesu cenedlaethol ac adolygu'r model cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion ystyried argymhellion yr Adolygiad hwn yn llawn.

## Cyfeiriadau


Alvik, T. (1996) School Self-Evaluation: A Whole School Approach quoted in OECD (2013) op cit http://www.oecd.org/education/eag2013%20(eng)--FINAL%2020%20June%202013.pdf

Andrews, L. (2014). *Ministering to Education*. Parthian books

Arolygwyr ysgolion ac arolygiadau ysgolion: Cymru

Barber, M (2004). *The Virtue of Accountability: System Redesign, Inspection and Incentives in the Era of Informed Professionalism* Journal of Education 85 (1):7-38 http://www.bu.edu/journalofeducation/files/2011/06/BUJOE-185.1Barber.pdf

Barber, M., Chijioke, C., & Mourshed, M. (2010). Education: *How the world's most improved school systems keep getting better.* Llundain: McKinsey & Company.https://www.afn.ca/uploads/files/education2/how_the_world_most_improved_school_systems_mckinsey,_2010.pdf

Campbell, Donald (1975) Assessing the Impact of Planned Social Change, Dartmouth College http://portals.wi.wur.nl/files/docs/ppme/Assessing_impact_of_planned_social_change.pdf

Donaldson G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus.* Llywodraeth Cymru https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf

Education Scotland (2015) *How Good Is Our School* *https://education.gov.scot/improvement/Documents/Frameworks_SelfEvaluation/FRWK2_NIHeditHGIOS/FRWK2_HGIOS4.pdf*

Ehren, M et al (2015) *Comparing effects and side effects of different school inspection systems across Europe,* Journal of Comparative Education, Routledge

Elmore, R. (2007) *School Reform from the Inside Out*, Harvard Education Press

Estyn (2010) *Arweiniad ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc o Fedi 2010* https://www.estyn.llyw.cymru/document/arweiniad-ar-gyfer-arolygu-gwasanaethau-addysg-awdurdodau-lleol-ar-gyfer-plant-phobl-ifanc

Estyn (2016) *Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol* Estynhttps://www.estyn.llyw.cymru/document/fframwaith-llywodraethu-corfforaethol-estyn

Estyn (2017) Arweiniad ar weithgarwch dilynol ar gyfer ysgolion ac arolygwyr Awst 2017 https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Follow-up%20guidance%20for%20schools%20and%20inspectors%20-%20from%20Sept%2017%20cy.pdf

Estyn (2017) Arweiniad atodol: hunanarfarnu https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/arweiniad-atodol-hunanarfarnu

Estyn (2018) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016-2017* https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/adroddiad-blynyddol-2016-2017

Klerks, M (2013) The Effects of School Inspections: A Systematic Review quoted in Ehren et al 2015 http://janbri.nl/wp-content/uploads/2014/12/ORD-paper-2012-Review-Effect-School-Inspections-MKLERKS.pdf

Koretz (2017) 'The Testing Charade' University of Chicago Press

Leeuw F. (2002) *Reciprocity and Educational Evaluations by European Inspectorates: assumptions and reality checks.* Quality in Higher Education, Vol 8, No. 2 https://www.rug.nl/research/portal/files/3052042/LeeuwF-Reciprocity.pdf

Llywodraeth Cymru (2012) *Cynllun Gwella Ysgolion* http://learning.gov.wales/docs/learningwales/news/121025improvingschoolscy.pdf

Llywodraeth Cymru (2014) *Cymwys am Oes* https://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf

Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

Llywodraeth Cymru (2015), *Cymwys am Oes: Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*, Llywodraeth Cymru, Caerdydd. http://dera.ioe.ac.uk/24680/1/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-en_Redacted.pdf (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2016), *System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion, Dogfen ganllaw ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol*, Llywodraeth Cymru, Caerdydd https://gov.wales/docs/dcells/publications/180131-national-school-categorisation-system-guidance-cy.pdf

Llywodraeth Cymru (2017) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21* *https://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-cy.pdf*

Llywodraeth Cymru (2017) *Asesu cyfraniad Her Ysgolion Cymru i ganlyniadau a gyflawnwyd gan ysgolion Llwybrau Llwyddiant.* Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 38/2017 https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170724-assessing-contribtion-schools-challenge-cymru-outcomes-achieved-pathways-success-schools-cy.pdf

Llywodraeth Cymru (2017) Cyfrifiad Ysgolion https://gov.wales/docs/statistics/2017/170726-school-census-results-2017-cy.pdf

McKinsey 2007 *How the world's best-performing school systems come out on top* https://www.mckinsey.com/industries/social-sector/our-insights/how-the-worlds-best-performing-school-systems-come-out-on-top

OECD (2013). *Synergies for Better Learning.* OECD Publishing, Paris. http://www.oecd.org/education/school/Synergies%20for%20Better%20Learning_Summary.pdf

OECD (2014), *Improving Schools in Wales,* OECD Paris http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf

OECD (2017) *The Welsh Education Reform Journey: A Rapid Policy Assessment,* OECD Paris http://www.oecd.org/education/The-Welsh-Education-Reform-Journey-FINAL.pdfhttp://www.oecd.org/education/The-Welsh-Education-Reform-Journey-FINAL.pdf

SICI (2013) *Bratislava Memorandum on Inspection and Innovation http://www.sici-inspectorates.eu/getattachment/ae886cf8-33b3-457d-a90a-d06ae4af5954*

Taylor C., Power S., Powell R., (2018) *Independent Review of Estyn's Contribution to Wales's Education Reform Programme,* WISERD, Prifysgol Caerdydd https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/WISERD%20Estyn%20Report%20Final%20v1.pdf

UK Parliament Acts/E/EA-EG/Education Act 2005 (2005 c 18) Chapter 3 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/18/contents

# Cylch gorchwyl

## Diben

Nodi goblygiadau'r rhaglen ddiwygio addysg yng Nghymru ar gyfer Estyn a gwneud argymhellion ar gyfer ei rôl a'i weithrediad yn y dyfodol.

## Amcanion

- Amlinellu cyfraniadau presennol a phosibl gwaith Estyn i wella ansawdd addysg yng Nghymru yng nghyd-destun diwylliant o atebolrwydd adeiladol.
- Sefydlu ffyrdd y gellid gwella cyfraniad Estyn i wella ansawdd addysg yng Nghymru ymhellach.
- Amlinellu'r goblygiadau ar gyfer gofynion gweithredu Estyn yn y dyfodol.
- Nodi'r goblygiadau ehangach ar gyfer y system addysg yng Nghymru.
- Ystyried p'un a ellid darparu adroddiad interim erbyn mis Hydref 2017.
- Darparu adroddiad a gwneud argymhellion ar gyfer rôl a gweithrediad Estyn yn y dyfodol erbyn yn gynnar yn 2018.

## Cynnal ar Adolygiad

Caiff yr adolygiad ei gynnal gan Graham Donaldson gyda chymorth gan dîm proffesiynol a gweinyddol bach.

Caiff Grŵp Cyfeirio ei ffurfio i fod yn fwrdd seinio ar gyfer yr adolygiad, er mai Graham Donaldson yn unig fydd yn gyfrifol am gynnwys yr adroddiad terfynol.

Bydd yr Adolygiad

- yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth bresennol o ymchwil ac arfer y tu hwnt i Gymru ar arolygu, gwella ansawdd ac atebolrwydd
- yn defnyddio tystiolaeth gan randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys technegau arsylwi, cyfweld ac arolygon, fel y bo'n briodol
- yn dadansoddi data a thystiolaeth arall yn ymwneud ag effaith arolygu a chyngor ar bolisi
- yn paratoi adroddiad (ac adroddiad interim o bosibl) i Ysgrifennydd y Cabinet a PAEM erbyn yn gynnar yn 2018

### Adrodd

Bydd yr Adolygiad yn adrodd ar y cyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Phrif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

### Amserlen

Bydd yr Adolygiad yn dechrau yn Awst 2017 ac yn adrodd yn gynnar yn 2018.  Mae'n bosibl y caiff adroddiad interim ei ddarparu fis Hydref 2017.